

O DINOPOLIS I FETROPOLIS

Arolwg o lanw a thrai achosion Ymneilltuol Cymraeg
yn Llanelli a Llundain 1714-2014

Traethawd a gyflwynir i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
yn unol â chanllawiau ar gyfer y radd
PhD (Gweithiau Cyhoeddedig)

2018

HUW EDWARDS

Llundain

DIOLCHIADAU

Dymunaf ddiolch i'm gwraig a'm plant am eu hamynedd a'u cefnogaeth gyson gydol cyfnod hir o ymchwilio ac ysgrifennu.

Carwn ddiolch yn ogystal i'm tiwtoriaid – y Dr Robert Pope a'r Dr Catrin Williams yn bennaf yn eu plith – a holl staff y Brifysgol am eu caredigrwydd a'u parodrwydd i gynnig cymorth a chynghor.

Yr wyf yn hynod ddyledus i'r Is-Ganghellor, yr Athro Medwin Hughes, am ei anogaeth a'i ofal.

O DINOPOLIS I FETROPOLIS

Arolwg o lanw a thrai achosion Ymneilltuol Cymraeg yn Llanelli a Llundain
1714-2014

CYNNWYS

1. Cyflwyniad
2. Capeli Llanelli – hanesyddiaeth
3. Capeli Llanelli – braslun a ffynonellau
4. Capeli Llanelli – cyfraniad
5. City Mission a'r erthyglau – hanesyddiaeth
6. City Mission a'r erthyglau – braslun a ffynonellau
7. City Mission a'r erthyglau – cyfraniad
8. Casgliadau
9. Llyfryddiaeth gyflawn

PRIF GYFEIRIADAU

(CL)

Edwards, H. (2009) *Capeli Llanelli: Our Rich Heritage*. Caerfyrddin: Cyngor Sir Gaerfyrddin, tt. 550.

(CM)

Edwards, H. (2014) *City Mission: The Story of London's Welsh Chapels*. Talybont: Y Lolfa, pp. 368.

(CT)

Edwards, H. (2016) 'Codi trywydd: y bregeth Gymraeg yn Llundain cyn cyfnod Howel Harris', yn *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 40 (2016), 27-46.

(OT)

Edwards, H. (2017) 'On the trail of Ginshop Jones: Welsh Nonconformists in Eighteenth-Century London', in *Welsh History Review*, 28/3 (2017), 470-86.

1. CYFLWYNIAD

Ffrwyth degawd o ymchwilio, darlledu, ysgrifennu a chyhoeddi yw'r cyfrolau a'r ysgrifau a gyflwynir. Seilir yr ymdriniaeth a ganlyn ar daith bersonol o Lanelli i Lundain a roes gyfle i mi – yn rhinwedd fy ngwaith yng Nghymru a Lloegr dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain a mwy – i fyfyrion ynghylch twf a chyfraniad rhai achosion Anghydfurfiol Cymraeg yn y ddwy wlad, ac i ymchwilio i'w nodweddion cymharol.

Datgelodd yr holl ymchwil gysylltiadau annisgwyl – yn enwedig o ran amllder cyfnewid gweinidogion – rhwng capeli Llanelli a chapeli Cymraeg Llundain. Bu hynny'n gyfrwng i mi ddilyn trywydd y stori yn unol â'm pererindod bersonol fy hun o Lanelli i Lundain. Treuliais ddegawd yn y brifddinas heb groesi trothwy unrhyw gapel neu eglwys, ond bu'r profiad o ddarganfod capel Cymraeg mewn stryd ddiaffordd yn ne Llundain¹ yn 1996 yn ddigon i aildanio fy niddordeb.

Canlyniad yr holl chwilota oedd medru cyflwyno hanes nifer o achosion am y tro cyntaf, taflu goleuni newydd ar agweddau eraill a'u gosod mewn cyd-destun priodol, a chywiro rhai elfennau pwysig o'r naratif traddodiadol, hirsefydlog. Cloriannwyd y cynnwys mewn dwy gyfrol – *Capeli Llanelli* (2009) a *City Mission* (2014) – a dwy erthygl gyhoeddedig – 'Codi trywydd: y bregeth Gymraeg yn Llundain cyn cyfnod Howel Harris' (2016) ac 'On the trail of Ginshop Jones: Welsh Nonconformists in eighteenth-century London' (2017). Y mae cyfnod yr astudiaeth yn ymestyn dros dair canrif o 1714, sef dyddiad y bregeth Gymraeg

¹ Eglwys Gymraeg Clapham Junction, Beauchamp Road, SW11.

gyntaf yn Llundain y mae gennym gofnod ohoni, hyd 2014, sef y flwyddyn y cwblhawyd y gwaith ar y capeli sy'n dal i fodoli.

Bu'r holl ymchwil a roes fodolaeth i *Capeli Llanelli, City Mission* a'r ddwy ysgrif gyhoeddedig hefyd yn gysylltiedig â sawl cyfres deledu a sgriptiwyd ac a gyflwynwyd gennyf ar hanes Cymru, hanes yr iaith Gymraeg (a'i chyd-destun crefyddol), hanes ffydd yng Nghymru, hanes capeli Llanelli, a hanes y Cymry yn Llundain.²

Cynnyrch pedair blynedd o astudio ac ymchwilio oedd *Capeli Llanelli*, cyfrol ddwyieithog y'm hysgogwyd i'w llunio o weld capeli'r dref yn prysur ddiplannu, ac o sylweddoli cyn lleied o waith a wnaed i grynhoi a chyfannu hanes yr achosion niferus a'u rhoi mewn cyd-destun hanesyddol a chymdeithasol. Dros y blynyddoedd, fe groniclwyd darnau o hanes rhai achosion unigol, ond ni chafwyd yr un ymgais i gynnig arolwg manwl a phanoramig fel ei gilydd o wreiddiau a thwf – a dirywiad, yn ddiweddarach – y llu o gapeli Anghydfurfiol yng nghanol tref Llanelli. Mae'r gyfrol yn mynd tu hwnt i'r cyhoeddiadau blaenorol trwy goladu'r holl dystiolaeth leol am ddechreuadau'r achosion, trwy esbonio cryfder a gwendid perthynol y gwahanol enwadau crefyddol yn y dref, trwy osod y capeli a'u gweinidogion a'u haelodau yn eu cyd-destun cymdeithasol – a gwleidyddol, ar dro – a thrwy geisio esbonio cyfraniad capeli'r dref i ddiwylliant lleol a chenedlaethol.

² *The Story of Welsh* (Greenbay/BBC Cymru/Wales/BBC FOUR, 2002); *Bread of Heaven - The Story of Faith in Wales* (Greenbay/BBC TWO/BBC Cymru/Wales, 2004); *The Welsh in London* (Element Productions/BBC FOUR/BBC Cymru/Wales, 2006); *Hidden Histories* (Element Productions/BBC Cymru/Wales, 2007); *The Story of Wales* (Greenbay/BBC Cymru/Wales/BBC TWO/The Open University, 2012); *Creu Cymru Fodern* (Greenbay/S4C, 2013); *Cymry Estron* (Wales&Co/Alpha/S4C, 2015).

Y mae *Capeli Llanelli*, felly, yn ymgais i grynhoi am y tro cyntaf hanes yr holl gapeli³ a sefydlwyd yng nghanol tref Llanelli – heb gyfrif y dwsinau yn yr ardaloedd cyfagos. Y mae Llanelli yn dref y perthyn iddi draddodiad capelgar gyda’r mwyaf cyfoethog a symbylol yng Nghymru yn rhinwedd nifer y capeli a chryfder eu haelodaeth – yn berthynol i faint poblogaeth y dref – a chyfraniad yr achosion i gymeriad cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol y gymuned. Yn y cyd-destun hwnnw y dylem ystyried gosodiad y Dr Thomas Rees ym 1871: ‘Dichon nad oes yr un dref yn ein gwlad ag y mae dylanwad Ymneillduaeth yn cael ei deimlo yn fwy ynddi.’⁴ Iddo ef a’i debyg, Llanelli oedd yr esiampl fwyaf nodedig yng Nghymru o dref ddiwydiannol – y ‘Tinopolis’ enwog, yn rhinwedd ei diwydiannau metel – Gymraeg ei hiaith, yn cynnal diwylliant capelgar eang.

Gellir dadlau o bosib fod y pwyslais hwn ar yr elfen ‘leol’ yn llai arwyddocaol na phwyslais ar naratif ‘cyffredinol’ neu gyfanfydol, ond mae’r ddeinameg leol – yn enwedig os gellir ei chymharu â deinameg gyffelyb mewn man arall – yn gallu bod yn ddadlennol a defnyddiol.⁵ Gellir haeru yn ogystal fod hanes lleol yr un mor ddilys ag unrhyw hanes hollgyffredinol gan fod profiadau unigolion yn ymdarddu trwy gyfrwng ac ar sail digwyddiadau mewn lleoedd penodol, yn hytrach nag ar sail unrhyw ddealltwriaeth neu ddirnadaeth gyffredinol. Y mae’r pwynt hwn yn rhan hollbwysig o sail resymegol y gweithiau a’r traethawd. Y mae trin hanes mewn categorïau cyffredinol neu haniaethol yn gwbl angenrheidiol, wrth reswm, ond gellir haeru nad yw’n dod yn agos at brofiad penodol yr unigolyn. Nid fel grŵp haniaethol y

³ Annibynwyr – Capel Als (1780), Park Church (1839), Siloah (1841), Capel-y-doc (1867), Tabernacl (1875), Ebenezer (1881), Lloyd Street (1886), Soar (1887); Bedyddwyr – Sion (1831), Bethel (1843), Greenfield (1858), Bethania-Emmanuel (1870), Moriah (1872), Calfaria (1881), Caersalem (1893); Methodistiaid – Capel Newydd (1786), Hall Street a Jerusalem (1793), Trinitï (1858), Presbyterian (1873), Siloh (1875), Glenalla (1909).

⁴ T. Rees a J. Thomas, *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, Cyfrol III (Liverpool: Y Tyst Cymreig, 1871), tt. 478-479.

⁵ David Bebbington, *Victorian Religious Revivals: Culture and Piety in Local and Global Culture* (Oxford: OUP, 2012), tt. 43-44.

profodd pobl Llanelli a Llundain fywyd a gweithgaredd eu manau addoli, ond fesul y capeli (neu'r eglwysi) unigol y perthynent iddynt. Awgrymir o'r herwydd fod hanes yr achosion unigol yn bwysig ac arwyddocaol oherwydd fel capeli neu eglwysi unigol y dylanwadent ar genedlaethau o bobl. Y mae'r persbectif hwn yn ychwanegu o reidrwydd at werth y gyfrol a'i chyfraniad at ein gwybodaeth.

Pe derbynnir mai ar sail nifer yr achosion a maint eu haelodaeth y dylid mesur cryfder y capeli mewn unrhyw gyfnod, gellir datgan mai yn ystod y 1930au y gwelwyd penllanw Anghydfurfiaeth yn Llanelli. Ar drothwy'r Ail Ryfel Byd, ceid cyfanswm o ychydig dros 12,000 o aelodau (oedolion) mewn 22 o gapeli yn Llanelli⁶ – tref o 33,000 o drigolion⁷ – heb anghofio bod carfan sylweddol o addolwyr eraill yn mynychu pump o eglwysi Anglicanaidd ac un eglwys Babyddol y dref. Bryd hynny bernid mai Llanelli oedd y dref fwyaf yn y byd lle medrai mwyafrif y boblogaeth siarad un o'r ieithoedd Celtaidd.⁸ Yr oedd mwyafrif y boblogaeth yn dal i siarad Cymraeg yn ôl cyfrifiad 1961, ond erbyn 2011 fe ddisgynnodd canran y Cymry Cymraeg yn y dref i 23.7%.⁹ Peth naturiol yw gosod y dirywiad hyn ochr yn ochr â thranc y capeli Cymraeg eu hiaith.

Fel y digwyddai fod, cyhoeddwyd *Capeli Llanelli* ar y funud olaf un o ran bodolaeth nifer o gapeli'r dref. Gellir dadlau mai prif swyddogaeth y gyfrol – swyddogaeth syml ond tra phwysig – oedd gwneud cofnod priodol, gan mai ychydig iawn o gofnodi cyfrifol a wnaed dros y blynyddoedd. Gellir haeru ymhellach mai mynd i ebargofiant fyddai hanes mwyafrif

⁶ Ar sail yr ystadegau swyddogol yn adroddiadau blynyddol y capeli am 1938-39.

⁷ Darparwyd yr ystadegau 2 Mawrth 2014 gan staff Adran Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin.

⁸ John Davies, Nigel Jenkins, Menna Baines and Peredur I. Lynch (eds.), *The Welsh Academy Encyclopedia of Wales* (Cardiff: University of Wales Press 2008), tt. 483-484.

⁹ Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). 'Cyfrifiad 2011: Ystadegau Allweddol ar gyfer Cymru, Mawrth 2011.' Nid yw'r canran yn cynnwys y pentrefi cyfagos.

capeli'r dref heb ymddangosiad *Capeli Llanelli*. Lawn cyn bwysiced â hynny yw nodi bod y broses o gofnodi wedi arwain at ehangu a chyfoethogi'r naratif swyddogol, cywiro'r naratif lle bu angen, a gwneud rhaid yn rhinwedd trwy lunio naratif newydd lle bu hynny'n briodol.

Yn yr un modd, datgelodd yr holl ymchwil gysylltiadau niferus ac annisgwyl rhwng capeli Llanelli a chapeli Cymraeg Llundain. Y mae i werin Llanelli le teilwng yn stori'r mudo tragywydd rhwng Cymru a Llundain. Tyrrodd cenedlaethau o wrêng a bonedd Cymru dros y canrifoedd i 'Lundain fawr y bri a'r brasder'¹⁰ â'u holl fryd ar ffynnu a llwyddo yng nghyffro dihafal y brifddinas. Y mae i hanes y llif dynol o Gymru ei ramant a'i gyfaredd diamheuol, hanes sy'n cynnwys byddin o laethwyr a phorthmyn, gweision fferm a gweuwyr sanau, garddwagedd a thafarnwyr, heb sôn am gyfreithwyr ac athrawon, meddygon a milwyr, ac – yn enwedig yn achos Llanelli – gweinidogion o bob enwad Anghydfurfiol.

Er bod tref Llanelli, ar gyfrif ei chryfder Anghydfurfiol, wedi denu rhai o bregethwyr mwyaf y genedl i fugeilio ei chapeli, bu hefyd yn sbringfwrdd hynod effeithiol a roes hwb i yrfa rhai o weinidogion mwyaf amlwg capeli Llundain, gan gynnwys tri a fuasai'n weinidogion yn Siloh, Llanelli – J. E. Davies ('Rhuddwawr') (1850-1929) a D. S. Owen (1887-1959), ill dau yn weinidogion Jewin, ac M. H. Edwards (1872-1942), Falmouth Road – ynghyd ag H. Elvet Lewis ('Elfed') (1860-1953), gweinidog Park Church, Llanelli, a dreuliodd 36 mlynedd yng Nghapel Annibynnol King's Cross, a Maurice Griffiths (1863-1943), gweinidog y Presbyterian Church, Llanelli, a dreuliodd ddegawd yn Llundain yn gwasanaethu holl gapeli'r Methodistiaid Calfinaidd yno.

¹⁰ Peter Hughes Griffiths, *Llais o Lundain* (Lerpwl: Hugh Evans a'i Feibion, 1912), t. 22.

Yn gyfochrog â'r pererindodau cofnodedig hyn, ceir yma daith bersonol ar lefel ehangach, sef taith deuluol y mae iddi fan cychwyn amlwg ar drothwy'r ugeinfed ganrif pan ymdaflodd gwas fferm o Ddyffryn Aeron i fwg a tharth Llundain. Fe'i gyrrwyd ef a miloedd o Gymry eraill i'r brifddinas gan dlodi ysgytiol, ond cymharol fyr fu arhosiad fy hen dad-cu, Daniel Edwards, fel llaethwr yn ardal Paddington. Yr oedd yn rhy hoff o'r ddiod, ac fe'i gorfodwyd i ddychwelyd i Geredigion gyda'i wraig a'i fab ifanc. Arhosodd ei frawd, Jenkin, yn Llundain gan adeiladu busnes llaeth llewyrchus iawn yn ardal yr East End.

Y mae hanes y ddau frawd yn cynnig trem ar brofiad amryfal y Cymry yn Llundain dros gyfnod maith o bum canrif a mwy. Yn achos penodol Daniel a Jenkin Edwards, a haid enfawr o Gymry gwerinol eraill, bu iddynt orfod gadael gwlad eu mebyd am resymau economaidd caled. Ymgartrefent gan amlaf yn ardaloedd tlotaf Llundain – yr East End, ac ardaloedd deheuol Lambeth, Southwark a Deptford yn bennaf – lle cynhalient fywyd Cymraeg a Chymreig ym mherfedd Seisnigrwydd y ddinas. Prif ffocysau'r Cymreictod hwnnw oedd bywyd teulu a bywyd capel. Bu Jenkin Edwards a nifer o'i berthnasau yn aelodau o gapeli Cymraeg y Methodistiaid Calfinaidd yn nwyrain Llundain – yn Mile End, Stratford, Walthamstow a Leytonstone – ar hyd eu hoes.

Y mae *City Mission* – ynghyd â'r ddwy ysgrif gyhoeddedig – yn adrodd hanes capeli Cymraeg Llundain¹¹ yn ei gyfanrwydd am y tro cyntaf, gan ddarganfod ffeithiau newydd, gan

¹¹ Methodistiaid Calfinaidd (Eglwys Bresbyteraidd Cymru) – Jewin (c.1772), Woolwich (c.1790), Deptford (c.1799), Charing Cross Road (c.1831), Mile End Road (c.1853), Wilton Square (1853), Falmouth Road (1854), Shirland Road (1864), Holloway (1865), Islington (c.1869), Hammersmith (1883), Stratford (c.1892), Clapham Junction (1896), Walham Green (1897), Willesden Green (1898), Lewisham (1899), Walthamstow/Leytonstone (1903), Wood Green (1904), Ealing Green (1907), Sutton (1933), Wembley (1939), Eglwys-y-Drindod (2004); Annibynwyr – Borough (c.1790), Deptford (c.1790), Woolwich (c.1790), Barrett's Grove (1846), King's Cross (1847), Radnor Walk (1859), East Ham (1899), Battersea Rise (1906), Harrow (1937), Luton (1938), Slough (1938); Methodistiaid Wesleiaidd – City Road (1812), Chiltern Street (1868), Cumberland Road (1945); Bedyddwyr – Eldon Street (1817), Eastcastle Street (1859), Eglwys Gymraeg Canol Llundain (2006);

newid cwrs yr hanes cyfarwydd, a chan ddyfnhau ein dealltwriaeth o ddatblygiad a chyfraniad y capeli Cymraeg ym mhrifddinas Lloegr.

Y mae *City Mission* yn delio yn ogystal â hanes yr eglwysi Anglicanaidd Cymraeg yn Llundain, elfen dra phwysig o fywyd crefyddol y Cymry yn Llundain y talwyd sylw pitw iddi yn y gorffennol. Esbonnir ymhellach yn ‘Codi trywydd: y bregeth Gymraeg yn Llundain cyn cyfnod Howel Harris’ (2016) mai yn eglwysi Anglicanaidd y ddinas y traddodwyd y pregethau Cymraeg cyntaf yn Llundain – mewn gwasanaethau rheolaidd – y mae gennym gofnod ohonynt, gan gofio mai o’r tradoddiad Anglicanaidd yr ymffurfiodd y drefn Fethodistaidd dan arweiniad Howel Harris a Daniel Rowland a’u cyd-anogwyr.

Y mae i’r llu o achosion crefyddol Anghydfurfiol Cymraeg, ac i’r llond dwrn o eglwysi Anglicanaidd Cymraeg, le gyda’r pwysicaf yn hanes y Cymry yn Llundain o ddiwedd y ddeunawfed ganrif pan sefydlwyd yr achos Anghydfurfiol Cymraeg cyntaf. Bu’r achosion hyn – a’u harweinwyr – yn ddylanwad pwysig nid yn unig ar fywyd Llundain, ond ar fywyd crefyddol a diwylliannol Cymru yn ogystal.

Yn debyg i batrwm Llanelli, tyfodd y capeli a’r canghennau Llundainig yn gyson nes cyrraedd y pinacl – o ran nifer yr achosion a rhifau aelodaeth – yn y 1930au. Yn *Llawlyfr Cymry Llundain 1938-39*¹² rhestrwyd 31 o brif achosion Anghydfurfiol yn perthyn i’r Cymry, ynghyd â hanner dwsin o ganghennau Ysgol Sul, a phump o eglwysi Anglicanaidd – y cyfan ohonynt yn addoli yn yr iaith Gymraeg. Ceid yn y brifddinas rwydwaith o gapeli ac

Anglicanaid – St Etheldreda (1843), St Benet (1879), Dewi Sant (1896), St Mair (1898), St Padarn (1894), St Rhystyd (1914).

¹² *Llawlyfr Cymry Llundain - The London Welsh Yearbook 1938-39* (Llundain: Undeb y Cymdeithasau Diwylliannol a Chymdeithas Cymry Ieuainc Llundain, 1938).

eglwysi gweithgar yn cynnal bywyd Cymraeg naturiol ac amrywiol. Yr oeddynt yn gymaint o ganolfannau cymdeithasol a diwylliannol ag yr oeddynt o ganolfannau crefyddol. Ond yn wahanol i Lanelli, lle bu ymgecru ac ymgynhennu yn un o brif ffactorau'r ehangu, proses gymharol naturiol o dyfu organig oedd prif nodwedd twf capeli Llundain.

Dros y blynyddoedd croniclwyd darnau o'r hanes gan rai haneswyr a selogion ond ni chafwyd yr un ymgais i gynnig arolwg fanwl o wreiddiau a phatrwm hanes cynnar achosion crefyddol Cymraeg Llundain. Esbonnir yn 'On the trail of Ginshop Jones: Welsh Nonconformists in eighteenth-century London' (2017) sut y bu i'r cyn-filwr Edward Jones ddefnyddio'i gyfoeth i feddiannu capel Wilderness Row, a datgelir ffeithiau newydd am gefndir ac amgylchiadau un o ffigyrau mwyaf allweddol – a dyrys – yr hanes cynnar.

Codir cwestiwn pwysig yn ogystal ynghylch natur a ffurfioldeb y cynulladau cynnar, a'r broses o'u categoreiddio yn achosion didoledig neu 'eglwysi'. Prin, eto, yw'r dystiolaeth yma ond mae'r drafodaeth ehangach¹³ am natur a chymeriad 'eglwys' – ddoe a heddiw – yn ddefnyddiol wrth ystyried y ffactorau allweddol yn nhwf yr achosion Anghydfurfiol.

Cyfrol yw *City Mission* sy'n torri tir newydd mewn sawl cyfeiriad: datgelir ac esbonnir sut y bu i'r rhwydwaith o gapeli fwrw gwreiddiau a thyfu, a sut y bu i'r amgylchiadau gwleidyddol, cymdeithasol a brenhinol yn nechrau'r ddeunawfed ganrif arwain at sefydlu patrwm newydd o addoli yn yr iaith Gymraeg yn Llundain. Y mae'r gyfrol ynghyd â'r ddwy ysgrif yn cynnig darlun mwy cynhwysfawr o ddatblygiad y capeli a'r eglwysi yn Llundain, ac esboniad amgenach o'u cyd-destun cymdeithasol a'u cyfraniad diwylliannol. Y maent hefyd

¹³ Michael Jenkins, *The Church Faces Death* (Oxford: OUP, 1999), tt. 69-72.

yn ychwanegu nifer o ffeithiau canolog ac yn delio â nifer o anghysondebau yn y naratif traddodiadol.

Dylid nodi na chyhoeddwyd y ddwy gyfrol gyda'r bwriad o geisio am radd ymchwil, ac felly ni chyflwynir y llyfrau yn ôl union gonfensiynau a disgwyliadau arferol gwaith academiaidd. Serch hynny, gwreiddiwyd honiadau a chasgliadau'r cyfrolau yn yr ymchwil mwyaf trylwyr a chynhwysfawr i'r ffynonellau priodol, yn debyg i'r disgwyl wrth baratoi traethawd ymchwil.

Yn yr ymdriniaeth a ganlyn, telir sylw yn gyntaf i gyfrol *Capeli Llanelli* a'i gosod yng nghyd-destun yr ymchwil a'r cyhoeddiadau blaenorol. Esbonnir ystod a natur y ffynonellau ymchwil ac fe ddadansoddir cyfraniad y gyfrol ochr yn ochr â'r deunydd cynt.

Gwnaed penderfyniad i gynnwys *City Mission* ynghyd â'r ddwy erthygl gyhoeddedig – 'Codi trywydd: y bregeth Gymraeg yn Llundain cyn cyfnod Howel Harris' ac 'On the trail of Ginshop Jones: Welsh Nonconformists in eighteenth-century London' – mewn un adran. Gellir haeru bod y ddwy erthygl yn cynnig gwybodaeth arwyddocaol ac ychwanegol at gynnwys *City Mission* – a'u bod yn gymheiriaid i'w gilydd – ac y byddai ymdriniaeth ar wahân yn gymharol ddi-fudd. Penderfynwyd o'r herwydd mai gwell fyddai ystyried cyfraniad y tri chyhoeddiad ar y cyd, a'u hasesu yn eu cyfanrwydd o safbwynt ffynonellau ymchwil a chyfraniad.

Gwneir ymgais i fesur a phwyso gwerth hanesion Llanelli a Llundain yn y bennod olaf un, cyn cynnig llyfryddiaeth gynhwysfawr sy'n darparu fframwaith letach ar gyfer yr holl ymchwil a wnaed yng Nghymru a Lloegr ers 2006.

2. CAPELI LLANELLI – HANESYDDIAETH

Cyfrol ddwyieithog ar wreiddiau, twf a dirywiad y capeli Anghydfurfiol yn nhref fwyaf Sir Gaerfyrddin – dros gyfnod sy'n ymestyn o hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif hyd ddechrau'r unfed ganrif ar hugain – yw *Capeli Llanelli: Our Rich Heritage* (2009).

Y mae'n gyfrol sy'n ychwanegu at ein dealltwriaeth o le canolog y capeli yn hanes crefyddol, ieithyddol a chymdeithasol y dref. Ychwanega yn ogystal at y rhestr o gyhoeddiadau sy'n delio â'r maes hwn ar lefel genedlaethol a sirol, ond y mae hefyd yn cynnig astudiaeth fwy cynhwysfawr a mwy diweddar o fywyd y capeli a'u cyfraniad amrywiol i ddiwylliant y dref na'r hyn a geir mewn unrhyw gyfrol arall.

Yr unig gyhoeddiad sy'n olrhain datblygiad Cristnogaeth yn ardal Llanelli yw *Footprints of faith: aspects of the origins and growth of Christianity in the Llanelli area* (1990), casgliad o draethodau cryno a olygwyd gan hanesydd lleol, John Edwards. Ceir ynddo ddisgrifiad bras o wreiddiau'r eglwysi plwyfol yng ngwaelod y sir – maes sydd y tu hwnt i ffiniau *Capeli Llanelli* – ynghyd â chrynodeb o ddechreuadau addoli Ymneilltuol yn Llanelli cyn ac yn ystod datblygiad diwydiannol y dref, o gychwyn yr achos cyntaf ym 1780 hyd ddegawd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain. Canolbwyntir ar ddau gymeriad cyhyrog – sef y carn-Anghydfurfiwr David Rees (1801-69), y gweinidog mwyaf dylanwadol yn hanes Llanelli, a'i archelyn Ebenezer Morris (1790-1867), y carn-Anglicaniad a ficer plwyf Llanelli – ac ar y frwydr fawr rhyngddynt ar fater rhyddid crefyddol, brwydr leol a hawliodd benawdau cenedlaethol. Ac er bod yn y gyfrol ddisgrifiad elfennol o ddatblygiad amrywiol y gwahanol enwadau Anghydfurfiol, ychydig iawn o fanylion a gynigir am y capeli unigol a

hanes y cysylltiadau rhyngddynt. Cyhoeddwyd fersiwn gryno o'r un deunydd yn *Llanelli, Story of a Town* (2001) gan yr un awdur. Y mae gan John Innes yn *Old Llanelly* (1902) amlinelliad o'r un ffeithiau canolog.

Er tegwch, ceir gan Wyn Evans, Noel Gibbard a Maurice Loader gyflwyniadau defnyddiol yn *Footprints of faith* sy'n llwyddo crynhoi canrifoedd o hanes, ond fe adawyd clamp o fwch i'w lenwi o ran creu cofnod cynhwysfawr o wreiddiau a hynt holl gapeli Llanelli a'u priod leoedd yn hanes y dref a'i thrigolion. Gyda'r bwriad o lenwi'r bwch hwnnw, ac ychwanegu yn sylweddol at ein gwybodaeth o hanes crefyddol y dref, bron ugain mlynedd ar ôl cyhoeddi *Footprints of faith*, y dechreuwyd llunio'r prosiect ymchwil ar gapeli Llanelli – a hynny mewn cyfnod nid o drai, bellach, ond o chwalfa ddiymwad – er mwyn sicrhau y byddai hanes ac arwyddocâd y capeli wedi ei gofnodi yn drylwyr a theilwng.

Dros y blynyddoedd, yn amlach na pheidio er mwyn cydnabod carreg filltir nodedig, rhoes ambell weinidog neu swyddog sylw i hanes ei gapel ei hun. Ac yn eu gwahanol ffyrdd, darparodd yr enwadau unigol gyfrolau neu lyfrynau neu erthyglau, rhai ar lefel genedlaethol neu sirol neu drefol, a'r mwyafrif ar lefel yr achos unigol. Ond cyn cyhoeddi *Capeli Llanelli* nid oedd unrhyw arolwg ar gael o ddatblygiad achosion Anghydfurfiol y dref, ac fe ychwanegodd y gyfrol at ein gwybodaeth o hanes capeli unigol yn ogystal â hanes crefydd y dref.

Ceir gan y Bedyddwyr, yr Annibynwyr ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru (sef y Methodistiaid Calfinaidd tan 1933) ill tri gyfuniad o ddeunydd ar eu mameglwysi yn y dref ac ar gyd-destun eu datblygiad fel enwadau cenedlaethol. Darpariaeth llai boddhaol, mewn cymhariaeth, yw

deunydd y Methodistiaid Wesleidd, yn bennaf oherwydd eu presenoldeb llai amlwg yn ardal Llanelli.

Bu'r Bedyddwyr yn weithgar yn ne Sir Gaerfyrddin cyn bod sôn yno am weithgaredd Fethodistaidd neu Annibynnol, ond buont yn araf iawn cyn sefydlu achos didoledig yn nhref Llanelli. Y prif waith ar dwf y Bedyddwyr trwy Gymru yw cyfrol T. M. Bassett, *Bedyddwyr Cymru* (1977), cyfrol a ychwanegodd yn sylweddol at waith arloesol Joshua Thomas, *Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry* (1778), a *Hanes y Bedyddwyr yn Neheubarth Cymru* gan David Jones (1839). Prif rinwedd *Bedyddwyr Cymru* o ran hanes Sir Gaerfyrddin yw esbonio'r cyswllt hanfodol rhwng eglwys hynafol John Miles ym Mro Gŵyr (1649) a chychwyn achos cyntaf y Bedyddwyr ar gyrion Llanelli yn y Felin-foel (1709). Ymhelaethir ar hanes y Felin-foel yn *Eglwys y Bedyddwyr yn y Felinfoel, ger Llanelli* gan J. George (1887), *Hanes Bedyddwyr Felinfoel* gan B. Humphreys (1909), a *Hanes achos y Bedyddwyr yn y Felin-foel* (1959), cyfrol a olygwyd gan W. J. Rhys. O'r Felin-foel y tarddodd achosion Bedyddwyr tref Llanelli: nid annisgwyl, efallai, yw'r ffaith bod cyfeiriadau Bassett at Felin-foel bron mor niferus â'r sylwadau am Lanelli. Ar gynfas mor eang, y mae'n naturiol na cheir cyfle i fanylu ar ddatblygiad achosion Llanelli neu unrhyw dref arall, ac o'r herwydd erys bylchau pwysig yn ein gwybodaeth am hanes capeli a chrefydd y dref.

Llenwir rhai o'r bylchau gan ysgrif D. Huw Owen ar 'Eglwysi Bedyddwyr Llanelli a'r Cylch' (1992) sy'n crynhoi mewn deuddeg tudalen hanes y dechreuadau yn y Felin-foel, sefydlu'r achosion cyntaf yn Llanelli, natur eu gweithgaredd a'u cyfraniad addysgol a cherddorol, a blaenoriaeth enwad y Bedyddwyr yn y dref o ran nifer yr aelodau cofrestredig. Gan fod yr ysgrif yn delio â'r pentrefi cyfagos yn ogystal â thref Llanelli, prin yw'r cyfle i

fanylu ar unrhyw achos unigol neu ar gyfraniad unigolion arbennig. Dylid nodi bod sefyllfa'r Bedyddwyr yn Llanelli wedi dirywio yn enbyd ers cyhoeddi'r ysgrif hon, ac un o brif ddibenion ysgrifennu *Capeli Llanelli* oedd cyfannu a diweddarau'r hanes.

Yr unig gyfrolau sy'n croniclo'n drylwyr hanes achosion penodol y Bedyddwyr yn y dref yw *Hanes Eglwys Capel Sion Llanelli* (1931) gan E. T. Jones, a'r diweddariad, *Hanes Sion, Llanelli, Eglwys y Bedyddwyr* (1947) gan T. R. Jones. Y mae'r ddwy gyfrol yn cynnig darlun manwl o gapel mwyaf poblog Llanelli a'i weinidogion blaengar – er bod gormod o wyngalchu a lliwio ffeithiau ar adegau – o'i wreiddiau llipa (1831) a'i dwf cyhyrog hyd at y cyfnod o drai wedi'r Ail Ryfel Byd. Cafwyd clasur o bortread o weinidog a ffigwr cenedlaethol yn ei gynefin yn *Cofiant y Parch. J. Rhys Morgan DD (Lleurwg)* gan D. B. Richards a T. Morgan (1908), a lluniwyd dadansoddiad dadlennol o weinidogaeth E. T. Jones (1857-1935), un o bregethwyr mwyaf poblogaidd yr ugeinfed ganrif yng Nghymru, gan Huw Roberts yn *Cyfres y Dathlu: E. T. Jones, Llanelli* (1966), ac *Atgofion am E. T. Jones* (1967). Erbyn 2009 nid oedd Eglwys Seion ond cysgod o'r hyn a fuasai gynt. Dylid tanlinellu mai cyfrolau a gyhoeddwyd ddegawdau yn ôl yw'r rhai a nodir uchod, ac un o brif ddibenion Capeli Llanelli oedd adrodd stori ail hanner yr ugeinfed ganrif a chyfeiriad anochel y trai.

Llyfrynnau defnyddiol ond llai swmpus yw'r gweddill sy'n ymwneud â chapeli unigol. Graham W. Hughes fu'n gyfrifol am *Goodly Heritage* (1958), crynodeb o hanes Greenfield, un o ddau gapel Saesneg yn eiddo i'r Bedyddwyr yn Llanelli. Bu hanes Greenfield yn y degawdau ar ôl cyhoeddi'r llyfryn yn gyfuniad o gynnwrf a chynnydd, ac mae'n syndod, o ystyried llwyddiant hynod yr achos cyfoes – mewn cyd-destun o ddirywiad cyffredinol – na wnaed unrhyw ymgais i ddiweddarau'r hanes cyn cyhoeddi *Capeli Llanelli*, dros hanner canrif

yn ddiweddarach. Huw Roberts fu'n gyfrifol am *Bethania Llanelli: hanes y gangen hon o Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist 1870-1970* (1970), ac fe'i nodweddir gan barodrwydd i gynnwys y melys a'r chwerw yn hanes yr eglwys. Ond unwaith eto, bu newid mawr ym mywyd a threfn yr eglwys ers cyhoeddi'r llyfryn, megis yn wir gydag O. Luther Nicholas a'i *Hanes Eglwys Moriah Llanelli 1872-1972* (1972), sef adroddiad di-lol o brif ddigwyddiadau a phrif gymeriadau'r achos hwnnw.

Ni chyhoeddwyd hanesion capeli Bethel, Calfaria a Chaersalem – heblaw am bytiau byr mewn llawlyfrau enwadol – cyn ymddangosiad *Capeli Llanelli*. Y mae hanes Calfaria yn bwysig oherwydd cyfnod cythryblus Daniel Hughes fel gweinidog. Adroddir am y tro cyntaf hanes ei weinidogaeth fympwyol, a'r ffaith iddo fod yn un o arloeswyr y Blaid Lafur yn Ne Cymru ac iddo gael ei erlid o'r herwydd. Aeth Ivor Thomas Rees ati i adrodd ei stori mewn cyfrol ddiweddarach, sef *Daniel Hughes: The Sledgehammer Pastor* (2015).

Y mae i hanes Annibyniaeth yn Llanelli nodwedd amlwg o'i gymharu â'r Bedyddwyr, sef corff o lenyddiaeth amgenach o lawer. Y prif waith ar dwf yr Annibynwyr trwy Gymru yw *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru* (5 cyfrol, 1871-1891) gan Thomas Rees a John Thomas, ac fe geir ffeithiau craidd am gychwyn yr achosion Annibynnol yn ardal Llanelli, yn ogystal â disgrifiad o waith yr arloeswyr. Ychwanegwyd at y corff pwysig hwn gan *Hanes Annibynwyr Cymru* (1966) ac *Yr Undeb: Hanes Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 1872-1972* (1975) gan R. Tudur Jones. Y mae'r ddau lyfr yn gyfraniadau o'r pwys mwyaf ac yn cyffwrdd â sawl elfen o stori Llanelli, gan gynnwys radicaliaeth David Rees, Capel Als, a'i ymgyrchoedd croch, yn ogystal ag effaith gwleidyddiaeth 'fewnol' yr Undeb ar gymeriadau megis Gwylfa Roberts (1871-1935), gweinidog y Tabernacl, yn rhinwedd ei fethiant i gipio anwenau'r llywyddiaeth.

Serch hynny nid ydynt yn cynnig unrhyw adroddiadau manwl ar hanesion capeli unigol. Yn *Ffydd Ac Argyfwng Cenedl* (1981) mae R. Tudur Jones yn delio â thranc y capeli – argyfwng ffydd, yn ei olwg ef – ac yn galw am weinidogaeth gyhyrog er mwyn goresgyn. Er cymaint eu gwerth, ffrwyth llafur hanner canrif yn ôl yw'r cyfrolau hyn, ac mae dirfawr angen gosod yr hanes mewn cyd-destun cyfoes gan fod hynt y capeli yn niwedd yr ugeinfed ganrif a dechrau'r ganrif ddilynol wedi bod hyd yn oed yn fwy dinistriol na'r hyn a ragwelwyd.

Ceir dadansoddiad penodol o wreiddiau'r achosion Annibynnol yn *The Roots of the Llanelli Independent Churches, 1662-1827* gan Maurice Loader (1999). Capel Als yw'r achos Anghydfurfiol hynaf yn Llanelli – fe'i corfforwyd ym 1780 – ac yn rhinwedd ei oedran ac amlygrwydd ei weinidog enwog, David Rees, hwn yw'r achos a ddenodd y sylw helaethaf gan haneswyr. Maurice Loader hefyd piau *Capel Als 1780-1980* (1980), cyfrol bwysig sy'n cyrraedd ymhellach na'r hanesion capel arferol o ran sylwi ar dueddiadau ac asesu cymhellion, yn enwedig yn achos David Rees. Dyma ddehongliad treiddgar a beirniadol sy'n osgoi'r seboni arferol – hynny yw, y math o beth a gyhoeddwyd gan Thomas Davies yn *Bywyd ac Ysgrifeniadau y Diweddar Barch. D. Rees, Llanelli* (1871), a D. Bowen yn *Hen Gymeriadau Capel Als, Llanelli* (1881) – ac y mae'n adeiladu ar yr astudiaeth ddigyffelyb a gafwyd gan Iorwerth Jones yn *David Rees y Cynhyrfwr* (1971). Cawn ynddi gyfres o fynegbyst trawiadol sy'n cyfleu'r tywyll a'r golau ym mywyd a gwaith a chymeriad David Rees fel arweinydd eglwys, ymgyrchydd gwleidyddol, cyhoeddwr, a gŵr busnes o allu amrywiol. Mewn ysgrif anghyhoeddedig (a diddyddiad) yn Llyfrgell Llanelli, sef *The Ministry of Revd David Rees, Capel Als, 1829-1869*, mae Maurice Loader yn darparu crynodeb craff o brif rinweddau a gwendidau'r dyn mawr. Yn fwy diweddar, cafwyd gan Rhodri Glyn yn ei draethawd doethur 'Cynhyrfer! Cynhyrfer! Cynhyrfer! – David Rees, y

diwygiwr ac arweiniad gwleidyddol ymneilltuol 1835-1865' (2010) ymgais i ganolbwyntio ar allu David Rees i ddefnyddio'r pulpud fel llwyfan i hybu ei radicaliaeth wleidyddol.

Os bu Capel Als yn gysylltiedig ag un o'r cofiannau gorau, bu hefyd yn gysylltiedig ag un o'r rhai mwyaf diffygiol a dinod. Gwnaeth Gwilym Rees ei orau glas i godi llawes ei dad-yng-nghyfraith yn *Cofiant y Parch. Thomas Johns DD* (1929) ond ofer fu'r ymdrech. Un o ddirgelion mwyaf yr oes oedd penderfyniad Capel Als i benodi Johns (1836-1914), un o bregethwyr mwyaf dinod ei ddydd, yn olynydd i David Rees. Ond fel yr esbonia'r awdur, fe brofodd Johns ei hun fel arweinydd galluog, fel strategydd call, ac fel gwleidydd a gafodd ei ethol yn henadur deirgwaith o'r bron. Hwyrach mai'r cyfuniad hwnnw a'i galluogodd i barhau yn y swydd am 45 mlynedd!

Ceir blas o fywyd cyfoethog yr eglwys, ei haelodau a'i gweithgareddau cerddorol yn *Hanes Côr Capel Als* (1890) gan John Elias Jenkins, ynghyd â bywyd ei merch Seisnig, Park Church, yn yr ysgrif 'The Chapel Books of Capel Als and Park Church 1745-1900' gan Noel Gibbard (1973). Yr oedd David Rees yn enwog am ei ffydd yng ngwerth yr iaith Saesneg, ac esbonnir ei gymhellion crefyddol ac ieithyddol dros sefydlu Park Church gan W. J. Samuel yn *The Story of a Church: Park Congregational Church, Llanelly 1839-1954* (1955). Dyma enghraifft arall o ysbryd arloesol David Rees: erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif teimlai nifer o gapeli Cymraeg ar draws Cymru gyfrifoldeb at y cymunedau di-Gymraeg. Roedd Park Church ymhlith yr achosion cyntaf i'w sefydlu dan ddylanwad yr ymdeimlad hwnnw. Yr oedd yr eglwys honno eisoes wedi cau ei drysau cyn cyhoeddi *Capeli Llanelli*. Nid oes ond cragen yn weddill o'r adeilad nodedig yn dilyn llosgi bwriadol yn 2015.

Capel arall a ddiflannodd cyn 2009 oedd Eglwys Annibynnol Lloyd Street. Fe'i sefydlwyd dan amgylchiadau cwerylgar a chwerw, ond ni chynhwyswyd yr un sill am y cynnwrf yn *Hanes Eglwys Lloyd Street, Llanelli* (1937) gan y gweinidog, J. Camwy Evans (1885-1963), un o feibion Patagonia ac un arall o arloeswyr y Blaid Lafur yng Nghymru. Un o fanteision cyhoeddi *Capeli Llanelli* oedd medru cyfuno'r melys a'r chwerw yn hanes Lloyd Street a'r capeli eraill, a thrwy hynny fe luniwyd naratif mwy cynhwysfawr a realistig o lawer na'r hyn a fu ar gael ynghynt. Serch hynny mae cyfrol Camwy Evans yn adlewyrchiad defnyddiol o fywyd capel trefol yn 'oes aur' y capeli yn Ne Cymru, gyda'i *sêt fawr* o henaduriaid pwysig, ac ansawdd ei fywyd cerddorol yn destun rhyfeddod. Er gwaethaf gwendidau amlwg cyfrol Camwy Evans, y mae'n tra-rhagori ar bamffledyn *Y Tabernacl, Llanelli: Hanes yr Eglwys (amlinelliad)* (1908) gan R. Gwylfa Roberts. Yr oedd Gwylfa yn un o lenorion mwyaf cynhyrchiol ei ddydd, ac eto ni ffwdanodd â'r dasg o lunio cyfrol safonol ar yr eglwys ddylanwadol y bu'n weinidog arni am 37 mlynedd. Dylid nodi er hynny iddo ysgrifennu cofiant derbyniol i weinidog Capel-y-doc, y Parchg David Lewis, a'i gynnwys mewn cyhoeddiad o farddoniaeth ac emynau, sef *Gweithiau Dewi Medi* (1917). Bu'n rhaid aros tan *Capeli Llanelli* er mwyn cael fersiwn amgenach o hanes y Tabernacl – hanes digon cecrus a chynhennus, unwaith eto – ynghyd â straeon Siloah, Capel-y-doc, Ebenezer, a Soar ('Fach') am y tro cyntaf. Bu'r ddau olaf hefyd yn gapeli 'split', ac un o ddibenion *Capeli Llanelli* oedd datgelu'r ffeithiau moel am eu gwreiddiau a'u hynt, gan danlinellu bod y broses o ymganghennu wedi bod yn fater ar brydiau o wagymffrost neu bwd sbeitlyd yn hytrach na hybu cenadwri'r eglwys.

Un arall o ddirgelion hanes capeli Llanelli yw gwendid cymharol enwadau'r Methodistiaid. Er eu bod ill dau (y Calfiniaid a'r Wesleaid) wedi sefydlu achosion yn y dref cyn y

Bedyddwyr, cwyna James Morris yn *Hanes Methodistiaeth Sir Gaerfyrddin* (1911) mai'r 'drydedd fintai' oedd y Methodistiaid Calфинаidd yn Llanelli. Lluniodd Morris adroddiad di-flewyn-ar-dafod sy'n cyhuddo arweinwyr yr enwad yn y dref o 'gysgu' yn ystod y blynyddoedd cynnar. Cyfrol Morris yw'r unig un sy'n olrhain datblygiad y Methodistiaid Calфинаidd ar draws y sir, ac fe bwysodd ar waith allweddol John Hughes *Methodistiaeth Cymru* (3 cyfrol, 1851-56) gan John Hughes er mwyn archwilio'r dechreuadau.

O ran y cyd-destun ehangach, cafwyd astudiaeth awdurdodol o wahanol agweddau o hanes yr enwad yn *Hanes Methodistiaeth Galфинаidd Cymru – Y Twf a'r Cadarnhau (c.1814 - 1914)*, wedi ei olygu gan John Gwynfor Jones, sef trydedd gyfrol y gyfres a ddechreuwyd gan Gomer Roberts, *Y Deffroad Mawr* (1973) a *Cynnydd y Corff* (1978).

Cyhoeddwyd tri llyfryn ar gapeli unigol: Gomer Roberts piau *Hanes Eglwys y Triniti, Llanelli* (1958) a *Hanes Y Capel Newydd, Llanelli* (1959), a Penry Jones fu'n gyfrifol am *Presbyterian Church, Llanelly: A brief account of eighty years of Christian witness* (1952). Nodweddir y tri gan ysgrifennu coeth ac ôl ymchwil gofalus. Braidd yn denau o'u cymharu yw cynnwys *The Old Jerusalem in Wind Street* gan Ioan Brynderi (1940), sef casgliad o nodiadau ar gapel cyntaf y Wesleaid yn Llanelli, a *Hanes Glenalla (amlinelliad)* gan Watcyn Williams (1948).

Dylid nodi nifer o ffynonellau pwysig eraill sy'n taflu goleuni ar ddatblygiad a bywyd y capeli yn Llanelli, gan gynnwys y wasg leol a rhanbarthol, a chylchgronau enwadol. Bu nifer o weinidogion ac aelodau yn amlwg ym myd busnes, fel yr esbonia Kemmis Buckley yn *Some aspects of early Nonconformity and early commerce in Llanelli* (1970), gan danlinellu

amlygrwydd y capeli ym mywyd cyhoeddus a diwydiannol y dref. Cyhoeddwyd dau gompenniwm defnyddiol o'r wasg leol gan Gareth Hughes, sef *A Llanelli Chronicle* (1984), a *Looking Around Llanelli with Harry Davies* (1985), casgliad o hanesion am unigolion amlwg gan Howard M. Jones, *Llanelli Lives* (2000), ac atgofion o fywyd cerddorol y capeli gan Gethin Hughes, *Eglwys y Trinitï*, sef *Always Be Natural* (2006).

Bu cryn drafod ar bensaernïaeth capeli Cymru yn sgîl gwaith arloesol Anthony Jones, *Welsh Chapels* (1984). Y mae *Capeli Llanelli* yn trafod amrywiaeth ac ansawdd yr adeiladau Anghydfurfiol yn y dref, ac i'r perwyl hwn fe bwyswyd ar gyhoeddiad Stephen Hughes, 'Thomas Thomas, 1817-88: the first national architect of Wales' (2003), ac ar astudiaeth T. Lloyd, J. Orbach ac R. Scourfield, *The Buildings of Wales, Carmarthenshire and Ceredigion* (2006) i dreiddio ymhellach i'r maes gwerthfawr hwn. Tila iawn oedd y cofnod ffotograffig o'r capeli – yn fewnol ac allanol – ac fe dynnwyd ffotograffau o safon uchel fel rhan o'r ymchwil er mwyn cyfoethogi'r arolwg. Yn y broses daethpwyd o hyd i hen luniau o gapeli diflanedig – megis Jerusalem, Wind Street¹⁴ – a chyhoeddu amryw ohonynt mewn llyfr am y tro cyntaf.

Darparwyd manylion hefyd am yr organau pîb drudfawr a osodwyd yn nifer o'r capeli: collwyd nifer o'r offerynnau hyn wrth i adeiladau gael eu gwerthu neu'u haddasu neu'u dymchwel, a phrin iawn oedd y wybodaeth amdanynt mewn cyhoeddiadau eraill, ar wahân i'r gyfrol a olygwyd gan Frederich Thornsby, *Dictionary of Organs and Organists* (1921) – dim ond dau o offerynnau Llanelli a nodir ynddi, sef Capel Newydd ac Eglwys y Plwyf – a banc data ar-lein y *National Pipe Organ Register (NPOR)*.¹⁵ Yn sgîl cyhoeddi'r gyfrol am gapeli

¹⁴ *Llanelly Star* (8 October 1949), 5.

¹⁵ (2018) *National Pipe Organ Register*, ar gael: www.npor.org.uk (Cyrchwyd: 12 Medi 2017).

Llanelli ychwanegwyd yn sylweddol at gynnwys yr *NPOR* (o ran diweddarau gwybodaeth a darparu ffotograffau) a chywirwyd tipyn o'r cynnwys blaenorol am gapeli Llanelli.

I gloi'r adran hon dylem bwysleisio prif bwrpas a chyfraniad *Capeli Llanelli* yng nghyd-destun y cyhoeddiadau blaenorol. Adroddir stori Anghydfurfiaeth grefyddol y dref o'r dechreuadau yn yr ail ganrif ar bymtheg hyd ddegawd cyntaf y mileniwm newydd – yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys sylw penodol i bob capel ac enwad – am y tro cyntaf. Nid oes yr un gyfrol arall mor eang ei therfynau. Llawn cyn bwysiced yw bod y gyfrol yn diweddarau'r gweithiau a gyhoeddwyd ddegawdau yn ôl, ac yn ychwanegu at y corff o wybodaeth ynddynt.

Bwriedid i *Capeli Llanelli* ddarparu manylder digyffelyb yn y maes, a chofnod addas a phriodol o fyd a aeth o'r golwg.

3. CAPELI LLANELLI – BRASLUN A FFYNONELLAU

Hanfod *Capeli Llanelli* yw cyfuniad o ddadansoddi, diweddarau ac addasu deunydd parod, yn ogystal â darparu gwybodaeth a dehongliad newydd fel y bo'n briodol. Defnyddiwyd ystod eang o ffynonellau yn y broses o lunio'r naratif.

BRASLUN

Rhennir y gyfrol yn dair adran fesul enwad – Annibynwyr, Bedyddwyr a Methodistiaid (Calfinaidd a Wesleiaidd) – ac yn gronolegol fesul capel oddi mewn i'r adrannau hynny, sef wyth capel Annibynnol, saith o eiddo'r Bedyddwyr, a saith yn perthyn i ddau enwad y Methodistiaid.

Trafodir y capeli Annibynnol a ganlyn: Capel Als (1780), Park Church (1839), Siloah (1841), Capel-y-doc (1867), Tabernacl (1875), Ebenezer (1881), Lloyd Street (1886), a Soar (1887).

Ystyrir y capeli canlynol o fewn enwad y Bedyddwyr: Sion (1831), Bethel (1843), Greenfield (1858), Bethania-Emmanuel (1870), Moriah (1872), Calfaria (1881), a Caersalem (1893).

Trafodir y capeli hyn yn perthyn i ddau enwad y Methodistiaid (MC-Methodistiaid Calfinaidd, W-Methodistiaid Wesleiaidd): Capel Newydd (MC) (1786), Hall Street (W) a Jerusalem (W) (1793), Trinitï (MC) (1858), Presbyterian (MC) (1873), Siloh (MC) (1875), a Glenalla (MC) (1909).

Er i'r Bedyddwyr fwrw gwreiddiau yn yr ardal cyn i neb arall wneud, i'r Annibynwyr y priodolir y statws o fod yn enwad mwyaf y dref – o ran rhifau aelodaeth a nifer y capeli yng nghyfnod y llanw mawr, sef degawd y 1930au – ac yn rhinwedd hynny y penderfynwyd ar drefn yr adrannau.

Esbonnir yn y cyflwyniad mai bwriad deublyg y gyfrol oedd cofnodi'r hanes yn ei gyfanrwydd a'i ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a thaenu'r wybodaeth honno i'r gynulleidfa letaf. At hynny fe ysgrifennwyd y rhan fwyaf o'r llyfr, sef 21 pennod, yn Saesneg, gan ychwanegu deuddeg pennod yn Gymraeg ar y capeli y mae eu hanes yn cyfiawnhau sylwebaeth ychwanegol – helynt Caersalem a'r iaith Gymraeg, er enghraifft, a chyfnod arwyddocaol Gwylfa Roberts yn y Tabernacl yn rhinwedd ei waith fel llenor amlwg – neu sylwadau ar sail profiad personol, megis Lloyd Street a'r Capel Newydd.

Y mae ambell bennod yn fwy trwchus o lawer na'r llall: haedda rhai capeli, yn enwedig y mam-eglwysi enwadol, sylw helaethach na'r gweddill yn sgîl eu pwysigrwydd hanesyddol yng nghyd-destun datblygiad y dref. Y mae *Capeli Llanelli* yn gwyntyllu'r newid aruthrol yn natur cymdeithas Llanelli yn y ddeunawfed ganrif – cymuned wledig yn trawsnewid yn gymuned ddiwydiannol – a'r amgylchiadau a arweiniodd at sefydlu Capel Als, yr achos Anghydfurfiol cyntaf yn Llanelli, ym 1780.

Capel Als, felly, yw man cychwyn y gyfrol ac asgwrn cefn yr adran ar achosion Annibynnol y dref. Fe'i dilynir yn gronolegol yn y gyfrol gan gapeli eraill yr Annibynwyr. Bu angen dwy bennod i geisio delio ag elfennau cyfoethog a niferus Capel Als, gan gynnwys cyfraniad amlochrog David Rees. Ef a sefydlodd yr achos Anghydfurfiol Saesneg cyntaf yn y dref,

Park Church (1839), y mae i'w stori berthnasedd arbennig o ran Seisnigrwydd cynyddol y dref, ac ef yn ogystal a fu'n brif ysgogydd sefydlu Siloah (1841), lle bu'r hollddysgedig Thomas Rees, hanesydd yr Undeb yn ddiweddarach, yn gweinidogaethu yn y cyfnod cynnar. Daw penodau dwbl ar Gapel-y-doc (1867) er mwyn delio'n gyfiawn â gweinidogaeth y bardd-bregethwr David Lewis ('Dewi Medi') (1844-1917), ac ar gapel y Tabernacl (1875), y symbol mwyaf chwyddedig o uchelgais yr enwad yn y dref. Ceir penodau dwbl hefyd ar dri chapel 'split', sef Ebenezer (1881), Lloyd Street (1886), lle bu'r Sosialydd tanllyd o'r Wladfa, Camwy Evans, yn weinidog, a Soar (1887), yr olaf o'r achosion Annibynnol i'w sefydlu yn y dref.

Eglwys Sion (1831) yw man cychwyn a sylfaen yr adran ar achosion y Bedyddwyr. Y mae iddi hanes cyfoethog iawn – o ran ei thraddodiad pregethu, amlygrwydd cenedlaethol ei gweinidogion, ei bywydd cerddorol, a'i lle canolog ym mywyd y dref – a neilltuwyd dwy bennod i'w stori. Lluniwyd dwy arall ar gyfer Bethel (1843), yr ail ohonynt wedi ei seilio ar dystiolaeth rhai cyn-aelodau, a phennod drwchus ar Greenfield (1858), achos Saesneg sy'n dal i ffynnu yn yr unfed ganrif ar hugain. Neilltuir penodau dwbl ar gyfer y pedwar achos arall, sef Bethania (1870), un o gapeli mwyaf gweithgar a phrysur y dref, Moriah (1872), lle bu Dewi Davies (1907-99) yn weinidog am hanner canrif, Calfaria (1881), un o gapeli Daniel Hughes, y Sosialydd cecrus, a Caersalem (1893), lle bu Denis Young yn brwydro i gynnal y Gymraeg mewn cyfnod o wanychu a gelyniaeth gynyddol.

Capel Newydd (1786) yw asgwrn cefn yr adran ar Fethodistiaeth y dref. Neilltuir iddo ddwy bennod er mwyn olrhain hanes cynnar y Methodistiaid yn y dref yn ogystal â disgrifio'r traddodiad pregethu nodedig. Clymir y penodau arno yn agos â'r un ddilynol ar yr achosion

Wesleiaidd yn Hall Street a Jerusalem (1793) yn rhinwedd y berthynas glòs rhwng y ddau enwad. Lluniwyd penodau sengl ar Triniti (1858), y Presbyterian Church (1873), Siloh (1875), a Glenalla (1909). Yr oedd Capel Newydd, Triniti a'r Presbyterian Church i gyd yn dal ar agor pan gyhoeddwyd Capeli Llanelli, ond fe gaewyd y Presbyterian yn 2016.

Dilynir yr adrannau enwadol ar ddiwedd y gyfrol gan adran ar lyfryddiaeth eang a ffynonellau ymchwil.

FFYNONELLAU

Bu'n rhaid defnyddio ystod eang o ffynonellau – mawr a bach – yn y broses o lunio'r naratif er mwyn taenu'r rhwyd mor eang â phosib a chreu darlun cynhwysfawr. Bu'r gweisg enwadol, lleol a chenedlaethol yn gloddfa o wybodaeth, ynghyd â chylchgronau enwadol ac ysgolheigaidd. Defnyddiwyd cyfrolau safonol ar hanes, a defnyddiwyd llyfrynnau a phamffledi ar achosion eraill. Twriwyd hefyd yn yr archifau trefol, sirol a chenedlaethol. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda nifer o hen aelodau: cafwyd gwybodaeth werthfawr ganddynt, ac fe gafwyd eu caniatâd i ddefnyddio'u cyfraniadau ar gyfer y gwaith i'w gyhoeddi – mewn ambell achos fe luniwyd sylwadau ganddynt yn unswydd i'w cynnwys yn y gyfrol – a'r gwaith ymchwil. Defnyddiwyd dwy lawysgrif anghyhoeddedig ar agweddau o hanes capeli Llanelli. Llwyddwyd hefyd i gynnwys nifer o ffotograffau a delweddau o adeiladau ac unigolion nas cyhoeddwyd o'r blaen. Mae'r cyfan yn glytwaith o fethodolegau sy'n adlewyrchu cymhlethdod y broses o ymchwilio yn y maes hwn, proses o gyfuno gwybodaeth hanesyddol, cymdeithasol, bersonol a chrefyddol ar lefel leol, sirol a chenedlaethol.

Nodwyd eisoes yr adran ar hanesyddiaeth – ac fe’u nodir eto yn y llyfryddiaeth gyflawn atodedig – y prif weithiau y dibynnwyd arnynt wrth lunio *Capeli Llanelli*. Dyma’r deunydd parod – y cyfrolau prin hynny ar hanesion y capeli unigol a’r astudiadau enwadol – sy’n ffurfio’r hanes ‘swyddogol’. Ond mae’n bwysig nodi yn ogystal mai nod hysbys *Capeli Llanelli* – fel nodwyd yn flaenorol – yw ‘dadansoddi, diweddarau ac addasu deunydd parod, yn ogystal â darparu gwybodaeth a dehongliad newydd fel y bo’n briodol’. Bu angen sylfaenol, felly, am sefydlu naratif craidd a’i addasu yn ôl y datblygiadau a’r darganfyddiadau priodol.

Wedi coladu’r deunydd cyhoeddiedig ‘swyddogol’, felly, fe aed ati i ychwanegu ato. Yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru y cedwir cofnodion a dogfennau rhai o’r capeli unigol – er mai anghyson yw ansawdd a buddioldeb y casgliadau hynny – a’r mwyaf cynhwysfawr o bell ffordd yw creirfa gyfundebol y Methodistiaid Calfinaidd yno. Bu adroddiadau blynyddol a chofrestri’r capeli unigol yn ffynhonnell anhepgor, er bod bylchau sylweddol yn y casgliadau yn enwedig yng nghyd-destun y capeli llai amlwg a blaenllaw. Tanlinellwyd unwaith yn rhagor mor bwysig yw gwaith swyddogion y capeli o ran cadw dogfennau a’u diogelu.

Bu archifau eraill o fudd mawr hefyd, yn enwedig Llyfrgell Tref Llanelli ac Archifau Sir Gaerfyrddin. Darparwyd hen gyhoeddiadau lleol, erthyglau anghyhoeddiedig, hen lythyrau a ffotograffau. Diolch i staff Llyfrgell Tref Llanelli y cafwyd hyd i hen ddelweddau o rai o gapeli diflanedig y dref. Bu Archifdy Gwent yn wasanaethgar iawn yng nghyswllt stori’r Bedyddiwr a’r Sosialydd Daniel Hughes, gan iddo ymgartrefu ym Mhont-y-pŵl ar ôl ei gyfnod tymhestlog yn Llanelli. Yn yr un modd, cafwyd gwybodaeth hanfodol gan Archifau West Yorkshire ynghylch y Parchg Pandy Williams, Sowerby Bridge, gweinidog arall y bu ei

yrfa yn Llanelli yn un digon stormus. Bu'r Hull History Centre – gyda'u hadnoddau digidol arolesol – yn hynod effeithlon yn delio ag ymholiadau am gyfnod y bardd-bregethwr Elfed yn Eglwys Fish Street yn y ddinas honno yn dilyn ei gyfnod yn Park Church, Llanelli. Ac yn groes i bob disgwyl – o ystyried eu cyfrinachedd diarhebol – bu'r United Grand Lodge of England yn rhyfeddol o barod i rannu gwybodaeth am aelodaeth Elfed o'r Seiri Rhyddion.

Seiliwyd y broses o ddiweddarau gwybodaeth yn fwy na dim arall ar dystiolaeth lafar gan unigolion – aelodau a chyn-aelodau, swyddogion a chyn-swyddogion, gweinidogion a chyn-weinidogion – proses a roes hygredded amhrisiadwy i'r naratif diwygiedig. Yn aml, ychwanegwyd at y dystiolaeth lafar trwy gynnig tystiolaeth ddogfennol: yr oedd gan nifer o gyn-weinidogion ac eraill gasgliadau o lyfrau a dogfennau pwysig yn eu cartrefi eu hunain. Cafwyd cyfraniadau amhrisiadwy gan ambell un, yn enwedig o ran darparu manylion am unigolion neu wasanaethau arbennig nas cofnodwyd mewn adroddiadau neu gyhoeddiadau eraill. Bu sawl gweinidog a chyn-weinidog, gan gynnwys y Parchgn Pauline Barnett, Jeffrey Evans, Esger James, David Jones, Maurice Loader, Kathryn Price, Ivor Rees, Peter Thomas, a Denis Young, yn barod i rannu profiad a chynnig eu dadansoddiad ar gyflwr pethau. Bu Mr Loader – yn ei ddull nodweddiadol gwrtais a bonheddig – yn gloddfa o wybodaeth ar wreiddiau Annibyniaeth yn y sir ac ar hynt Capel Als yn y cyfnodau mwy diweddar. Bu Denis Young yn ddi-flewyn-ar-dafod ar sefyllfa'r Gymraeg yn Llanelli, a lluniodd Peter Thomas adroddiad hudolus am ei blentyndod yng nghapel Moriah. Cafwyd gan Pauline Barnett hanes ei gweinidogaeth lewyrchus yn Hall Street, un o'r eglwysi prin sy'n ffynnu yn y dref, a bu David Jones hefyd yn barod i drafod llwyddiant Greenfield, ei eglwys ef.

Bu cyfle i ymddiddan â dwsinau o aelodau a chyn-aelodau capeli Llanelli. Ymhlith y mwyaf nodedig oedd Miss Dorena Thomas, Capel-y-doc, un o hoelion wyth Annibynwyr y sir dros gyfnod o drigain mlynedd a mwy. Roedd ganddi gof arbennig o dda ac fe gafwyd disgrifiadau da ganddi o'i thad-cu, y Parchg W. Trefor Davies, gweinidog Soar, ac o gyfarfodydd blynyddol yr Undeb yn Llanelli yn 1929, lle bu Elfed yn traethu. Treuliais oriau yn ei chwmmi ac fe gyflwynais gopi o'r gyfrol iddi ar ddydd y cyhoeddi yn Rhagfyr 2009. Bu farw Dorena Thomas yn 101 oed yn 2012. Cafwyd gan Huw Tregelles Williams fanylion cyfareddol am ei blentyndod yng nghapel Bethel, lle bu ei dad yn weinidog yn y 1950au, a'r newid cymdeithasol mawr a ddaeth yn ystod y 1960au. Bu Alwyn Jones yn barod i rannu ei ddoethineb am hanes a chyflwr Bethania, a bu'r cerddor Gethin Hughes yn graig o wybodaeth a straeon doniol am rai o gymeriadau lliwgar y capeli. Dylid nodi unwaith eto fy mod wedi gofyn yn ffurfiol i bob un – ar lafar, trwy lythyr neu ebost – am ganiatâd i ddefnyddio eu cyfraniadau yn y gyfrol a'r gwaith ymchwil.

Ychwanegais at hyn oll wybodaeth bersonol ar sail fy nghyswllt i â nifer o gapeli'r dref dros gyfnod hir, ond yn enwedig yn ystod y 1970au.

Lawn cyn bwysiced fel ffynhonnell fu'r holl weisg amrywiol.

Dim ond wrth fynd â chrib fân trwy'r papurau newydd lleol y llwyddwyd i ganfod manylion pwysig am hanes nifer o'r capeli. Ceid ynddynt hanesion am ddechreuadau, am lu o benodiadau, am ddigwyddiadau arbennig, am weithrediadau, ac – yn ddadlennol iawn – am gamau gwag a wnaed, a'r anghytuno penwan a fu ambell dro. Y mae hanesion 'swyddogol'

yn dueddol o wyngalchu a chuddio'r gwir. Ac fel y gwelir yn hanes cecrus y Tabernacl, gall adran y llythyrau fod mor ddefnyddiol â'r prif golofnau newyddion.

Dylid dweud yn ogystal bod papurau newydd lleol yr unfed ganrif ar hugain yn llawer llai defnyddiol. Nid oes cymaint ohonynt mewn bodolaeth, ac mewn oes o drai crefyddol anaml iawn y byddant yn talu sylw i gapeli ac eglwysi, onibai bod 'stori dda' yn eu cylch, fel y tân mawr a ddinistriodd Park Church yn 2015. Golyga hyn bod rhaid canfod dulliau eraill o gasglu gwybodaeth, gan gynnwys cyfweld â phobl, a defnyddio deunydd ar-lein gan ambell gapel fel Greenfield. Ond stori wahanol iawn oedd byd y wasg yn y ddwy ganrif flaenorol, ac fe brofir yng nghyswllt y capeli bod y papurau – lleol a chenedlaethol – yn adnodd y tâl ei ddefnyddio yn gyson.

Y wasg leol sy'n darparu mwyafrif y deunydd defnyddiol. Bu papurau megis y *Llanelli Star*, *Llanelly Guardian* a *Llanelly Mercury* yn darparu adroddiadau manwl a chyson am waith a bywyd y capeli. Ychwaneger at y rhain y papurau sy'n delio ag ardal ddaeryddol enhangach, sef *The Cambrian*, *South Wales Press*, *South Wales Evening Post*, a *South Wales Weekly Post*. Nid rhestr gyflawn mohoni, ond dyma'r cyhoeddiadau mwyaf cynhyrchiol. Gwelir cyfeiriadau cyson at brif ddigwyddiadau'r enwadau a'u harweinwyr yn y wasg genedlaethol – *Baner ac Amserau Cymru*, *Y Cymro*, a'r *Western Mail* – a rhwng popeth, ceir yn y cyhoeddiadau hyn yn eu crynswth restrau cyson o wasanaethau ar y Sul a chyfarfodydd yn ystod yr wythnos (crefyddol a chymdeithasol), ynghyd â gweithgareddau cerddorol a chlybiau chwaraeon a drama, a'r prif gyfarfodydd blynyddol a hanner-blynyddol a ddenai rhai o brif bregethwyr y wlad.

Y mae'r gweisg enwadol yn darparu ystod eang o ddeunydd pwysig, sef cyfuniad o newyddiaduron – *Y Goleuad*, *Greal y Bedyddwyr*, *Seren Cymru*, *Seren Gomer a'r Tyst* – a chyhoeddiadau neu gyfnodolion – *Y Bedyddiwr*, *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calфинаidd*, *Bathafarn*, *Y Bedyddiwr*, *Y Cofiadur*, *Y Drysorfa*, *Y Diwygiwr*, *Y Dysgedydd*, *Yr Efenglydd*, *Y Geninen*, a'r *Traethodydd* – sy'n delio â phob math o themâu cyfoethog, gan gynnwys trefniant eglwysig ac enwadol yn ogystal â thrafod syniadau diwiynddol ac athronyddol.

Bu'r twrio manwl yn broses hir a thrafferthus gan bod hanesion dros ugain o gapeli dan sylw dros gyfnod o ddwy ganrif a mwy. Cymerth ddwy flynedd o ymweld cyson â Llyfrgell Gyhoeddus Llanelli rhwng 2007 a 2009 er mwyn astudio cynnwys y wasg leol, ac yn ystod yr un cyfnod fe ymwelwyd yn fisol â'r Llyfrgell Genedlaethol er mwyn archwilio casgliadau'r capeli yno. Bu'r adnoddau digidol arlein¹⁶ (hyd yn oed yn eu cyfnod cychwynnol) yn fonws arbennig o ran chwilio am wybodaeth ychwanegol.

Nid ail-wampio'r hanes 'swyddogol' oedd y nod: bu'r broses o ddiweddarau ac addasu yn hynod bwysig, a bu'n rhaid canfod ffynonellau amgen er mwyn mynd â'r maen i'r wal. Esboniwyd eisoes sut y bu i'r mwyaf diweddar o'r cyhoeddiadau craidd ymddangos o leiaf 40 mlynedd cyn llunio *Capeli Llanelli*. Golygai hyn bod dirfawr angen diweddarau'r hanes gan fod dirywiad y mwyfarif o'r capeli wedi troi'n chwalfa yn y cyfnod o'r 1970au ymlaen. Bu ffyniant Greenfield a Hall Street, dau gapel Saesneg, yn eithriadau i'r patrwm hwn ond fe ellir dadlau mai gwaith llawn cyn bwysiced oedd diweddarau'r hanesion hyn hefyd.

¹⁶ *Papurau Newydd Cymru*, ar gael: <http://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/> (Cyrchwyd: dyddiadau amrywiol); *British Newspaper Archive*, ar gael: <https://www.britishnewspaperarchive.co.uk/> (Cyrchwyd: dyddiadau amrywiol); *Cylchgronau Cymru*, ar gael: <https://cylchgronau.llyfrgell.cymru/> (Cyrchwyd: dyddiadau amrywiol).

Fel rhan o'r ymgais i greu cofnod arwyddocaol, cynhwyswyd nifer sylweddol o luniau a ffotograffau a mapiau – rhai heb eu cyhoeddi o'r blaen, a nifer o'm gwaith fy hun – ac fe wnaed ymdrech arbennig i gael lluniau o'r tu mewn i'r capeli gan mai ffotograffau allanol, lawn cyn amled â pheidio, oedd yr unig rhai a geid mewn adroddiadau a llyfrynau. Bu'r dasg hon yn un arbennig o drafferthus. Bu ffotograffau'r Llyfrgell Genedlaethol yn ffynhonnell amhrisiadwy, yn enwedig casgliad y ffotograffydd John Thomas o luniau gweinidogion a chapeli, a'r chasgliad mwy diweddar o eiddo Geoff Charles.

Darparwyd gwybodaeth arbenigol ar bensaernïaeth y capeli – yn unswydd ar gyfer *Capeli Llanelli* – gan Stephen Hughes a Rob Scourfield o Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, ac fe gynhwyswyd eu disgrifiadau gwreiddiol yn y testun er mwyn darparu gwybodaeth fanwl a thechnegol – am y tro cyntaf – o rai o adeiladau mwyaf nodedig y dref.

4. CAPELI LLANELLI – CYFRANIAD

Trafodir yn yr adran hon natur cyfraniad *Capeli Llanelli* i ddysg a dealltwriaeth yn y maes dan sylw yn unol â'r canllawiau a nodwyd ar gyfer y sawl sy'n ceisio am y radd – sef cynnig naratif cynhwysfawr wedi ei gywiro a'i ddiwygio er mwyn adlewyrchu gwybodaeth newydd – a chynnig dehongliad newydd fel y bo'n briodol.

Y bwriad yw tynnu sylw yn gyntaf peth at yr elfennau mwyaf arwyddocaol yn y gyfrol sy'n amlygu cyfanrwydd, diweddariad neu newydd-deb y naratif, ac yn ail at unrhyw ddeongliadau newydd a orfodwyd arnom gan y ffeithiau oer.

O ran rhagymadrodd i'r adran hon, buddiol fyddai dychwelyd at froliant y Parchg Thomas Rees am Lanelli, sef nad oedd 'yr un dref yn ein gwlad ag y [mae] dylanwad Ymneillduaeth yn cael ei deimlo yn fwy ynddi'.¹⁷ Ar ryw ystyr, gellir haeru mai un o fendithion annisgwyl *Capeli Llanelli* yw darparu math ar 'reality check' o ran gwir bwysigrwydd a dylanwad ymarferol capeli'r dref ym mlynnyddoedd eu hanterth, rhwng diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r Ail Ryfel Byd. Tuedd croniclwyr y capeli, fel nodwyd ym 1958 gan y Parchg Thomas Gibbon, gweinidog Greenfield, ac fel y gwelir yng nghyswllt nifer o gapeli eraill y dref, yw gadael i hiraeth ac emosiwn lethu realiti:

There is a nostalgia for the past which can become almost like a disease. We must not mistake memories for hopes. A sense of history is a very precious possession, but our churches are still mission stations, out on the frontiers of faith. We must not forget that

¹⁷ Rees a Thomas, *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, cyfrol III, tt. 478-479.

*the most Christian community or nation can, in a matter of only a few years, become the most pagan.*¹⁸

Ond yn nhyb Thomas Rees, ac yn nhyb eraill fel y Parchg Gwylfa Roberts hanner canrif yn ddiweddarach ym 1929 adeg cyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr yn y dref,¹⁹ Llanelli oedd yr esiampl fwyaf nodedig yng Nghymru o dref ddiwydiannol – y ‘Tinopolis’ enwog, yn rhinwedd ei diwydiannau metel – Gymraeg ei hiaith, yn cynnal diwylliant capelgar eang, sef ‘Jerusalem Ymneillduaeth y De’,²⁰ neu fan leiaf ‘Jerusalem Bedyddwyr Cymru’,²¹ yn ôl persbectif y cyfnod.

Yn ôl un asesiad,²² yr oedd ‘un fil ar bymtheg allan o ugain mil’ o addolwyr Llanelli yn Anghydfurfwyr ym 1881 – canlyniad cyfrifiad crefyddol y flwyddyn honno – sef ‘ddim ymhell o fod yn hanner y boblogaeth’. Ond mae’n bwysig iawn nodi mai o’r braidd y newidiodd y canran erbyn degawd mawr y 1930au pan fu Gwylfa Roberts yn anterth ei ymffrost.²³ Yn ôl data a ddarparwyd gan Adran Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin, tua 33,000 oedd poblogaeth tref Llanelli yng nghanol y 1930au.²⁴ Yn yr un cyfnod, a derbyn yr ystadegau yn adroddiadau’r capeli unigol, tua 12,000 oedd cyfanswm aelodaeth (oedolion) y 22 capel yn y dref. Yr awgrym syml yw mai llai ha hanner y boblogaeth (o oedolion) oedd yn ymwneud â’r capeli. Ar yr olwg gyntaf, er bod y canran yn un sylweddol, go brin y gellid dweud ei fod yn cyfiawnhau’r broliant eithafol.

¹⁸ Graham W. Hughes, *Goodly Heritage - Greenfield Baptist Church, Llanelly 1858-1958* (Llanelli: Llanelly Mercury, 1958), t. 2.

¹⁹ CL, 155-6, 164.

²⁰ *Y Darian* (22 Gorffennaf 1915), 6.

²¹ *Seren Cymru* (28 Medi 1900), 14.

²² N. Gibbard (gol.), *Llawlyfr Undeb Cylch Llanelli* (Abertawe: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, 1969), tt. 30-32.

²³ CL, 155.

²⁴ Darparwyd yr ystadegau 2 Mawrth 2014 gan staff Adran Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin.

Dylid cydnabod sawl ffactor cyfnewidiol, serch hynny. Roedd rhif y boblogaeth yn cynnwys rhai miloedd o blant a fyddai'n rhy ifanc i ymaelodi mewn capel beth bynnag. Yr oedd nifer sylweddol o 'wrandawyr' (heb aelodaeth ffurfiol) yn mynychu oedfaon yn gyson, ac fe ddylid ystyried eu presenoldeb hwythau yn ogystal â bodolaeth y 14,500 o aelodau. At hynny dylid nodi na fyddai aelodau yn mynychu pob oedfa – o bell ffordd – ac fe nodwyd presenoldeb siomedig mewn oedfaon wythnosol gan sawl gweinidog, gan gynnwys y Parchg Trefor Davies, Soar, yn 1933.²⁵ Cwynodd yntau – yn weinidog ar eglwys ag iddi dros 500 aelod – am fethiant pobl ifanc i ddod i wasanaethau bore Sul, a mynnodd nad oedd y nifer a fynychai'r oedfaon wedi codi yn unol â'r cynnydd ym mhoblogaeth y dref. Haerai nad oedd mwy nag ychydig gannoedd ('a few hundred') o bobl ifanc yn mynychu oedfaon bore Sul yn Llanelli gyfan. Yn yr un modd, yn y 1920au, cwynasai'r Parchg W. R. Watkin, Moriah, am fethiant aelodau i gefnogi oedfa bore Sul.²⁶ Yr oedd yntau yn fugail i braidd o dros 700 o aelodau. Diddorol hefyd yw nodi sylwadau'r Parchg Thomas Davies, Siloah, mor bell yn ôl â 1891, ynghylch yr her o ddenu pobl ifanc i'r capel.²⁷ Gwnâi hynny ar adeg pan oedd 500 o aelodau ar gofrestr y capel, a 400 o blant yn perthyn i'r Ysgol Sul. Mae'n wir bod yr oedfa fore Sul – trwy Gymru benbaladr, tan yn gymharol ddiweddar – wedi bod yn llai poblogaidd nag oedfa'r hwyr, ond mae byrdwn y neges yn glir.

Anodd osgoi'r casgliad bod tipyn llai na hanner poblogaeth Llanelli yn gyflawn aelodau o'r capeli – a hynny yng nghyfnod y llanw mawr – ac mai anghyson iawn oedd patrwm presenoldeb yn yr oedfaon. Roedd llenwi capeli adeg cyrddau blynyddol i glywed pregethwyr

²⁵ CL, 231-232.

²⁶ CL, 376-378.

²⁷ CL, 102-103.

mwyaf y dydd yn broses gymharol hawdd. Mater arall oedd sicrhau cynulleidfa barchus a theilwng o Sul i Sul. Ceid arwyddion cyn dechrau'r ugeinfed ganrif o elyniaeth ymhlith trigolion lleol – a phobl ifanc yn enwedig – at y capeli a'u rheolau caeth, a phryder am boblogrwydd cynyddol pêldroed a chwaraeon eraill ar y Sul.

Y mae i *Capeli Llanelli* swyddogaeth ddeublyg, felly, sef cydnabod cyfraniad a phwysigrwydd y capeli yn eu hanterth, tra'n atgoffa'r darllenydd ar yr un pryd o derfynau'r pwysigrwydd – a'r poblogrwydd – hwnnw.

Fe wneir hyn – er mwyn cysondeb â'r gyfrol – fesul enwad, ac o fewn y strwythur honno fe geisir cynnull y prif gyfraniadau fesul capel a hynny mor gryno â phosib.

YR ANNIBYNWYR

Yr oedd i'r mam-eglwysi enwadol,²⁸ fel y soniwyd eisoes, eu naratif hanesyddol 'swyddogol' a hirsefydlog ymhell cyn cyhoeddi *Capeli Llanelli*, ond yr oedd yr hanesion hynny i gyd wedi dyddio i raddau amrywiol.

Y mwyaf diweddar ohonynt oedd y gyfrol a olygwyd gan Maurice Loader ar Capel Als²⁹ a gyhoeddwyd 29 mlynedd cyn ymddangosiad *Capeli Llanelli*. Dim ond tair o eglwysi Annibynnol eraill y dref a brofodd yn deilwng o sylw ar ffurf hanes cyhoeddedig, sef Tabernacl,³⁰ Lloyd Street,³¹ a Park Church,³² er mai pamffledyn digon tila yw'r cyntaf

²⁸ Capel Als (Annibynwyr), Sion (Bedyddwyr) a'r Capel Newydd (Methodistiaid).

²⁹ Maurice Loader (Gol.), *Capel Als 1780-1980* (Abertawe: Tŷ John Penry, 1980).

³⁰ R. G. Roberts, *Y Tabernacl, Llanelli: Hanes yr Eglwys (amlinelliad)* (Llanelli: South Wales Press, 1908).

³¹ J. Camwy Evans, *Hanes Eglwys Lloyd Street, Llanelli* (Llanelli: Swyddfa'r Mercury, 1937).

ohonynt. Ni chyhoeddwyd yr un gyfrol erioed ar gapeli Siloah, Capel-y-doc, Ebenezer, a Soar. Cafwyd ambell baragraff arnynt mewn llawlyfrau undebol ond bu'n rhaid aros tan ymddangosiad *Capeli Llanelli* cyn cael hanes llawn y pedwar capel hyn.

Yn yr adran hon, felly, fe ymwneir yn gyntaf â'r achosion hynny y cyhoeddwyd fersiwn o'u hanes, a'u trefnu yn ôl oedran yr achos, cyn delio â'r capeli hynny y cyhoeddwyd dim – neu ddim byd o bwys – yn eu cylch.

Yng nghyd-destun yr eglwysi y cyhoeddwyd fersiwn o'u hanes, felly, prif gyfraniad *Capeli Llanelli* yw cyfuniad o ddiweddarau'r hanes – er mai cymharol denau gall y deunydd diweddarau fod mewn cyfnod o drai a segurddod – ac ychwanegu elfennau at, neu hyd yn oed ail-fowldio, y naratif cyfarwydd. Yng nghyd-destun y gweddill, mae *Capeli Llanelli* yn darparu'r hanes manwl cyntaf oll.

Y gwir amdani yw bod achos enwoca'r dref – capel sy'n haeddu'r bennod fwyaf trwchus yn *Capeli Llanelli*³³ – yn haeddu llai o sylw yn y cyd-destun hwn: rhaid cydnabod yn syth bod ystod a sylwedd y deunydd ysgrifenedig ar Capel Als yn peri bod llai o angen diweddarau a diwygio yn yr achos arbennig hwn na'r un achos arall. Wedi dweud hynny, bu *Capeli Llanelli* yn fodd i argyhoeddi cynulleidfa gyfoes – a chymdeithas ddigrefydd, ddigapel – o bwysigrwydd hanesyddol yr achos a'i arwyddocâd cenedlaethol fel un o gadarnleoedd radicaliaeth wleidyddol a chymdeithasol y ddeunawfed ganrif yng Nghymru yn rhinwedd gwaith David Rees.

³² W. J. Samuel, *The Story of a Church: Park Congregational Church, Llanelly 1839-1954* (Cardiff: Western Mail and Echo, 1958).

³³ CL, 1-47.

Y mae'r gyfrol swyddogol a olygwyd gan Maurice Loader yn cynnwys crynodeb deg o wreiddiau'r achos gan D. Huw Owen³⁴ gan gynnwys ffeithiau – yn rhannol seiliedig ar dystiolaeth a gyhoeddwyd ym 1897 ar ddefnydd tai annedd fel mannau addoli cynnar³⁵ – am weithgaredd Stephen Hughes a David Penry yn estyn y cortynnau o Lanedi i Lanelli. Nid yw'r myrdd o erthyglau ar brif gerrig milltir yr achos mewn papurau a chylchgronau eraill³⁶ yn cynnig unrhyw ffeithiau neu ddehongliadau gwrthwynebol neu anghyson.

Y mae *Capeli Llanelli* yn cadarnhau bod i bob gweinidog ei steil a'i arddull arbennig o arwain, ac fe eir y tu hwnt i'r ystrydebau arferol er mwyn taflu goleuni ar eu stiwardiaeth – y da a'r drwg. Fel capten llong y gwelai Maurice Loader ei hun,³⁷ yn rhoi cyfeiriad i'r criw ond yn dibynnu ar garfan o'i swyddogion i gyflawni'r gwaith. Mae hyn yn gyfeiriad anuniongyrchol at y drefn rheoli yn Capel Als, lle bu panel o swyddogion yn ysgwyddo'r baich o ofalu am bob agwedd o weithgaredd y capel, fel esboniwyd gan yr ysgrifennydd Hywel Griffiths ym 1999.³⁸ Yr oedd Maurice Loader yntau yn greadur prin iawn: ni chafwyd yr un feirniadaeth hysbys ohono yn ystod ei weinidogaeth faith.

Stori wahanol iawn oedd un yr arloeswr David Rees. Fel y dengys *Capeli Llanelli*,³⁹ hwyrach mai fel unben o dymer ymosodol iawn y'i gwelid ef. Y mae hanes a chyfraniad David Rees

³⁴ Loader, *Capel Als*, tt. 11-30.

³⁵ W. Harries ('Carnero'), 'Penod Newydd yn Hanes Capel Als', *Y Diwygiwr*, 62 (Gorffennaf 1897), 204-207.

³⁶ *Yr Efangelydd*, 1 (Gorffennaf 1831), 223; *Cambrian News* (18 Chwefror 1853), 5; *Llanelly and County Guardian* (25 Tachwedd 1869), 3; *Y Diwygiwr*, 36 (Awst 1871), 253-254; *Y Tyst a'r Dydd* (7 Ionawr 1881), 7; (1 Awst 1884), 4-5; *South Wales Daily Post* (12 Rhagfyr 1895), 4; *Y Tyst* (9 Tachwedd 1910), 4-5; *Y Tyst* (15 Rhagfyr 1938), 12-13; *Llanelly and County Guardian* (17 Tachwedd 1938), 2; *Llanelli Star* (20 Medi 1980), 3.

³⁷ CL, 38.

³⁸ H. Griffiths, 'Capel Als' yn *Llawlyfr Ymwelwyr Y Cyfarfodydd Blynyddol* (Abertawe: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, 1999), 11-12.

³⁹ CL, 1-17, 38-43.

yn ddigon cyfarwydd, ond erys dwy elfen sy'n werth eu tanlinellu yn *Capeli Llanelli* gan mai prin yw'r sylw a roddir iddynt fan arall.

Y gyntaf a'r bwysicaf ohonynt yw agwedd lugoer David Rees at yr iaith Gymraeg.⁴⁰ Byrdwn Iorwerth Jones⁴¹ a Maurice Loader⁴² oedd mai mater o ffasiwn y cyfnod – sef ysbryd imperialaidd Oes Fictoria – oedd agwedd farwol y dyn o Dre-lech at ei famiaith. Yr oedd brwdfrydedd David Rees o ran yr iaith Saesneg (mynnodd ei mabwysiadu yn iaith ei aelwyd ei hun) a'i gariad diamod at y teulu brenhinol yn gyfuniad awgrymog. Aeth ati i sefydlu eglwys Saesneg Park Church mor gynnar ag 1839,⁴³ wyth mlynedd cyn ymddangosiad yr adroddiad swyddogol ar gyflwr addysg yng Nghymru, yr union adroddiad y priodolir iddo (gan rai haneswyr) yr elyniaeth gynyddol ymhlith nifer o Gymry tuag at eu mamiaith. Yr oedd Rees ei hun yn feirniadol iawn o'r adroddiad, ond nid am resymau ieithyddol. Fel yr esboniodd Iorwerth Jones, yr oedd 'amddiffyn Ymneilltuaeth yn rheitiach gorchwyl yng ngolwg David Rees nag amddiffyn Cymru.'⁴⁴

Er i ddiwydiannau Llanelli ddenu llu o weithwyr o rannau eraill o Gymru a thu hwnt i'r Clawdd, dysgai nifer ohonynt Gymraeg yn ddiffwdan, a thref fwyafrifol Gymraeg ei hiaith fu Llanelli tan y 1970au. Rhaid gofyn, felly, ai ffasiwn arwynebol am 'English' oedd wedi dylanwadu ar David Rees, neu a ellir dirnad cymhellion mwy sinistr? A oedd unrhyw dystiolaeth bod David Rees yn reddfod elyniaethus i'r Gymraeg? Wedi'r cyfan, dyna iaith ei eglwys lewyrchus ac unig iaith – gyda rhai eithriadau, heb os – ei haelodaeth luosog. Y

⁴⁰ CL, 2, 13-15, 42-43, 55-56.

⁴¹ Iorwerth Jones, *David Rees y Cynhyrfwr* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1971) tt. 243-244.

⁴² Loader, *Capel Als*, tt. 46-47.

⁴³ CL, 13-15.

⁴⁴ Jones, *David Rees*, t. 273.

casgliad mwyaf diniwed yw mai diofalwch nodweddiadol y cyfnod oedd i'w briodoli am agwedd David Rees at y Gymraeg, ond o gofio'i gred y dylai Cymry aberthu'r Gymraeg o blaid yr iaith Saesneg,⁴⁵ gellir haeru ei fod yn ddi-hid i raddau dirfawr.

Y mae *Capeli Llanelli* yn mynd gam ymhellach trwy dynnu sylw at y gwahaniaeth agwedd ymhlith gweinidogion Capel Als o safbwynt yr iaith Gymraeg, ac fe gyfyd yr un cwestiwn o'r newydd yn nes ymlaen yng nghyd-destun rhai o gapeli eraill y dref. Gwahanol iawn i safbwynt David Rees fu un y Parchg D. J. Davies, y prifardd a'r heddychwyr diysgog. Gwrthododd yntau gynnal gwasanaethau Saesneg yn y capel yn ystod ei weinidogaeth faith gan iddo sylweddoli mor anaddawol oedd rhagolygon y Gymraeg yn y dref.⁴⁶ Bu ei olynwyr, Iorwerth Jones a Maurice Loader, yr un mor gyson eu polisi ieithyddol, ar waethaf tuedd rhai aelodau Cymraeg eu hiaith i siarad Saesneg a mynnu darpariaeth ddwyieithog.

Yr ail elfen ddadlennol yw gwaith David Rees yn y maes cerddorol,⁴⁷ gan iddo sefydlu traddodiad a fu'n nodwedd mor amlwg o fywyd y capel o'i gyfnod ef tan y 1960au.

Rhodddwyd tipyn o sylw i'r maes hwn dros y blynyddoedd,⁴⁸ ac fe bwysleisia *Capeli Llanelli*⁴⁹ natur eithriadol y traddodiad yn ogystal â chyfraniad y cerddor amryddawn Haydn Morris. Cynhwyswyd peth o dystiolaeth werthfawr Alan Nicholas⁵⁰ a Ioan Brynderi⁵¹ am waith y gerddorfa enwog o 1894 ymlaen. Ychydig iawn a gyhoeddwyd yn Gymraeg – a dim byd o sylwedd yn Saesneg – ar un o orchestion diwylliannol tref Llanelli, sef y gyfres o

⁴⁵ Ibid., t. 244.

⁴⁶ CL, 31-32.

⁴⁷ CL, 24-26, 43-45.

⁴⁸ John Elias Jenkins, *Hanes Côr Capel Als yn ystod y can mlynedd diwethaf* (Llanelli: South Wales Press, 1890), t. 55.

⁴⁹ CL, 25-6, 43-5.

⁵⁰ *Y Tyst* (18 Medi 1980), 1.

⁵¹ Ioan Brynderi, 'Of Capel Als - A Story of Sturdy Endeavour', *Llanelli and County Guardian* (7 September 1950), 11.

gyngherddau mawr blynyddol a gynhelid dan arweiniad Morris yn y blynyddoedd wedi'r Ail Ryfel Byd, ac fe roes *Capeli Llanelli* gyfle i genhedlaeth newydd i werthfawrogi'r gamp.

Nodir rhai ffactorau eraill sy'n dueddol o gael sylw annigonol yn y cyfrolau swyddogol ar gapeli. Yn rhy aml gwelir methiant i gynnig asesiad realistig o rinweddau gweinidog a'i bregethu, amgylchiadau ei benodiad, a thelerau ariannol y swydd. Y mae cofiant Gwilym Rees i'w dad-yng-nghyfraith⁵² yn rhyfeddol o ddiniwed ond fe ddatgelir ambell wirionedd (ar ddamwain, mae'n siwr) sy'n goleuo'n hamgyffred o Thomas Johns, a phroses ei benodiad i olynu David Rees. Fe'i gwahoddwyd ef i lenwi ambell Sul yng Nghapel Als ar sail erthygl ysgafn a gyhoeddwyd ganddo ar dirwedd Eryri⁵³ – erthygl a argraffwyd mewn swyddfa yn Llanelli lle digwyddai un o flaenoriaid Capel Als fod yn weithiwr. Nid proses ffurfiol a thrylwyr mohoni o gwbl, ond un syfrdanol o amaturaid. Dyna'r modd y penodwyd olynydd i un o gewri'r enwad gan un o gapeli pwysicaf yr enwad. Y mae *Capeli Llanelli*⁵⁴ hefyd yn tynnu sylw at ddifygion amlwg Thomas Johns fel pregethwr (gan mai prin iawn y sonnir am unrhyw ddoniau yn y maes hwnnw) ond hefyd at ei allu diamheuol fel arweinydd eglwys a gwleidydd lleol. Yn achos ei olynydd, D. J. Davies, sonnir hefyd am lefel isel ei gyflog yntau dros gyfnod maith yn y weinidogaeth,⁵⁵ ffactor sy'n nodweddiadol o fywyd cynifer o gapeli,⁵⁶ gan gynnwys rhai o'r mwyaf cefnog.

Y flwyddyn 1980 yw man gorffen y gyfrol a olygwyd gan Maurice Loader ar hanes y capel, sef daucanmlwyddiant sefydlu'r achos. Bu yntau yn weinidog Capel Als tan 1994 ac er i'w

⁵² G. Rees, *Cofiant y Parch. Thomas Johns* (Llanelli: James Davies, 1929).

⁵³ *Ibid.*, t. 82; CL, 16.

⁵⁴ CL, 16-21.

⁵⁵ CL, 31.

⁵⁶ CL, 197.

weinidogaeth fod yn hynod fendithiol – yn ôl yr aelodau eu hunain⁵⁷ – cyfnod o drai graddol oedd hwn cyn i'r llif rymuso yn ystod y 1990au hwyr. Gellir haeru bod prysurdeb a swmp yr achos wedi darfod ym 1994 ar ymadawriad Maurice Loader. Y gwir yw mai cyfnod o oroesiad elfennol, o barhau i fynd, fu'r cyfnod diweddar.

Digon tenau, felly, yw'r deunydd diweddarau yn yr achos hwn. Bu cyfle i daflu ychydig o oleuni gwahanol ar fywyd Capel Als a'i gweinidogion, ac yn fwy pwysig bu *Capeli Llanelli* yn fodd i ddwyn stori David Rees a'i gapel enwog gerbron cynulleidfa newydd, gyfoes. Ond fe geir yn ogystal yn *Capeli Llanelli* gyfrif llawn o gymeriad pensaernïol yr adeilad⁵⁸ gan gynnwys yr organ hynafol, lluniau prin o'r adeiladau cynnar, ynghyd â llun (ar y clawr cefn) o David Rees nas cyhoeddwyd yn ei fersiwn wreiddiol o'r blaen.

Os mai cymharol gyfyng fu'r cyfle i ddiweddarau ac ail-ddehongli hanes Capel Als – yn rhinwedd yr holl waith safonol a wnaed – mater gwahanol yw delio â hanes capeli Annibynnol eraill y dref. Soniwyd eisoes mai'r prif astudiaeth o dwf yr Annibynwyr Cymraeg yw pum cyfrol Thomas Rees a John Thomas (1871-91) sy'n darpraru ffeithiau moel am gychwyn yr achosion Annibynnol yn ardal Llanelli.⁵⁹ Ychwanegwyd at y pytau hyn mewn llawlyfrau neu adroddiadau cryno a gyhoeddwyd ar achlysur ymweliadau'r Undeb â thref Llanelli ym 1884, 1899, 1929, 1969 a 1999.

⁵⁷ Gwybodaeth gan y Parchg Iwan Vaughan Evans, Miss Deryth Davies, Mrs Eryl Williams, a Miss Gaynor Williams mewn sgysiau a gafwyd rhwng Rhagfyr 2008 ac Awst 2009.

⁵⁸ CL, 21-24.

⁵⁹ T. Rees a J. Thomas, *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, Cyfrol III (Liverpool: Y Tyst Cymreig, 1873), tt. 478-498; J. Thomas, *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, Cyfrol V (Liverpool: Y Tyst Cymreig, 1891), tt. 336-342.

Y flwyddyn 1954 yw man gorffen cyfrol W. J. Samuel ar hanes Park Church,⁶⁰ gwaith sydd yn adrodd yr hanes yn fanwl a champus. Ond bu tipyn mwy i'w ddiweddarau yng nghyd-destun yr eglwys hon, a mwy i'w ddweud am ddatblygiad a chymeriad yr eglwys. Dylid nodi tair thema mewn byr eiriau: proffeil ieithyddol a chymdeithasol yr eglwys; gweinidogaeth gynnar H. Elvet Lewis ('Elfed') (1860-1953), y mwyaf amlwg o'r gweinidogion; a'r diweddariad pwysicaf, sef tranc yr achos oherwydd problemau ymarferol yn ymwneud â'r adeiladau.

Yn gyntaf peth, mater sylfaenol yng nghyd-destun tref Llanelli oedd nodi natur ieithyddol a chymdeithasol yr eglwys,⁶¹ a'r cyferbyniad sobreiddiol â Capel Als. Eglwys Saesneg ei hiaith ar gyfer y dosbarth canol ('evidently a church of the *bourgeoisie*')⁶² oedd Park, yn wahanol iawn i'r fam-eglwys. Yma, wedi'r cyfan, yr ymaelododd teulu David Rees (ei wraig a'i blant) a bu ei fab, Bernard, yn ysgrifennydd yr eglwys am ddegawdau. Amhosib i neb amau ffydd David Rees yng ngwerth yr iaith Saesneg. Y mae *Capeli Llanelli* yn awgrymu, serch hynny,⁶³ mai cyfyng oedd balchder Bernard yng ngorchestion ei dad,⁶⁴ ac mai bach iawn a wyddai ei blant ef am eu tad-cu enwog. Cawn dystiolaeth yn ogystal am raniadau ieithyddol ymhlith capelwyr Llanelli a'r methiant i gymodi rhyngddynt yn bur aml, heb sôn am y patrymau ieithyddol astrus a oedd yn bodoli ymhlith teuluoedd Park Church,⁶⁵ patrymau a adlewyrchai agweddau di-ddal pobl Llanelli at yr iaith Gymraeg, fel y gwelir yn achos Greenfield⁶⁶ a Caersalem⁶⁷ maes o law.

⁶⁰ W. J. Samuel, *The Story of a Church* (Cardiff: Western Mail & Echo, 1954).

⁶¹ CL, 53-57.

⁶² CL, 73.

⁶³ Ar sail sgysiaiu a llythyrau a dderbyniwyd gan y Parchg Maurice Loader rhwng Mawrth 2008 a Hydref 2009.

⁶⁴ CL, 61.

⁶⁵ CL, 70.

⁶⁶ CL, 318.

⁶⁷ CL, 423-424.

Yn ail, daw'r bennod hon â chyfle i sôn yn benodol am Elfed, y bardd-bregethwr o Flaen-y-coed, a'i ddewis diesboniad i fugeilio eglwysi Saesneg yn ddieithriad (Bwcle, Hull, Llanelli, Harecourt) cyn iddo dderbyn galwad gan Eglwys Annibynnol Gymraeg y Tabernacl, King's Cross, Llundain, lle arhosodd am 40 mlynedd.⁶⁸ Y mae *Capeli Llanelli* yn datgelu manylion newydd am ei amlygrwydd fel un o brif Seiri Ryddion ei gyfnod,⁶⁹ ac fe geir ynddi hefyd gyfeiriadau at feddylfryd rhwysgfawr rhai o drigolion Llanelli (gan gynnwys William Lewis, prifathro lleol) o ran gwerth eu tref eu hunain⁷⁰ a manteision 'dianc' rhagddi.

Yn drydydd, *Capeli Llanelli* yw'r unig gyhoeddiad sy'n adrodd hanes bywyd Park Church dros hanner canrif o 1954 tan i'r eglwys gau yn 2005. Seiliwyd trwch y cynnwys ar dystiolaeth bersonol a gafwyd gan y Parchg Jeffrey Evans, y gweinidog o 1970 tan 1986, a'i olynwyr y Parchedigion Peter Trow a Kathryn Price. Pwysleisiodd y tri ohonynt anfanteision ymarferol yr adeilad nodedig, a'r galw cyson am waith atgyweirio costus. Bu'r cyfan yn ormod o faich i'r eglwys ac fe werthwyd yr adeilad yn 2005 er na wireddwyd unrhyw gynllun i ddiogelu'r ffenestri lliw gwerthfawr. Cyhoeddwyd *Capeli Llanelli* cyn i'r adeilad gael ei roi ar dân gan fandaliaid a'i ddinistrio yn llwyr – gan gynnwys y ffenestri – yn 2015. Y mae'r gyfrol yn cynnwys yr unig ddisgrifiad manwl o gynllun a chymeriad yr adeilad ynghyd â hanes yr organ nodedig a osodwyd yno yn 1936.

⁶⁸ CL, 63-68.

⁶⁹ CL, 66.

⁷⁰ CL, 66-67.

Un o'r cyhoeddiadau mwyaf siomedig i'w ddarllen – gan greu angen amlwg i'w gywiro a'i helaethu – yw 'amlinelliad' R. Gwylfa Roberts o hanes y Tabernacl,⁷¹ sef un o'r capeli mwyaf yn hanes y dref o ran aelodaeth a dylanwad. Nodir i Gwylfa fod yn un o lenorion mwyaf toreithiog Cymru ac eto ni thrafferthodd â'r dasg o lunio hanes o'i gapel enwog – hyd yn oed adeg dathlu hanner canmlwyddiant yr achos yn 1925 pan argraffwyd crynodeb o'i 'amlinelliad' yn y 'Coflyfr'.⁷²

Yn hyn o beth mae gan *Capeli Llanelli* swyddogaeth driphlyg, sef darparu hanes cynhwysfawr o'r capel nodedig hwn am y tro cyntaf, llenwi'r bylchau amlwg yn naratif Gwylfa, a sicrhau bod yr hanes mor gyfoes â phosib.

Esbonnir yn *Capeli Llanelli* mai hynod gecrus fu hanes y Tabernacl o'r dyddiau cynnar, ond cyfnod y Parchg Pandy Williams (o 1880 tan 1885) a esgorodd ar y cecran mwyaf gwenwynig⁷³ yn sgîl y ddadl genedlaethol ar gyfansoddiad Coleg y Bala, ond anodd iawn osgoi'r casgliad bod personoliaeth ymosodol Pandy Williams hefyd ar fai. Dadl gyfrin, i raddau, oedd dadl y cyfansoddiadau, yn ôl crynodeb dda ohoni yn Llawlyfr 1969,⁷⁴ ond y gwir plaen yw bod y cecran wedi arwain at sefydlu dau gapel newydd, sef Ebenezer (1881) a Lloyd Street (1886). Cyfeiriad braidd yn aneglur sydd gan Rees a Thomas ('daeth rhyw anghydwelediad i mewn yn fuan')⁷⁵ yn eu diweddariad ar hanes y Tabernacl. Nid yw Gwylfa yn crybwyll unrhyw elfen o'r gwirionedd hwn yn ei 'amlinelliad' – nac ychwaith yn ei ysgrif

⁷¹ R. Gwylfa Roberts, *Y Tabernacl, Llanelli: Hanes yr Eglwys (amlinelliad)* (Llanelli: Swyddfa'r Mercury, 1909).

⁷² R. Gwylfa Roberts (gol.), *Y Tabernacl, Llanelli: Coflyfr y Dathliad*. (Llanelli: South Wales Press, 1925), tt. 13-22.

⁷³ CL, 147-151, 169-171.

⁷⁴ Noel Gibbard (gol.), *Llawlyfr Undeb Cylch Llanelli, 1969* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1969), tt. 23-25.

⁷⁵ Thomas, *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, Cyfrol V, 339.

ar hanes y capel yn Llawlyfr 1929,⁷⁶ er bod Brynallt yn disgrifio Ebenezer fel ‘un o blant yr Hen Gyfansoddiad’⁷⁷ – ac mae’r hanes swyddogol yn ddistaw ar y mater yng nghyd-destun Llanelli.⁷⁸ Daw’r dystiolaeth orau – a’r iaith liwgar – o golofnau’r papurau newydd gan gynnwys cyfres o lythyrau deifiol a gyhoeddwyd gan rai o aelodau’r Tabernacl eu hunain.⁷⁹ Y mae *Capeli Llanelli* yn manylu ar natur y ffrae ac yn gosod y ffeithiau yn eu cyd-destun priodol am y tro cyntaf.

Manylir yn ogystal ar honiadau gormodol Gwylfa am gymeriad crefyddol Llanelli⁸⁰ – soniwyd eisoes am yr ystadegau swyddogol – ac fe geir disgrifiad o’i statws fel arweinydd cenedlaethol a ffrind personol i David Lloyd George. Profodd y ddefod filwrol a drefnwyd ganddo yn y capel ym Mawrth 1920⁸¹ mai pregethwr a gefnogai waith y lluoedd arfog oedd Gwylfa, yn wahanol i nifer o’i gyd-weinidogion, gan gynnwys ei olynydd Gwyndaf. Adroddir yn *Capeli Llanelli* mai negyddol iawn oedd ymateb trwch yr aelodaeth i heddychaeth y gweinidog yn ystod yr Ail Ryfel Byd,⁸² ac fe fu gwrthdaro cyson rhyngddo a’i swyddogion yng nghyfnod olaf ei weinidogaeth yn y dref.

Y mae *Capeli Llanelli* yn cynnwys astudiaeth o werth yr adeilad – gwaith y pensaer amlwg John Humphrey – ac yn olrhain stori’r Tabernacl hyd y flwyddyn 2009, sef cyfnod o drai digamsyniol. Prif gyfraniad y ddwy bennod at y Tabernacl yw adrodd y stori gyflawn am y

⁷⁶ R. Gwylfa Roberts (gol.), *Undeb yr Annibynwyr Cymraeg: Cyfarfodydd Llanelli, 1929* (Llanelli: Gwasg Deheudir Cymru, 1929), tt. 54-7.

⁷⁷ *Ibid.*, t. 63.

⁷⁸ R. Tudur Jones, *Hanes Annibynwyr Cymru* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1966), tt. 253-257.

⁷⁹ *Y Tyst a’r Dydd* (14 Ionawr 1881), 5; (21 Ionawr 1881), 11; (28 Ionawr 1881), 11; (4 Chwefror 1881), 3-4, 11; (18 Chwefror 1881), 12; (25 Chwefror 1881), 11; (4 Mawrth 1881), 11; (11 Mawrth 1881), 11; (18 Mawrth 1881), 11.

⁸⁰ CL, 134-135, 164.

⁸¹ CL, 135-136.

⁸² CL, 168.

tro cyntaf, cywiro naratif diffygiol yr hanesion swyddogol, a thaflu goleuni ar fywyd prysur a helbulus un o gapeli mwyaf y dref.

Un o ferched y Tabernacl oedd Lloyd Street,⁸³ yr olaf o'r eglwysi Annibynnol y mae gennym hanes cyhoeddedig ohoni, diolch i waith y Parchg J. Camwy Evans.⁸⁴ Cyfrol ddefnyddiol iawn yw honno, ond bu'n rhaid helaethu cryn dipyn arni a chynnig stori'r dechreuadau yn eu cyfanrwydd. Gwendid mwyaf y gyfrol yw absenoldeb unrhyw ffeithiau am natur genedigaeth yr achos ('ymneilltuodd pedwar ugain namyn dau o aelodau y Tabernacl')⁸⁵ ac fe roes Capeli Llanelli y cyfle i gywiro'r naratif swyddogol hwnnw.⁸⁶ Swyddogaeth arall y bennod ar Lloyd Street yw adrodd stori Camwy Evans am y tro cyntaf. Brodor o Batagonia oedd yntau, un o arloeswyr y Blaid Lafur yng Ngogledd Cymru⁸⁷ a heddychwyr digymrodedd, ond anodd deall ei benderfyniad i ymwrthod â'i yrfa wleidyddol ar ôl gadael Caernarfon. Y cymeriad mawr arall yn hanes Lloyd Street yw John Thomas, un o gerddorion mwyaf amlwg ei ddydd, ac fe adroddir hanes ei daith i Windsor gyda'i gantorion i ganu gerbron y brenin. Cyhoeddir llun⁸⁸ o'r fedal a fathwyd yn arbennig i nodi'r achlysur.

Gedy hyn oll yr eglwysi Annibynnol (Siloah,⁸⁹ Capel-y-Doc,⁹⁰ Ebenezer⁹¹ a Soar⁹²) na chyhoeddwyd fawr ddim o'u hanes heblaw'r byr-hanesion yn y llyfrynnau enwadol a nodwyd eisoes. Yn hyn o beth, ceir yn *Capeli Llanelli* hanesion llawn y pedwar capel – am y tro

⁸³ CL, 205-29.

⁸⁴ J. Camwy Evans, *Hanes Eglwys Lloyd Street, Llanelli* (Llanelli: Swyddfa'r Mercury, 1937).

⁸⁵ *Ibid.*, t. 9.

⁸⁶ CL, 212-213, 223-224.

⁸⁷ Huw Edwards, 'Mantell a morthwyl : sylwadau ar fywyd a gwaith y Parchedigion John Camwy Evans a Daniel Hughes', *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru* (2010-11), tt. 5-18.

⁸⁸ CL, 211.

⁸⁹ CL, 88-108.

⁹⁰ CL, 111-132.

⁹¹ CL, 176-201.

⁹² CL, 231-245.

cyntaf – gan gynnwys yr amgylchiadau gwenwynig (ond gwahanol) a arweiniodd at greu Ebenezer⁹³ a Soar⁹⁴ – a phortreadau o'r prif gymeriadau gan gynnwys y Parchg Thomas Davies, Siloah,⁹⁵ a'r Parchg David Lewis ('Dewi Medi'), Capel-y-Doc.⁹⁶ Yn achos Capel-y-Doc a Soar, cafwyd tystiolaeth werthfawr gan Miss Dorena Thomas,⁹⁷ wyres y Parchg Trefor Davies. Y mae'r pedwar capel eisoes wedi cau, ac onibai am gyhoeddi *Capeli Llanelli* ni fyddai'r un cofnod manwl a chywir o'u hanes – gan gynnwys lluniau hanesyddol – mewn bodolaeth.

Y BEDYDDWYR

Cyhoeddwyd cyfrolau ar hanes pedwar o gapeli'r Bedyddwyr yn Llanelli, sef Sion,⁹⁸ Greenfield,⁹⁹ Bethania¹⁰⁰ a Moriah.¹⁰¹ Gedy hyn dri chapel, sef Bethel, Calfaria a Caersalem, y bu angen llunio'u hanes yn gyfan am y tro cyntaf yn *Capeli Llanelli*. Cyhoeddwyd pythiau ar hanes yr holl gapeli yn y llawlyfrau enwadol a gyhoeddwyd yn 1869, 1893, 1907, 1929, 1941 a 1979 i nodi ymweliadau'r Undeb â thref Llanelli. Fe gafwyd braslun defnyddiol o hanes yr achosion gan D. Huw Owen,¹⁰² ond digon tebyg yw ei gynnwys i'r hyn a gyhoeddwyd yn y llyfrynnau enwadol.

⁹³ CL, 177-180, 198-200.

⁹⁴ CL, 236-237.

⁹⁵ CL, 98-103.

⁹⁶ CL, 111-115,

⁹⁷ CL, 119, 234.

⁹⁸ E. T. Jones a T. R. Jones, *Hanes Capel Sion, Llanelli*. (Llanelli: Swyddfa'r Mercury, 1931); T. R. Jones, *Sion, Llanelli: Rhai Manylion Hen a Diweddar* (Llanelli: Swyddfa'r Mercury, 1947).

⁹⁹ Graham W. Hughes, *Goodly Heritage - Greenfield Baptist Church, Llanelly 1858-1958* (Llanelli: Llanelly Mercury, 1958),

¹⁰⁰ Roberts, Huw (1970) *Bethania, Llanelli: hanes y gangen hon o Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist 1870-1970* (Llanelli: Capel Bethania, 1970).

¹⁰¹ O. Luther Nicholas, *Eglwys Moriah, Llanelli 1872-1972* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1972).

¹⁰² D. Huw Owen, 'Eglwysi Bedyddwyr Llanelli a'r Cylch', *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru* (1991), tt. 1-14.

Prif ofynion y penodau yn *Capeli Llanelli*¹⁰³ ar Sion, y fam eglwys, yw esbonio pwysigrwydd yr achos a'i weinidogion dylanwadol, a diweddarau'r hanes gan mai ym 1947 y cyhoeddwyd y gyfrol fwyaf diweddar. Y mae'r ddwy gyfrol swyddogol ar Sion yn gyhwysfawr a defnyddiol, ond bu'n rhaid gosod mwy o gefndir hanesyddol y Bedyddwyr yn Ne Cymru yn *Capeli Llanelli*¹⁰⁴ er mwyn esbonio cryfder y Bedyddwyr yn ardal y Felin-foel, pentref ar gyrion tref Llanelli. Pwyswyd ar gyfrol safonol T. M. Bassett ar hanes yr enwad¹⁰⁵ a gwaith David Jones ar ddechreuadau'r Bedyddwyr yn Ne Cymru¹⁰⁶ er mwyn gosod y cyd-destun priodol sy'n ein galluogi i ddeall pam na chorfforwyd Sion yn achos ar wahân tan 1831, sef wyth mlynedd ar ôl agor y drysau.¹⁰⁷

Canolbwyntir yn y ddwy bennod ar waith tri gweinidog nodedig – sef y Parchedigion John Rhys Morgan ('Lleurwg'), Evan Talfryn Jones a Jubilee Young – yn rhinwedd eu cyfraniadau sylweddol. Y bwriad yn *Capeli Llanelli* oedd dod ag amlygrwydd newydd i'r tri ar sail eu statws cenedlaethol yn y pulpud ac ar lwyfan. Yr oedd Lleurwg yn enwedig yn gwbl gartrefol ar lwyfannau eisteddfodol a Rhyddfrydol. Fel pregethwr o'r radd flaenaf y sonnir am E. T. Jones, ac fel perfformiwr penigamp y cofir am Jubilee Young.

Rhoddir sylw manwl yn ogystal i waith cerddorol yr eglwys, dan arweiniad R. C. Jenkins,¹⁰⁸ ac ansawdd aruchel y canu cynulleidfaol mewn tref lle gallai pob capel ac eglwys ymfrostio yn safon eu cantorion. Rhoddir disgrifiadau manwl o rinweddau'r organ, yr adeiladau cain a'r gwaith adnewyddu a wnaed arnynt.¹⁰⁹

¹⁰³ CL, 247-293.

¹⁰⁴ CL, 256-257.

¹⁰⁵ T. M. Bassett, *Bedyddwyr Cymru* (Abertawe: Ty Ilston, 1977).

¹⁰⁶ David Jones, *Hanes y Bedyddwyr yn Neheubarth Cymru* (Caerfyrddin: John Thomas, 1839).

¹⁰⁷ CL, 257.

¹⁰⁸ CL, 267-270.

¹⁰⁹ CL, 257-259.

Y mae'r penodau yn dod â'r hanes i'r flwyddyn 2009 cyn i'r capel gael ei droi yn ganolfan i'r celfyddydau, er y cedwir ystafell yn yr hen ysgoldy ar gyfer gwasanaethau'r Sul. Awgrymir yn *Capeli Llanelli* mai adlewyrchiad o hanes tref Llanelli ei hun yw hanes Sion, sef twf aruthrol yn arwain at drai araf.¹¹⁰

Un o'r ethriadau prin i'r stori gyffredinol o drai yw hanes Greenfield, sef y capel mwyaf llewyrchus yn Llanelli erbyn hyn, dan arweiniad y Parchg David Jones. Y mae ganddo aelodaeth gref sy'n cynnwys nifer o Gymry Cymraeg sydd wedi dewis addoli mewn eglwys Saesneg ei hiaith. Dyna brif bwrpas y bennod yn *Capeli Llanelli*,¹¹¹ sef diweddarau'r hanes cyffrous ers dyfodiad David Jones ym 1987.

Ond fe geir gan W. Graham Hughes – yn y gyfrol i ddathlu canmlwyddiant yr achos¹¹² – adroddiad teilwng ar ddechreuadau a hanes Greenfield tan y flwyddyn 1958. Esbonnir sut y bu i Lleurwg sylweddoli maint camgymeriad y Bedyddwyr wrth fethu darparu ar gyfer trigolion di-Gymraeg y dref¹¹³ – yn enwedig o weld llwyddiant David Rees a Park Church o 1839 ymlaen – ac fe nodir tuedd nifer o Gymry Cymraeg Llanelli i addoli trwy gyfrwng y Saesneg. Gallai hyn ymwneud ag agweddau dosbarth canol Llanelli at yr iaith, ond gallai hefyd fod yn ymwneud â ffactor arall o bwys, sef agwedd hyblyg yr eglwys tuag at reolau caeth enwad y Bedyddwyr.¹¹⁴ Nid fersiwn Seisnig o Gapel Sion mo'r eglwys o gwbl – ond model newydd, mwy eangfrydig o lawer. Gwnaed penderfyniad mor gynnar ag 1865 y gellid

¹¹⁰ CL, 272.

¹¹¹ CL, 317-341.

¹¹² Hughes, *Goodly Heritage*, tt. 3-10.

¹¹³ CL, 318.

¹¹⁴ CL, 325.

cynnig Cymundeb i'r sawl na chafodd fedydd trochiad, a hynny'n gwbl groes i reolau'r enwad. Yr oedd hyn yn arwydd clir o awydd yr eglwys i fod yn gymuned gynhwysol, yn wahanol i anystwythder y capeli Cymraeg eu hiaith.

Yn y diweddariad hollbwysig, ceir esboniad o gyflwr gwan yr eglwys yn y 1960au a'r 1970au, a'r penderfyniad ymfflamychol i werthu'r ysgoldy cyfagos er mwyn codi tai newydd. Esboniodd David Jones¹¹⁵ bod dirfawr angen yr ysgoldy erbyn hyn, gan bod dwsinau o blant yn mynychu cyfarfodydd y Sul ac yn ystod yr wythnos.

Y mae *Capeli Llanelli* yn rhoi hanes Greenfield yn ei gyfanrwydd o 1858 tan 2009 – nid oes unrhyw fersiwn arall o'r hanes ar gael o 1958 ymlaen – ac fe delir sylw i lwyddiant David Jones yn y cyfnod modern a'r rhesymau am gynnydd y cyfnod diweddar. Mae iaith yr addoliad yn sicr yn ffactor, gan adlewyrchu'r dirywiad a fu yn statws a chryfder yr iaith Gymraeg yn Llanelli.

Mantais enfawr i Eglwys Bethania oedd aelodaeth y Parchg Huw Roberts dros gyfnod maith o dros 60 mlynedd. Ef a luniodd yr hanes swyddogol¹¹⁶ adeg dathlu canmlwyddiant yr eglwys ym 1970 ac ef a wasanaethodd yn y pulpud ar achlysuron dirifedi i gynorthwyo'r gweinidogion. Y mae *Capeli Llanelli* yn adrodd ei stori yntau – athro poblogaidd a fu'n gawr ym myd diwylliant Cymraeg Llanelli am ddegawdau – gan nad oes unrhyw gyfrif arall ar gael o'i wasanaeth pwysig.

¹¹⁵ Sgyrsiau gyda'r Parchg David Jones rhwng Medi 2008 ac Awst 2009.

¹¹⁶ Roberts, Huw (1970) *Bethania, Llanelli: hanes y gangen hon o Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist 1870-1970* (Llanelli: Capel Bethania, 1970).

Y mae ei hanes swyddogol yn raenus a manwl, yn ôl y disgwyl, er nad yw'n manylu ar y ffræ a orfododd y gweinidog cyntaf, y Parchg Enos George, i adael yr ofalaeth,¹¹⁷ nac ychwaith yn crybwyll statws y Parchg Trefor Jones fel un o brif Seiri Rhyddion y sir, ac fe geir yn *Capel Llanelli* nodyn am y cyswllt cryf rhwng y Seiri a'r gweinidogion Anghydfurfiol,¹¹⁸ fel yn achos Elfed yn enwedig ar ôl ei gyfnod yn Park Church.

O ran diweddariad, ceir yn *Capeli Llanelli* ddisgrifiad o hanes Bethania tan 2009, gan gynnwys cyfnod dan arweiniad y Parchg J. Ernest Pugh, Calfaria,¹¹⁹ a'r penderfyniad yn y 1990au i greu achos dwyieithog¹²⁰ yn wyneb dirywiad y Gymraeg yn y dref. Erbyn hyn y mae Bethania yn un o'r ychydig gapeli sy'n dal ar agor yn Llanelli.

Dal ar agor yw hanes Moriah, hefyd, ond achos wedi gwanhau yn ddifrifol ydyw. Y mae'r adrannau yn *Capeli Llanelli*¹²¹ yn pwysu ar hanes swyddogol yr achos¹²² ond bu angen ychwanegu manylion o golofnau'r wasg leol am ddechreuadau'r achos – gan gynnwys y ddamwain angheuol yn ystod yr adeiladu – ac yna ymddeoliad Dr Rowlands a sefydlu ei olynnydd W. R. Watkin.¹²³ Wedi dweud hynny, prif swyddogaeth *Capeli Llanelli* oedd diweddarau hanes Moriah o gyfnod y canmlwyddiant ym 1972 tan 2009, gan alw sylw arbennig at wasanaeth y Parchg Dewi Davies fel gweinidog am 49 mlynedd. Cafwyd gan y Parchg Peter Thomas, un o blant yr eglwys, gyfres o atgofion personol am Dewi Davies yn

¹¹⁷ CL, 346-348.

¹¹⁸ CL, 349.

¹¹⁹ CL, 355.

¹²⁰ CL, 366.

¹²¹ CL, 369-389.

¹²² O. Luther Nicholas, *Eglwys Moriah, Llanelli 1872-1972* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1972).

¹²³ *Llanelly Guardian* (18 Ebrill 1872), 4; *South Wales Press* (9 Rhagfyr 1909), 1; *Llanelly and County Guardian* (18 Chwefror 1909), 1; *Llanelly Mercury* (12 Ionawr 1911), 2.

ogystal â'i ddisgrifiad cyfoethog o fywyd eglwys gadarn ym mlynnyddoedd 'y cynnydd olaf cyn chwalfa seciwlariaeth a thranc y ffydd'.¹²⁴

Gedy hyn eglwysi Bethel,¹²⁵ Calfaria¹²⁶ a Caersalem,¹²⁷ tri chapel y nodir eu datblygiad yn syml ac elfennol yn y llawlyfrau enwadol. Adroddir eu hanes cyfan am y tro cyntaf yn *Capeli Llanelli* ac fe ddylid tynnu sylw at elfennau dadlennol yn hanes y tri.

Yn achos Bethel, nodir arweiniad cyhyrog yr eglwys dan y Parchg Hugh Jones yn yr ymgyrch Ddirwest¹²⁸ – a hynny mewn tref o dafarndai dirifedi, a byddin o weithwyr sychedig yn y diwydiannau mawr o gwmpas ardal y dociau. Nodir yn ogystal agwedd anhyblyg yr eglwys at reolau caeth yr enwad, gan gynnwys amod y bedydd trochiad, a gwrthod rhan i fenywod yn arweinyddiaeth yr eglwys. Cofier bod Greenfield wedi ymwrthod â'r amod ar fedydd trochiad ym 1865. Bu'n rhaid aros tan weinidogaeth y Parchg Tregelles Williams ym 1963 cyn i'r newid ddod i Bethel, ac fe ildwyd yn y pen draw ar fater statws menywod ym 1974.¹²⁹ Y mae *Capeli Llanelli* yn rhoi hanes yr eglwys tan 2009, ac fe gyhoeddwyd llu o atgofion personol gan Huw Tregelles Williams, mab y cyn-weinidog, o gyfoeth bywyd Bethel yn y 1950au a'r 1960au pan oedd Llanelli yn dal yn llawn bwrlwm diwydiannol. Ceir hefyd ddisgrifiad coeth ganddo o fywyd cerddorol yr eglwys. Dyma'r unig gyfrif manwl sydd ar gael o hanes Bethel o'i gwreiddiau hyd ddegawd cyntaf yr 21ain ganrif.

¹²⁴ CL, 388.

¹²⁵ CL, 295-315.

¹²⁶ CL, 391-408.

¹²⁷ CL, 411-428.

¹²⁸ CL, 295-299.

¹²⁹ CL, 299.

Prif nodwedd stori Calfaria yw'r ffaith mai ffrwyth anghydfod – unwaith eto – oedd sefydlu'r capel hwn heb fod ymhell o safle'r fam eglwys, Sion, lle bu'r gweinidog, Lleurwg, yn llugoer iawn ei agwedd at yr ymgyrch Ddirwest. Penderfynwyd sefydlu'r achos newydd ar sail yr ymroddiad i ymwrthod â'r ddiod feddwol. Yr ail nodwedd o ddiddordeb yw gweinidogaeth helbulus y Parchg Daniel Hughes, un o arloeswyr y Blaid Lafur yng Nghymru, a chymeriad cwerylgar yr adroddir ei hanes yn fanwl fan arall.¹³⁰ Am y tro cyntaf, adroddir hanes y capel yn llawn o 1881 hyd ei gau yn 2003 yn *Capeli Llanelli*.

Yn achos Caersalem, ceir golwg ar hanes yr ieuengaf o gapeli'r Bedyddwyr yn Llanelli, ac fe ddaw'r stori â dwy elfen bwysig i'n sylw. Y gyntaf yw cyfraniad positif y capel o ran efengylu yn rhai o ardaloedd tlotaf Llanelli,¹³¹ gweithgaredd gymharol brin ym myd capeli'r dref, a'r ail yw proffeil ieithyddol y capel wrth i ddegawd y 1960au ddatglybu. Gwnaed y gwaith efengylu ar stad newydd Penyfan yn ddieithriad trwy gyfrwng y Saesneg, gan adlewyrchu'r newid cymeriad ieithyddol a welwyd yn y dref ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Yr ail elfen – sy'n deillio o'r newid hwnnw – yw'r frwydr a gafodd y Parchg Denis Young i gynnal defnydd o'r Gymraeg yn ei gapel ei hun.¹³² Bu ei dystiolaeth bersonol yn gryfder mawr i'r adran ar Caersalem ac mae'n taflu goleuni defnyddiol ar y newid mawr a ddaeth i gymeriad y dref, yn enwedig mewn ardal ddiwydiannol â'i rhesi o dai teras nodweddiadol. Dim ond yn *Capeli Llanelli* y ceir disgrifiad o fywyd capel Caersalem o'r dechrau i'r diwedd, ac fe ellir haeru ei fod yn record anhepgor o weithgaredd y Bedyddwyr yn y dref.

¹³⁰ Ivor Thomas Rees, *Daniel Hughes: The Sledgehammer Pastor* (Talybont: Y Lolfa, 2015), tt. 62-76; Edwards, 'Mantell a Morthwyl', tt. 12-18.

¹³¹ CL, 417-418.

¹³² CL, 423-424.

Y METHODISTIAID

Nodwyd eisoes mai un o ddirgelion hanes Llanelli yw gwendid cymharol enwadau'r Methodistiaid (Calfinaidd a Wesleiaidd) yn y dref ar waethaf ymweliadau cynnar gan Howel Harris a John Wesley. Y Methodistiaid oedd y 'drydedd fintai' yn ôl James Morris¹³³ – sef y mwyaf diweddar a'r mwyaf gwan o'r tri enwad. Y mae gan Morris grynodedd o ddechreuadau'r achosion Calfinaidd i gyd,¹³⁴ ac ar y ffeithiau craidd hynny – nifer ohonynt yn deillio o hanes swyddogol yr enwad,¹³⁵ er mor elfennol yw hwnnw – y seilir pob adroddiad dilynol ar achosion y Methodistiaid Calfinaidd yn y dref.

Cyhoeddwyd cyfrolau swyddogol ar hanes Capel Newydd,¹³⁶ Triniti¹³⁷ a'r Presbyterian Church,¹³⁸ amlinelliad (anghyhoeddedig) ar hanes Glenalla,¹³⁹ ond ni chyhoeddwyd dim byd swyddogol ar hanes Siloh nac ychwaith ar Hall Street – er bod ysgrif gryno, anghyhoeddedig ar ei chwaer eglwys, Jerusalem.

Diweddarau, felly, yw prif swyddogaeth *Capeli Llanelli* o ran dau enwad y Methodistiaid yn y dref, yn enwedig o ystyried ansawdd uchel gwaith Gomer Roberts ar hanes dau o'r achosion, Capel Newydd a Triniti, a gwaith Penry Jones ar y Presbyterian Church, er bod cyfiawnhad

¹³³ J. Morris, *Hanes Methodistiaeth Sir Gaerfyrddin* (Dolgellau: Swyddfa'r Goleuad, 1911), t. 422.

¹³⁴ *Ibid.*, tt. 422-448, 467-470.

¹³⁵ J. Hughes, *Methodistiaeth Cymru*, Cyfrol II (Gwreccsam: R. Hughes a'i Fab, 1854), tt. 491-493.

¹³⁶ Gomer M. Roberts, *Y Capel Newydd, Llanelli 1809-1959* (Llanelli: Swyddfa'r Mercury, 1959).

¹³⁷ Gomer M. Roberts, *Hanes Eglwys y Triniti, Llanelli* (Llanelli: Eglwys y Triniti, 1958).

¹³⁸ D. Penry Jones, *Presbyterian Church, Llanelli: A brief account of eighty years of Christian witness* (Llanelli: Presbyterian Church, 1952); W. H. Whomsley (ed.), *Presbyterian Church Llanelli, Centenary Brochure* (Llanelli: Presbyterian Church, 1972).

¹³⁹ Watcyn Williams, *Hanes Glenalla (amlinelliad)* (1948). Ysgrif anghyhoeddedig yn Llyfrgell Gyhoeddus Llanelli.

dros ailadrodd elfennau o hanes cynnar y Methodistiaid yn Llanelli er mwyn i gynulleidfa gyfoes ei ddeall a'i werthfawrogi.

Yr elfen gyntaf i'w thanlinellu yw gwendid cymharol y Methodistiaid o'u cymharu â'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr.¹⁴⁰ Nodir bod y Methodistiaid Calфинаidd wedi bod yn cyfarfod yn Gelli-onn o 1786 ymlaen, dim ond chwe blynedd ar ôl sefydlu Capel Als. Hwyrach y gellir cytuno gyda James Morris mai diffyg arweinydd o radd David Rees oedd i'w gyfrif am arafwch y Methodistiaid i ennill tir yn Llanelli.

Cwblhaodd Gomer Roberts hanes Capel Newydd ym 1959, a'r gwir yw mai cyfnod o drai eglur oedd y cyfnod o'r 1970au ymlaen, ar waethaf ymdrechion solet carfan o weinidogion abl a gweithgar. Fe geir yn *Capeli Llanelli*¹⁴¹ gyfuniad o atgofion personol, disgrifiad o'r cymanfaoedd enwog, manylion am gynllun yr adeilad a'r ailadeiladu mawr a fu yn 1910, a gwybodaeth am yr organ ddrudfawr a osodwyd yno diolch i Gronfa Carnegie.¹⁴²

Diddorol hefyd yw nodi'r ddolen gyswllt gyda rhai o gapeli Llundain. Aeth J. E. Davies ('Rhuddwawr') o Siloh, Llanelli, i Jewin, Llundain, cyn dychwelyd yn ei dro i Capel Newydd am gyfnod byr yn 1913. Bu Gwilym Rees yn weinidog yn Hammersmith ac Ealing cyn dod i Lanelli yn 1968.¹⁴³ Prif gyfraniad *Capeli Llanelli* yng nghyswllt Capel Newydd, felly, yw cynnig yr hanes cyfan o 1809 tan 2009 – dyma'r unig fersiwn ohono hyd yma – gan nodi bod y capel yn dal ar agor yn 2018.

¹⁴⁰ CL, 433-436.

¹⁴¹ CL, 431-465.

¹⁴² CL, 447-448.

¹⁴³ CL, 456-457, 464-465.

Yn achos Triniti,¹⁴⁴ pwyswyd yn drwm nid yn unig ar waith Gomer Roberts ond hefyd ar dystiolaeth bersonol Gethin Hughes, organydd y capel am 40 mlynedd.¹⁴⁵ Iddo ef y mae'r diolch am y cyfeiriadau at ddarlledu yn ystod yr Ail Ryfel Byd,¹⁴⁶ gwybodaeth am nodweddion arbennig yr adeilad, gweithgaredd y gweinidogion gan gynnwys y Parchedigion T. C. Lewis, Arthur Pritchard, Gareth H. Davies, Russell Morgan ac Eifion Roberts, a manylion am yr organ a bywyd cerddorol yr eglwys.¹⁴⁷ Nid yw'r manylion personol yn rhan o gyfrol Gomer Roberts, ac mae gwaith y mwyafrif o'r gweinidogion a enwyd y tu hwnt i ystod amser ei gyfrol yntau. Dim ond yn *Capeli Llanelli* y ceir hanes yr achos o'i ddechreuad hyd y flwyddyn 2009. Y mae'r achos yn dal ar agor yn 2018 ond mae'r prif adeilad wedi cau oherwydd problemau iechyd a diogelwch.

Cyfrol safonol iawn yw un Penry Jones ar y Presbyterian Church ac felly proses o ddiweddarau yw'r flaenoriaeth yma, i gynnwys gweinidogaeth y Parchg Elfed ap Nefydd Roberts, ac yn fwy penodol un y Parchg Huw Whomsley o 1971 tan 1994.¹⁴⁸ Serch hynny dylid nodi bod heddychiaeth Penry Jones¹⁴⁹ wedi bod yn destun tensiwn ar adegau – fel y bu yn hanes y Tabernacl a Park Church – ac fe gafwyd awgrym bod cynulleidfaoedd bonheddig, hunanystyriol y capeli hyn yn ymwrthod â neges basiffistaidd, yn enwedig ym mlynnyddoedd yr Ail Ryfel Byd. Dim ond yn *Capeli Llanelli* y ceir hanes cyflawn yr achos o 1873 tan 2009. Y mae'r eglwys bellach wedi cau.

¹⁴⁴ CL, 483-497.

¹⁴⁵ CL, 492-495; cafwyd sawl sgwrs gyda Gethin Hughes rhwng Medi 2008 ac Awst 2009.

¹⁴⁶ CL, 483-484.

¹⁴⁷ CL, 493-497.

¹⁴⁸ CL, 514-518.

¹⁴⁹ CL, 511-512.

Yn achos Siloh¹⁵⁰ a Glenalla,¹⁵¹ daw *Capeli Llanelli* a hanes y ddau achos yn ei gyfarwydd am y tro cyntaf.

Bu'n rhaid egluro a chywiro dyddiadau James Morris o ran agor Siloh¹⁵² ym Mai 1877, gan mai 'oddeutu y flwyddyn 1878'¹⁵³ oedd ei gynnig ef. Dylid nodi sawl peth o ddiddordeb yn hanes Siloh, gan gynnwys y ddyled enfawr a lethodd bywyd yr eglwys yn y degawdau cynnar.¹⁵⁴ Bu'r ddyled yn ffactor marwol ym mywyd yr eglwys, ac ar sawl achlysur credai'r swyddogion na ellid parhau i alw gweinidogion a thalu eu cyflog. Dylid nodi traddodiad cerddorol y capel dan arweiniad William Thomas Rees ('Alaw Ddu'),¹⁵⁵ un o gerddorion amlycaf ei ddydd. Ac yn achos Siloh ceir y ddolen gyswllt fwyaf amlwg rhwng Llanelli a Llundain. Bu J. E. Davies, D. S. Owen a M. H. Edwards ill tri yn weinidogion a aeth o Siloh i fugeilio yn Llundain.¹⁵⁶ Erys un elfen arall sy'n bwysig nodi yng nghyswllt Siloh: hwn oedd y capel Cymraeg cyntaf i gau ei ddrysau yn Llanelli. Digwyddodd hynny yn 1976 ond fe addaswyd yr adeilad yn llwyddiannus i fod yn ganolfan gymunedol.

Cafwyd addasiad llwyddiannus, hefyd, yn achos Glenalla ar ôl iddo gau ym 1987. Hanes cymharol fyr yw un Glenalla,¹⁵⁷ ac fe bwyswyd ar wybodaeth James Morris a Watcyn Williams i nodi prif gerrig milltir yr achos. Dim ond am 78 mlynedd y bu'r capel yno, a byrdwn y wers, yn sgîl sgysiau gyda theuluoedd y Parchedigion Glanville Davies a Gareth H. Davies, yw mai canlyniad arafwch yr enwad oedd hyn. Dylid bod wedi dechrau achos yn

¹⁵⁰ CL, 521-535.

¹⁵¹ CL, 537-544.

¹⁵² CL, 528.

¹⁵³ Morris, *Hanes Methodistiaeth Sir Gaerfyrddin*, t. 444.

¹⁵⁴ CL, 529-530.

¹⁵⁵ CL, 526-528.

¹⁵⁶ CL, 530-533.

¹⁵⁷ CL, 537-545.

yr ardal o leiaf ugain mlynedd ynghynt. Dim ond yn *Capeli Llanelli* y ceir hanes yr achos o'i ddechrau i'w diwedd.

Yn olaf, stori o lwyddiant yw stori Hall Street,¹⁵⁸ eglwys Saesneg ei hiaith yn perthyn i enwad y Methodistiaid Wesleidd. Y mae iddi hanes cyfoethog iawn, ond cyn ymddangosiad *Capeli Llanelli* ni chafwyd unrhyw ymgais i gofnodi'r hanes hwnnw ynghyd â stori'r chwaer eglwys, Jerusalem, Wind Street, lle bu cynulleidfaoedd yn addoli trwy gyfrwng y Saesneg a'r Gymraeg rhwng 1793 a 1967 cyn i'r capel gael ei ddymchwel.

Nodir yn *Capeli Llanelli*¹⁵⁹ bod ymweliadau John Wesley wedi bod yn gyfrwng i sefydlu achos Methodistiaid yn y dref – yr unig achos Saesneg ei iaith, a hwnnw ymhell cyn sefydlu Park Church ym 1839 – ond bod twf yr enwad wedi dioddef oherwydd diffyg arweiniad. Yn ôl Ioan Brynderi¹⁶⁰ roedd system gylchdaith y Wesleaid yn tanseilio sefydlogrwydd yr enwad ac yn golygu na allai arweinydd Wesleidd – yn nhraddodiad David Rees neu Lleurwg – fwrw gwreiddiau dwfn yn y dref.

Ceir yn *Capeli Llanelli* hanes cyfan Jerusalem a'i chwaer eglwys Hall Street, yr eglwys Wesleidd Saesneg ei hiaith sy'n dal i ffynnu yn Llanelli. Ychwanegwyd at y deunydd a gafwyd yn y wasg trwy gynnwys gwybodaeth gan y Parchg Pauline Barnett, y gweinidog yn 2009, a'r Parchg Ddr Leslie Griffiths o Borth Tywyn, a fu'n gysylltiedig â Hall Street ers y 1950au. Cynhwysir gwybodaeth am gynllun yr adeilad ynghyd â manylion am yr ailadeiladu

¹⁵⁸ CL, 467-481.

¹⁵⁹ CL, 472.

¹⁶⁰ 'The Old Jerusalem in Wind Street', *Llanelly Star* (5 Hydref 1940), 5.

a fu yn yr ardal yn y 1960au pan ddymchwelwyd ardal Gelli-onn er mwyn creu ffordd fawr newydd.

I gloi'r adran hon dylem bwysleisio prif bwrpas a chyfraniad *Capeli Llanelli* yng nghyd-destun y cyhoeddiadau blaenorol. Adroddir stori Anghydfurfiaeth grefyddol y dref o'r dechreuadau yn yr ail ganrif ar bymtheg hyd ddegawd cyntaf y mileniwm newydd – yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys sylw penodol i bob capel ac enwad – am y tro cyntaf. Nid oes yr un gyfrol arall mor eang ei therfynau, er dylid dweud yn syth nad oedd modd cynnwys pob manylyn am bob capel. Bu'n rhaid blaenoriaethu ar sail y cerrig milltir pwysicaf. Lawn cyn bwysiced â hynny yw bod y gyfrol yn diweddarau'r gweithiau a gyhoeddwyd ddegawdau yn ôl, ac yn ychwanegu at y corff o wybodaeth ynddynt.

5. CITY MISSION A'R ERTHYGLAU – HANESYDDIAETH

Prif nodwedd yr holl ymwchil ar hanes cynnar addoli yn yr iaith Gymraeg yn Llundain yw diffyg tystiolaeth ddogfennol. Bu delio â hyn yn her enfawr, ond llwyddwyd serch hynny i ddod o hyd i wybodaeth newydd a gwerthfawr.

Dylid ystyried dau gategori o ddeunydd yn y cyswllt hwn, sef deunydd yn ymwneud â gwreiddiau'r achosion Ymneilltuol a hynt yr achosion unigol hynny, a denuydd yn ymwneud ag unrhyw dystiolaeth am ddatblygiad addoli ymhlith y Cymry yn Llundain dros gyfnod o bum canrif a mwy o oes Harri Tudur ymlaen, yn unol â chanllaw ddefnyddiol R. T. Jenkins a Helen Ramage.¹⁶¹

Y brif ffynhonnell o ran y categori cyntaf – sef naratif yr achosion Cymraeg gwreiddiol yn Llundain – yw trydedd gyfrol y Parchg John Hughes ar hanes corff y Methodistiaid Calфинаidd hyd 1850,¹⁶² lle ceir datganiad moel gan yr awdur 'fod neb wedi cofnodi gwahanol amgylchiadau yr achos Methodistaidd yn y brif-ddinas, fel yr oedd yr amgylchiadau hyny yn digwydd'.¹⁶³ Cydnabu Hughes mai gwaith y Parchg Owen Thomas oedd trwch y deunydd a gyhoeddwyd ar y cynullïadau cyntaf y gellir rhoi unrhyw wybodaeth sicr yn eu cylch – a hynny trwy grynhoi 'cymaint o'r hanes ag a ellir oddiwrth y bobl oedranus sydd eto yn fyw, o'r hyn a welsant hwy eu hunain, ac o'r hyn a glywsant gan eraill.' Tystiolaeth ar dafod leferydd a geir yma, felly, yn hytrach na thystiolaeth ffurfiol neu ddogfennol.

¹⁶¹ R. T. Jenkins and H. M. Ramage, *A history of the Honorable Society of Cymmrodorion and of the Gwyneddigion and Cymreigyddion Societies, 1751-1951* (London: Society of Cymmrodorion, 1951), tt. 3-4.

¹⁶² J. Hughes, *Methodistiaeth Cymru*, Cyfrol III (Gwrecsam: R. Hughes, 1856), tt. 434-444.

¹⁶³ *Ibid.*, t. 434.

Yr un yw'r deunydd crai – ond gydag ychwanegiadau personol – yn hanes Hugh Edwards¹⁶⁴ o'i gyfnod yntau, ac fe ddylid rhoi cydnabyddiaeth lawn i D. R. Hughes – un o hoelion wyth y Methodistiaid Calfinaidd yn Llundain – am ei ysgrif werthfawr ar achos Crosby Row¹⁶⁵ a'r cyswllt â John Wesley, heb anghofio ei sylwadau dadlennol mewn cyfres o erthyglau ar wreiddiau'r capeli Methodistiaid Calfinaidd, ac yn enwedig ar hynt Wilderness Row yn rhinwedd ei brofiad yntau o ymweld â safle'r hen gapel ac ymchwilio i'w hanes.¹⁶⁶

At hynny dylid ychwanegu mai naratif cymharol elfennol sydd wrth wraidd yr hanes swyddogol, naratif y bu angen ei gywiro yn sylweddol a'i helaethu yn *City Mission* ac yn y ddwy erthygl gyhoeddedig. Sonnir er enghraifft am draddodiad 'sigr yn aros hyd heddyw y byddai Harris [...] yn pregethu weithiau yn Gymraeg yn Lambeth'¹⁶⁷ – ond gwyddom i sicrwydd erbyn hyn ar sail dyddiaduron manwl Howel Harris ei fod wedi pregethu droeon yn Lambeth yn Gymraeg a Saesneg.¹⁶⁸ Sonia John Hughes hefyd am sefydlu cyfarfodydd yn Cock Lane 'tua'r fl. 1774' – a bu cryn drafod ar gywirdeb y dyddiad hwnnw yn y cyfamser. Manylir arno yn *City Mission* ac yn y ddwy erthygl ac fe gynnigir gwybodaeth newydd yn y cyswllt hwn.

Yr un deunydd sylfaenol a atgynhyrwyd gan y Parchg J. E. Davies ('Rhuddwawr') yn ei gyfrol ar hanes Cymanfa'r Pasg yn Llundain – er iddo hepgor amhendantrwydd 'tua'r fl.

¹⁶⁴ Hugh Edwards, *Y Deugain Mlynedd Hyn: sef Adgofion mewn cysylltiad â Methodistiaeth Llundain* (Aberystwyth: Richard Samuel, 1894).

¹⁶⁵ D. R. Hughes, 'John Wesley a Hen Gapel Crosby Row, Llundain', yn *Bathafarn*, 4 (1949), tt. 7-13.

¹⁶⁶ D. R. Hughes, 'Hanes achosion crefyddol Cymreig Llundain', yn *Y Ddolen*, 1/4 (1926), tt. 10-11; 1/9 (1926), t. 15; 4/1 (1929) tt. 8-9; 9/4 (1934), t. 5.

¹⁶⁷ Hughes, *Methodistiaeth Cymru*, Cyfrol III, t. 435.

¹⁶⁸ John Thickens, *Howel Harris yn Llundain neu gyfraniad Cymru i'r mudiad Methodistiaidd yn y brifddinas* (Caernarfon: Llyfrfa'r MC, 1938), tt. 242-3; Tom Beynon, 'Extracts from the diaries of Howell Harries', yn *Bathafarn*, 9 (1954), tt. 31-37; Tom Beynon, *Howel Harris's Visits to London* (Aberystwyth: Cambrian News Press, 1960).

1774' a datgan yn hyderus – ond yn gamarweiniol, fel y datgelir – mai 'yn y flwyddyn 1774' y dechreuodd y Corff, yn ffurfiol, ei yrfa yn y Brifddinas.¹⁶⁹

Gellir dadlau mai'r mwyaf toreithiog o blith haneswyr y Methodistiaid Calфинаidd yn Llundain oedd y Parchg John Thickens, Willesden Green, chwilotwr diwyd a gynhyrchodd gyfrol sylweddol ar ymweliadau cyntaf Howel Harris â Llundain¹⁷⁰ – er i honno gael ei beirniadu yn hallt am ei diffyg strwythur academiaidd¹⁷¹ – ynghyd â sawl ysgrif ar wreiddiau achosion unigol. Y mae ei astudiaeth gryno o hen gapel Wilderness Row¹⁷² – rhagredegydd Eglwys Jewin – yn canolbwyntio ar ddatblygiad yr achos ar ôl cyfnod Cock Lane, a'r ysgrif a gyhoeddwyd ganddo adeg hanner canmlwyddiant adeilad newydd Jewin¹⁷³ yn crynhoi'r hanes yn gelfydd, er bod amhendrantrwydd, unwaith eto, ynghylch rhai dyddiadau allweddol, a rhai gosodiadau y bu angen eu cywiro yn *City Mission* a'r ddwy erthygl maes o law.

Yr awdur arall a lafuriodd yn ddiwyd yn y maes oedd Meurig Owen, Lewisham, ac fe gynhyrchodd sawl cyfrol werthfawr ar hanes yr Hen Gorff yn y brifddinas, yn enwedig yn Ne Llundain. Yn y gyntaf ohonynt¹⁷⁴ ceir adolygiad pwrpasol ganddo o wreiddiau'r achosion hynaf yn Ne Llundain,¹⁷⁵ ynghyd ag ymgais i olrhain symudiadau cynnar Howel Harris o gwmpas y ddinas, a damcaniaethu am le'r cyn-filwr a'r tafarnwr Edward 'Ginshop' Jones yn yr hanes cynnar.¹⁷⁶ Y mae'r gyfrol hon yn arbennig o raenus ond bu'n rhaid mynd ati yn *City*

¹⁶⁹ J. E. Davies ('Rhuddwawr'), *Canmlwyddiant Cymanfa'r Pasc: Methodistiaid Calфинаidd Llundain* (Dinbych: Gee a'i Fab, 1912), t. 7.

¹⁷⁰ John Thickens, *Howel Harris yn Llundain neu gyfraniad Cymru i'r mudiad Methodistaidd yn y brifddinas* (Caernarfon: Llyfrfa'r MC, 1938).

¹⁷¹ R. T. Jenkins, 'Hywel Harris yn Llundain', yn *Y Traethodydd* XCIV, 410 (1939), tt. 19-30.

¹⁷² John Thickens, 'Wilderness Row, Llundain', yn *Cylchgrawn Hanes y Methodistiaid Calфинаidd*, XXIV, 4 (Rhagfyr 1939), tt. 121-30.

¹⁷³ John Thickens, 'Y Fam Eglwys', yn *Eglwys Jewin: Hanes ac Atgof* (Llundain: Henaduriaeth Llundain, 1929).

¹⁷⁴ Meurig Owen, *Tros y Bont - Hanes Eglwysi Falmouth Road, Deptford a Parson's Hill, Woolwich, Llundain* (Llundain: Eglwys Jewin, 1989).

¹⁷⁵ Cambrian, Crosby Row, Falmouth Road, Deptford, Woolwich.

¹⁷⁶ Owen, *Tros y Bont*, tt. 9-25.

Mission a'r ddwy erthygl i helaethu a chywiro rhannau o'r hanes cynnar, yn enwedig o ran cefndir a rôl Edward Jones, a'r cyswllt tybiedig rhwng cynulleidfaoedd Lambeth a Cock Lane. Prif amcan yr erthygl 'On the trail of Ginshop Jones: Welsh Nonconformists in Eighteenth-Century London' yw cynnig darlun llawer mwy manwl a realistig o Edward Jones a'i gyfraniad. Yn yr ail gyfrol o'i eiddo,¹⁷⁷ ceir gan Meurig Owen hanes saith o achosion diflanedig¹⁷⁸ ar draws Llundain. Y mae hwn eto yn gyhoeddiad safonol iawn a roes syflaen gadarn i rai o adrannau *City Mission* ar yr eglwysi dan sylw. Darperir cyfoeth o wybodaeth ganddo mewn ysgrif arall ar gymeriad cynulleidfaoedd Wilderness Row a Jewin Crescent, yn enwedig o ran dosbarth cymdeithasol.¹⁷⁹

O ran capeli unigol y Methodistiaid Calfinaidd yn Llundain, ymddangosodd deg cyhoeddiad o safon amrywiol iawn dros y blynyddoedd. Fe'u rhestrir yma fesul enwad ac yn ôl dyddiad geni'r achos. Y mwyaf sylweddol o bell ffordd yw cyfrol Gomer Roberts ar Jewin, mam eglwys yr enwad yn Llundain.¹⁸⁰ Y mae hon yn gyfraniad neilltuol iawn i'n dealltwriaeth o ddwy ganrif o hanes yr achos. Ei phrif wendid yw'r cyfnod cynnar, a'r duedd i ailadrodd y cwestiynau agored a osodwyd gan Thickens ac eraill yn eu cyfrolau hwy. Nid oes unrhyw ymgais i gynnig lleoliadau penodol yng nghyswllt ymweliadau cynnar Howel Harris ag ardal Lambeth, ac fe ailadroddir ffeithiau – megis dyddiad cychwyn Wilderness Row a'r honiad mai capel newydd a godwyd yno – heb eu hamau.¹⁸¹ Man gorffen y gyfrol oedd 1974 ac fe olygai hynny bod angen 40 mlynedd o ddiweddariad i'r hanes.

¹⁷⁷ Meurig Owen, *Ymfyn am yr Hen Lwybrau* (Llundain: Henaduriaeth Llundain, 2001).

¹⁷⁸ Wilton Square, Mile End Road, Shirland Road, Stratford, Islington, Enfield, Tottenham.

¹⁷⁹ Meurig Owen, 'Llyfr bedyddiadau Eglwys Wilderness Row a Jewin Crescent, Llundain, 1799-1875', yn *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 23 (1999), tt. 63-68.

¹⁸⁰ Gomer M. Roberts, *Y Ddinas Gadarn - Hanes Eglwys Jewin Llundain*. (Llundain: Eglwys Jewin, Llundain, 1974).

¹⁸¹ *Ibid.*, tt. 19-20.

Cyhoeddwyd crynodeb o hanes yr achos yn Deptford gan Meurig Owen¹⁸² sy'n dibynnu i raddau helaeth ar adroddiad gwreiddiol y Parchg James Hughes ('Iago Trichrug'),¹⁸³ y gof o Giliau Aeron a fu'n bugeilio'r preiddiau yn Deptford, Woolwich a Jewin hyd ei farwolaeth ym 1844. Y mae gan Robert Rhys ddisgrifiad arbennig o fywyd ac amodau gwaith anodd James Hughes yn Llundain¹⁸⁴ – dioddefodd dlodi enbyd – hanes a seiliwyd yn rhannol ar gofiant gwreiddiol J. E. Davies.¹⁸⁵ Dylid darllen hanes Deptford ar y cyd gyda chyfrol Meurig Owen ar yr achos yn Lewisham¹⁸⁶ gan bod Deptford, Woolwich a Lewisham yn ffurfio rhwydwaith clos yn Ne-Ddwyrain Llundain. Seiliwyd yr hanes cynnar ar lyfryn a gyhoeddwyd gan y Parchg Eliseus Howells adeg dathlu hanner canmlwyddiant yr achos ym 1949.¹⁸⁷ Bu galw amlwg am ddiweddarau'r hanes gan bod y tri achos wedi cau cyn 2014.

Diweddarau yw'r angen anosgoadwy yn achos hanes Eglwys Charing Cross Road¹⁸⁸ – dyma lyfryn o safon uchel ar ddatblygiad yr achos ond mae'n gorffen yn 1949 – ac y mae'n werth ystyried sylwadau dadlennol y Parchg Peter Hughes Griffiths ar fywyd Llundain a gofynion y capeli o ran gofal Cymry ifainc yn ystod ei gyfnod yntau yn weinidog yr eglwys.¹⁸⁹

¹⁸² Meurig Owen, 'The Welsh Church in Deptford 1800-66', in *Lewisham Local History Society Transactions* (1979), tt. 42-80.

¹⁸³ James Hughes, 'Hanes byr, o ddechreu a pharaâd y Trefnyddion Calfinaidd, yn Deptford ger llaw Llundain', yn *Goleuad Cymru* (Mai 1828), tt. 393-396.

¹⁸⁴ Robert Rhys, *James Hughes, 'Iago Trichrug'* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2007).

¹⁸⁵ J. E. Davies, *Cyfrol Goffa yr Hybarch Esboniwr James Hughes (Iago Trichrug), Llundain* (Dinbych: Gee a'i Fab, 1911).

¹⁸⁶ Meurig Owen (Gol.), *Yr Achos yn Lewisham 1899-1999* (Llundain: Eglwys Gymraeg Lewisham, 1999).

¹⁸⁷ Eliseus Howells, *Yr Achos yn Lewisham 1899-1949* (Llundain: Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 1949).

¹⁸⁸ E. Gwyn Evans, *Y Ganrif Gyntaf 1849-1949* (Llundain: Eglwys Charing Cross Road, 1951).

¹⁸⁹ Griffiths, *Llais o Lundain*, tt. 21-33.

Yn achos Holloway,¹⁹⁰ Clapham Junction,¹⁹¹ Walthamstow a Leytonstone,¹⁹² Wood Green,¹⁹³ Ealing a Hammersmith,¹⁹⁴ a Sutton,¹⁹⁵ cafwyd crynodebau defnyddiol o'r hanesion wedi eu cyhoeddi gan yr eglwysi i nodi cerrig milltir nodedig. Bu angen diweddarau'r cyfan o'r adroddiadau hyn yn *City Mission*.

O ran achosion Mile End Road, Wilton Square, Falmouth Road, Shirland Road, Islington, Stratford, Walham Green, Willesden Green, Wembley, a Cockfosters, bu'n rhaid llunio'r hanes o'r dechrau ar sail cofnodion y capeli ac adroddiadau yn y wasg enwadol. Adroddir eu hanes am y tro cyntaf yn *City Mission*.

Ailgyhoeddwyd peth o'r un deunydd gwreiddiol ar ddechreuadau'r achosion hynaf gan Thomas Rees a John Thomas yn eu cyfrol hwythau ar wreiddiau'r achosion Annibynnol Cymraeg yn Llundain¹⁹⁶ gan fod yr achosion cynharaf wedi datblygu o'r achos yn Wilderness Row. Y mae'r deunydd yn bwysig a defnyddiol ond y mae bylchau a gwallau amlwg ynddo o ran dyddiadau a datblygiadau allweddol, megis natur dechreuadau'r cyfarfodydd yn Ne Llundain.

¹⁹⁰ Huw Llewelyn Jones, *Camre Canrif Holloway, Llundain 1865-1965* (Caernarfon: Llyfrfa'r Cyfundeb, 1965).

¹⁹¹ Geoffrey G. Davies (gol.), *Hanes Clapham Junction, Llundain 1896-1996* (Llundain, Eglwys Clapham Junction, 1996).

¹⁹² Oswald Rees Owen, *Moreia, Walthamstow (Hanes yr Achos 1903-1953)* (Llundain: Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 1953).

¹⁹³ Ifor E. Jenkins, *Eglwys Bresbyteraidd Cymru Wood Green: Hanes yr Achos 1904-54* (Llundain: Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 1954).

¹⁹⁴ Herbert J. Roberts, *Hanner Can Mlwyddiant yr Achos yn Ealing Green 1907-57* (Llundain: Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 1957).

¹⁹⁵ Gwen Môn Holt, 'Deugain mlynedd o addoliad yn Eglwys Lind Road, Sutton', *Y Goleuad* (25 Chwefror 2005), t. 1.

¹⁹⁶ Thomas Rees a John Thomas, *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, Cyfrol IV (Lerpwl: Y Tyst Cymreig, 1875), tt. 391-403.

Un o'r ffynonellau mwyaf gwerthfawr – yn bennaf o ran Annibyniaeth ond hefyd o ran trafodaeth letach am grefyddda'r Cymry yn Llundain – yw ysgrifau'r Parchg Ben Davies yn Llawlyfr Cyfarfodydd yr Undeb ym 1937.¹⁹⁷ Ceir ynddo grynoded o wreiddiau'r prif achosion Annibynnol – gwybodaeth elfennol sy'n amlwg yn ddibynnol ar gynnwys Rees a Thomas – ond fe geir ganddo hefyd ymgais i olrhain hanes pregethu trwy gyfrwng y Gymraeg yn Llundain.¹⁹⁸ Prin iawn yw'r gwaith a wnaed yn y maes allweddol hwn, ac mae diffyg tystiolaeth ddogfennol wedi llethu cynifer o ymdrechion, fel y cydnabu Ben Davies ei hun. Prif amcan yr erthygl 'Codi trywydd: y bregeth Gymraeg yn Llundain cyn cyfnod Howel Harris' yw mynd i'r afael â'r her, a datgelu ffeithiau newydd am y traddodiad o bregethu yn yr iaith Gymraeg yn eglwysi'r brifddinas.

Amrywiol iawn yw safon y cyfrolau unigol ar gapeli Annibynnol Llundain. Y mae'r gyfrol ar King's Cross¹⁹⁹ a olygwyd gan Llywelyn Williams ym 1947 yn rhyfeddol o arwynebol o ystyried traddodiad cyfoethog yr eglwys hon, er bod ynddi gyfres o atgofion personol gan aelodau hŷn o'r dyddiau cynnar yn Fetter Lane yn ystod gweinidogaeth Hwfa Môn. Cyfrol amgenach o lawer yw un W. T. Owen sy'n rhoi ffocws amlwg ar fywyd a gwaith Elfed, gweinidog amlycaf yr eglwys. Bu angen diweddarau sylweddol yn y cyswllt hwn, fel yn achos Radnor Walk²⁰⁰ a Harrow,²⁰¹ er y dylid cydnabod bod y ddwy gyfrol yma yn safonol iawn. Dim ond Harrow sydd yn dal ar agor bellach. Bu'n rhaid llunio hanes yr achosion yn y

¹⁹⁷ Ben Davies (gol.), *Llawlyfr Cyfarfodydd Llundain* (Llandysul: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, 1937), tt. 16-49.

¹⁹⁸ *Ibid.*, tt. 32-39.

¹⁹⁹ Llywelyn Williams (Gol.), *Hanes Eglwys y Tabernacl, King's Cross 1847-1947* (Llundain: W. Griffiths a'i Frodyr, 1947); W. T. Owen (Gol.), *Capel Elfed: Hanes Eglwys y Tabernacl, King's Cross* (Abertawe: Gwasg John Penri, 1989).

²⁰⁰ Ifor O. Huws, *Hanes Eglwys Radnor Walk, Llundain (1859-1959)* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1959).

²⁰¹ Morfydd Jenkins, *Hanes Eglwys Gymraeg Harrow 1937-1987* (Llundain, Eglwys Gymraeg Harrow, 1987).

Borough, Deptford, Woolwich, Barrett's Grove, East Ham, a Battersea Rise am y tro cyntaf yn *City Mission*.

Y mae tipyn llai o hanes i enwad y Bedyddwyr Cymraeg yn Llundain. Ceir hanes y prif achos yn Eastcastle Street²⁰² mewn dwy gyfrol safonol er y bu angen diweddarau sylweddol yma eto, gan bod Eastcastle Street wedi troi yn gapel anenwadol ar ôl uno tair eglwys (King's Cross, Radnor Walk ac Eastcastle Street) i ffurfio Eglwys Gymraeg Canol Llundain yn 2006. Bu angen adrodd hanes capel y Bedyddwyr Cymraeg yn Eldon Street am y tro cyntaf yn *City Mission*.

Llai o draddodiad, hefyd, sydd i'r Wesleaid Cymraeg yn Llundain. Codwyd tri chapel ganddynt, y mwyaf (o ran maint a chost) yn City Road gan y Parchg John Evans, Eglwysbach. Ceir tipyn o'r hanes helbulus yn y cofiant swyddogol iddo²⁰³ – sy'n cynnwys rhai o'i atgofion personol – ond ni chafwyd unrhyw gofnod manwl o'r helynt yn ei gyfanrwydd – y cynlluniau gor-uchelgeisiol, y ddyled farwol, a thranc yr achos yng nghyrchoedd awyr yr Ail Ryfel Byd. Adroddir hanes City Road, a'r ddau gapel Wesleiaidd arall, sef Chiltern Street a Cumberland Road, am y tro cyntaf yn *City Mission*.

Neilltuir pennod yn City Mission ar gyfer stori aghyfarwydd iawn, sef hanes yr eglwysi Anglicanaidd Cymraeg yn Llundain. Bu pump ohonynt mewn bodolaeth ar un adeg,²⁰⁴ ond dim ond un sydd yn dal ar agor, sef St Benet. Nid oes unrhyw gofnodion manwl ar gael am

²⁰² Walter P. John a Gwilym T. Hughes, *Hanes Castle Street a'r Bedyddwyr Cymraeg yn Llundain*. (Llandysul: Gwasg Gomer, 1959); D. Hugh Matthews, *Hanes Tŷ Cwrdd Castle Street 1889-1989* (Llundain: Eglwys y Bedyddwyr Cymraeg, Castle Street, 1989).

²⁰³ John Roberts a Thomas Hughes, *Cofiant y Parch Evans, Eglwysbach* (Bangor: Pwyllgor y Llyfira Wesleyaidd, 1903).

²⁰⁴ St Benet, Dewi Sant, Santes Fair, St Padarn, St Rhystyd.

wreiddiau a hanes yr achosion hyn, a bu'n rhaid dibynnu yn helaeth ar un adroddiad a gyhoeddwyd ym 1952²⁰⁵ – ac ar adroddiadau eraill yn y wasg ynghyd ag ambell gyfraniad gan aelodau presennol yr eglwysi.²⁰⁶ Dim ond yn *City Mission* y ceir hanes yr eglwysi hyn a'u cyfraniad gwerthfawr i dystiolaeth Gristionogol y Cymry yn Llundain.

Dim ond un gyfrol a gyhoeddwyd sy'n ymwneud yn benodol â hanes cyffredinol y Cymry yn Llundain: mae *The Welsh In London 1500-2000*²⁰⁷ yn cynnwys traethodau ar agweddau hanesyddol, diwylliadol a chymdeithasol, a phennod neilltuol²⁰⁸ sy'n rhoi gwybodaeth elfennol am rai o'r capeli a'r eglwysi Cymraeg eu hiaith. Ceir ynddi arolwg syml o'r prif gymeriadau, y prif ddigwyddiadau, a'r prif adeiladau. Nid oes modd i grynodedb o'r fath fanylu ar achosion unigol, ac er tegwch mae rhai o'r hanesion hynny ar gael mewn ambell lyfryn a chyfrol a gyhoeddwyd ar hyd y blynyddoedd.

Arolwg amhrisiadwy yw un Jenkins a Ramage o ddechreuadau'r cymdeithasau diwylliannol yn y ddeunawfed ganrif yn Llundain²⁰⁹ – gan mai i nodi geni'r 'Antient Britons' yn 1714 y traddodwyd y bregeth Gymraeg gyntaf y mae gennym gofnod ohoni²¹⁰ – ac fe ellir darllen yr hanes ar y cyd gyda thraethawd (di-drefn i ryfeddu) Bob Owen ar y mudo tragywydd rhwng Cymru a Llundain.²¹¹ Bu gwaith arbennig Emrys Jones²¹² ar hanes y Cymry yn Llundain – a'r

²⁰⁵ Cyril A. Bevan, 'London's Welsh Churches', in *Province*, III/1 (Easter 1952), tt. 1-5.

²⁰⁶ Derbyniwyd llythyrau a chafwyd sgysiaid gyda Michael Buck, Mrs Olwen Evans, y Parchg Ddr Aneurin Glyn, Tim Pryse-Hawkins a Lloyd Lloyd rhwng Ionawr 2013 a Medi 2014.

²⁰⁷ Emrys Jones (Ed.), *The Welsh in London 1500-2000* (Cardiff: University of Wales Press, 2001).

²⁰⁸ Rhidian Griffiths, 'Singing the Lord's Song in a Strange Land', yn Jones (ed.), *The Welsh in London*, tt. 161-183.

²⁰⁹ Jenkins and Ramage, *History of the Cymmrodorion*, tt. 1-15.

²¹⁰ George Lewis, *Pregeth a bregethwyd ar y dydd cyntaf o fis Mawrth yn y Flwyddyn 1714, Gan George Lewis, M.A.* (London: Edmund Powel, 1715).

²¹¹ Robert Owen, 'Ymfudiadau o Gymru i Lundain a hanes y bywyd Cymreig yn Llundain hyd at 1815', (Eisteddfod Genedlaethol Bae Colwyn, 1947), Bangor MSS 7343/4.

²¹² Emrys Jones, Emrys, 'The Welsh in London in the seventeenth and eighteenth centuries', yn *Welsh History Review*, 10/4 (1981), tt. 461-479; idem, 'The Welsh in London in the nineteenth century', yn *Cambria*, 12/1 (1985), tt. 149-169.

ardaloedd y bu iddynt ymgartrefu ynddynt – yn ffynhonnell neilltuol o gyfoethog. Y mae'n ychwanegu'n sylweddol at gyfrol denau John Williams²¹³ – un o'r awduron cyntaf i astudio niferoedd y Cymry yn Llundain a gwneud hynny yn ôl ystadegau swyddogol y Cyfrifiad.

I gloi'r adran hon dylem bwysleisio prif bwrpas a chyfraniad *City Mission* a'r ddwy erthygl yng nghyd-destun y cyhoeddiadau blaenorol. Adroddir stori capeli Llundain o'r dechreuadau yn gynnwys yn y ddeunawfed ganrif hyd ddegawd cyntaf y mileniwm newydd – yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys sylw penodol i bob capel ac enwad – am y tro cyntaf. Nid oes yr un gyfrol arall yn cynnig panorama cyffelyb nac ychwaith yn dyfnhau ein dealltwriaeth o'r agwedd hollbwysig hon o fywyd y Cymry yn Llundain. Mae'r gyfrol yn diweddarau'r gweithiau a gyhoeddwyd ddegawdau yn ôl, ac mae'r ddwy erthygl yn ychwanegu cryn dipyn at y corff o wybodaeth ynddynt.

²¹³ John Williams ('Cenadwr Cymreig'), *Cymry Llundain* (Caernarfon: John Davies, c. 1867).

6. CITY MISSION A'R ERTHYGLAU – BRASLUN A FFYNONELLAU

Cyfrol yw *City Mission* (CM) sy'n craffu ar wreiddiau, twf a thrai yr achosion crefyddol Cymraeg yn Llundain, a'u cyd-destun hanesyddol a chymdeithasol. Hanfod y gwaith – fel yn achos *Capeli Llanelli* – yw cyfuniad o ddiweddarau, addasu, a dadansoddi – yn ogystal â darparu gwybodaeth a dehongliadau newydd. Ni chyhoeddwyd yr un gwaith arall sy'n delio â'r maes yn ei holl ystod ac ehangder. Erthygl gyhoeddedig yw 'Codi trywydd: y bregeth Gymraeg yn Llundain cyn cyfnod Howel Harris' (CT) sy'n archwilio'r dystiolaeth am ddechreuadau pregethu yn yr iaith Gymraeg yn Llundain, gan ddatgelu ffeithiau newydd am ddarpariaeth gyson yn rhai o eglwysi Llundain yn hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif, tra'n egluro mor brin yw'r deunyddiau hanesyddol ac archifol sydd ar gael. Yr ail erthygl gyhoeddedig yw 'On the trail of Ginshop Jones: Welsh Nonconformists in Eighteenth-Century London' (OT) sy'n craffu ar hanes cynnar y cynullïadau Anghydfurfiol Cymraeg yn Llundain gan ddatgelu ffeithiau newydd am gyfraniad a dylanwad Edward 'Ginshop' Jones, sylfaenydd yr achos cyntaf y mae gennym gofnod diamwys ohono. Defnyddiwyd ystod eang o ffynonellau yn y broses o ymchwilio a llunio cynnwys y tri chyhoeddiad.

BRASLUN

Rhennir *City Mission* yn 16 pennod sy'n delio â 44 o achosion neu leoliadau lle bu addoli trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn ardaloedd Llundain.²¹⁴ Tasg gymhleth oedd ceisio trefnu'r

²¹⁴ Y mae ambell gyfeiriad at Luton a Slough yn *City Mission* ond barnwyd eu bod y tu hwnt i derfynau cyfrol sy'n canolbwyntio ar ardal ddaearyddol Llundain ('Greater London'), sef y parthau hynny ar y cyfan sydd â chôd post Llundeinig.

cynnwys mewn modd cyson a dealladwy. Ceisiwyd rhoi trefn yn ôl enwad, yn unol â phatrwm *Capeli Llanelli*, ond buan y sylweddolwyd bod gormod o orgyffwrdd rhwng y gwahanol garfanau yn y dyddiau cynnar – cyn i'r llwythau Anghydfurfiol ddod i fodolaeth – a bod cyffuniau Llundain yn eu lled a'u ehangder yn taflu her o fath gwahanol iawn i hanes Llanelli.

Y canlyniad oedd derbyn yr her trwy ddefnyddio daearyddiaeth Llundain fel map ffordd ar daith o gwmpas y ddinas. A chan fod map y Tiwb (London Underground) – un o brif symbolau dinas Llundain – yn gyfarwydd i filiynau lawer,²¹⁵ penderfynwyd defnyddio hwnnw fel canllaw hynod weladwy²¹⁶ er mwyn tywys y darlennydd o gwmpas y lleoliadau a'r ardaloedd dinesig hynny lle bu Cymry yn addoli ar hyd y canrifoedd.

O'r pwys mwyaf, o ystyried lled y cynfas, yw gosod cyd-destun. Pwrpas y bennod gyntaf,²¹⁷ 'Flow', yw cynnig nodyn personol o ran y cyswllt teuluol, sef un enghraifft fach o'r mudo mawr a fu o'r Gymru wledig i Lundain, gan ddatblygu trafodaeth am niferoedd cywir y Cymry yn Llundain, crynodeb o'r dystiolaeth o'u presenoldeb yn y ddinas ers y Canol Oesoedd, a'u gweithgaredd hynod amrywiol o ran gwaith a diwylliant.

Yn yr ail bennod. 'Beginnings',²¹⁸ ceir disgrifiad o ddechreuadau'r cynullïadau yn Lambeth a Smithfield, gan ganolbwyntio ar ymweliadau Howel Harris â Llundain, yn enwedig i'r 'Crown House' ger Palas Lambeth, a rhan Edward 'Ginshop' Jones yn y broses o gynnal yr achosion cynnar yn Cock Lane a Wilderness Row.

²¹⁵ Prynwyd trwydded fasnachol gan Transport for London i ddefnyddio'r map swyddogol.

²¹⁶ CM, 16-17.

²¹⁷ CM, 23-32.

²¹⁸ CM, 33-49.

Pennod ar union ddechreuadau a lleoliad Wilderness Row – a thranc gwaradwyddus Edward Jones yn sgîl ei helyntion personol yntau – yw ‘Out of the Wilderness’,²¹⁹ sy’n arwain yn naturiol i’r bennod ‘Journey to Jewin’,²²⁰ sef hanes datblygiad Jewin Crescent a Jewin Newydd, sef mam eglwys ddylanwadol y Methodistiaid Calфинаidd yn Llundain.

Yn ‘From Lambeth to Borough’,²²¹ creffir ar gymeriad ardal Lambeth, yn Ne Llundain, un o’r ardaloedd prin hynny yn y ddinas lle gellir dweud bod cymuned amlwg o Gymry wedi ymgartrefu, a phatrwm eu haddoliad trwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir golwg ar enedigaeth yr achos Annibynnol yn ardal hynafol Borough, a natur y cyswllt â chynulleidfa gyfagos Lambeth.

Pennod yw ‘Dockers’,²²² sy’n olrhain stori ryfeddol y Cymry hynny a fu’n gweithio yn y dociau brenhinol yn Deptford – gan gynnwys James Hughes (‘Iago Trichrug’) – a’u hymdrechion i adeiladu a chynnal achosion crefyddol yn ardaloedd garw Deptford a Woolwich. Arweiniodd hyn maes o law at sefydlu achos yn Lewisham yn Ne-Ddwyrain Llundain lle bu Cymry yn addoli hyd y flwyddyn 2011. Pery’r thema forwrol yn ‘Sermons for Sailors’,²²³ gan olrhain traddodiad y pregethu Cymraeg a fu ar longau a ddociwyd ar lannau’r Dafwys, cyn agor addoldy’r Cambrian Union Society Chapel for Seamen, a symud oddi yno i Crosby Row ac wedyn i gapel mawr Falmouth Road.

²¹⁹ CM, 50-62.

²²⁰ CM, 63-80.

²²¹ CM, 81-97.

²²² CM, 98-117.

²²³ CM, 118-142.

Daw cyfle i ail-gydio yn y perspectif teuluol yn ‘East Enders’,²²⁴ gan fanylu ar weithgaredd yr holl deuluoedd Cymraeg yn ardal ddosbarth gweithiol yr East End, gan gynnwys teulu Jenkin Edwards. Tyfodd yr achosion bychain yn Poplar a Stepney a bu’n rhaid symud i adeilad mwy cyfleus yn Mile End Road. Y twf diatal a fu’n gyfrwng hefyd i adeiladu capeli yn Walthamstow, Stratford a Leytonstone, er mai cymharol gwta fu bodolaeth y capel yn Stratford.

Neilltuir pennod gyfan i esbonio dechreuadau’r prif achos Annibynnol yn Llundain,²²⁵ sef Eglwys King’s Cross, a chyfraniad y Parchgn Rowland Williams (‘Hwfa Môn’) a H. Elvet Lewis (‘Elfed’) i’w lwyddiant nerthol, heb sôn am gefnogaeth (ymarferol ac ariannol) holl deuluoedd y diwydiant llaeth yn Llundain, diwydiant a fonopoleiddiwyd i bob pwrpas gan y Cymry â’u treftadaeth wledig.

Llaeth, hefyd, yw thema agoriadol ‘A dairy dispute?’²²⁶ ar wreiddiau Eglwys Charing Cross Road, capel Cymraeg mwyaf Llundain ar un adeg o ran rhif aelodau a maint y cynulleidfaoedd. Trafodir methiant yr eglwys i uno gyda Jewin ar adeg o argyfwng amlwg ym mywyd capeli’r ddinas.

Yr enwad lleiaf o ran nifer ei gapeli yn Llundain yw’r Bedyddwyr Cymraeg, ond fel yr esbonnir yn ‘Baptist Bastion’,²²⁷ fe berthyn capel Eastcastle Street i draddodiad cyhyrog iawn, ac fe atgyfnerthwyd y traddodiad hwnnw ar un adeg gan gefnogaeth gyson David Lloyd George a chan bresenoldeb rhai o bregethwyr mwyaf disglair eu dydd.

²²⁴ CM, 143-170.

²²⁵ CM, 171-193.

²²⁶ CM, 194-212.

²²⁷ CM, 213-233.

Taith orllewinol ar y Tiwb yw ‘Along the District Line’,²²⁸ sef taith sy’n tywys y darllenydd o Radnor Walk, Chelsea, i Walham Green, Fulham, ac yna i Hammersmith, i Ealing, ac yn olaf i Shirland Road, Paddington. Dyma bennod sy’n tanlinellu presenoldeb y Cymry yn yr ardaloedd gorllewinol ar gyrion Gorsaf Paddington a’i chysylltiadau amlwg gyda De a Gorllewin Cymru.

Llaethwyr o Gymru fu’n amlwg hefyd yn sefydlu achos Clapham Junction,²²⁹ yn ardal Battersea, yn Ne-Orllewin Llundain, lle bu teulu Lloyd George hefyd yn addoli, ac ar awgrym Margaret Lloyd George yr agorwyd capel arall yn Sutton, ar gyrion deheuol Llundain.

Pennod yw ‘Northern Panorama’²³⁰ – yn unol â’r disgrifiad – sy’n olrhain yr holl achosion hynny a ymwreiddiodd yn ardaloedd eang Gogledd Llundain, gan gynnwys Wilton Square, Barrett’s Grove, Holloway, Wood Green, Willdesen Green, Wembley a Harrow.

Ymgais yw ‘Wesley’s Ways’²³¹ i ddisgrifio hynt anwadal achosion Wesleiaidd Cymraeg Llundain, a’r llanast ariannol a grewyd gan y Parchg John Evans, Eglwysbach, a’i gynllun anesboniadwy i adeiladu Eglwys City Road, daflriad carreg o fam eglwys yr enwad byd-eang, sef Wesley’s Chapel.

²²⁸ CM, 234-259.

²²⁹ CM, 260-275.

²³⁰ CM, 276-306.

²³¹ CM, 307-322.

Stori dra anghyfarwydd yw honno yn y bennod olaf, ‘Anglican Enclaves’,²³² sef hanes y bum eglwys Anglicanaidd a ddarparai addoliad trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.²³³ Ni chyhoeddwyd eu hanes cyflawn erioed o’r blaen ac y mae’r dystiolaeth ddogfennol yn eu cylch hyd yn oed yn fwy prin na’r deunydd sydd ar gael am y capeli Anghyddfurfiol. Bu gwrthdaro cyson rhwng Eglwys Loegr a’r Eglwys yng Nghymru ynghylch statws cyfreithiol yr eglwysi hyn, ac fe’u disgrifiwyd gan un arbenigwr fel ‘hybrid churches, of no certain legal status.’²³⁴ Y canlyniad oedd bod neb wedi ysgwyddo baich y cyfrifoldeb o ddiogelu dogfennau pwysig am hanes yr achosion. Dim ond St Benet – sef yr eglwys a ‘fenthycwyd’ i Gymry Llundain gan y Frenhines Victoria ym 1879, er mawr seithuctod esgobion Llundain – sy’n dal ar agor.

Pennod fer yw ‘Reflections’,²³⁵ sy’n herio Cymry Llundain i ystyried y ffordd orau i gynnal y traddodiad o addoli trwy gyfrwng y Gymraeg i’r dyfodol. Darperir rhestr o’r prif achosion crefyddol fesul enwad yn ‘List of Principal Welsh Religious Causes in London’,²³⁶ a rhoddir rhestr gynhwysfawr o ffynonellau yn y ‘Llyfryddiaeth’²³⁷ ac fe ddarperir ‘Mynegai’²³⁸ llawn yng nghefn y gyfrol.

Prif bwrpas yr erthygl ‘Codi trywydd: y bregeth Gymraeg yn Llundain cyn cyfnod Howel Harris’ yw rhidyllu’r dystiolaeth am unrhyw bregethu yn yr iaith Gymraeg yn Llundain cyn pregeth George Lewis ar Ddydd Gŵyl Dewi ym 1714. Edrychir ar amrywiaeth y pregethu

²³² CM, 323-342.

²³³ Cyril A. Bevan, ‘London’s Welsh Churches’, in *Province*, III/1 (Easter 1952), tt. 1-5.

²³⁴ Llythyr ym Medi 2014 gan Michael Buck, cyfreithiwr a fu’n un o ymddiriedolwyr Eglwys Dewi Sant, Paddington.

²³⁵ CM, 343-344.

²³⁶ CM, 345-346.

²³⁷ CM, 347-354.

²³⁸ CM, 355-368.

blynyddol a fu wedi hynny, ac fe ddatgelir ffeithiau newydd am ddarpariaeth wythnosol yn rhai o eglwysi Llundain o 1720 ymlaen.

Prif bwrpas yr erthygl ‘On the trail of Ginshop Jones: Welsh Nonconformists in Eighteenth-Century London’ yw craffu ar wreiddiau a lleoliadau y cynullïadau Cymraeg yn Lambeth a Cock Lane, Smithfield, a’r cysylltiadau rhyngddynt, cywiro rhai o’r dyddiadau canolog, a datgelu ffeithiau newydd am fywyd ac amgylchiadau Edward ‘Ginshop’ Jones, y ddolen gyswllt anhepgor rhwng y carfanau yn Lambeth a Smithfield.

FFYNONELLAU

Treuliais bum mlynedd a mwy yn ymchwilio yng Nghymru a Lloegr i hanes capeli Llundain, gan ddefnyddio ystod eang o ffynonellau cenedlaethol, dinesig, rhanbarthol a lleol.

Atgyfnerthwyd y gwaith ymchwil trwy gynnal sgysrsiau rhwng Medi 2011 ac Awst 2014 gyda nifer o bobl²³⁹ oedd â phrofiad personol o faes y capeli a’r eglwysi Cymraeg yn Llundain.

Darparodd nifer ohonynt – Eirlys Bebb, Iola Bilson, Rita Clark, y Parchg Ieuan Davies, Tom a Myra Davies, Myra Dawson, y Parchg D. Gwylfa Evans, Gwyn Evans, Margaret Felix,

²³⁹ Eirlys Bebb (Mile End, Holloway, Cockfosters), Michael Buck (Dewi Sant, St Padarn, St Rhystyd, St Mair), Iola Bilson (Willesden a Shirland Road), y Parchg Richard Brunt (Jewin), Rita Clark (King’s Cross, Willesden), Lowri Williams (Clapham Junction, Walham Green, Sutton), y Parchg Ieuan Davies (King’s Cross), Tom a Myra Davies (Wembley, Harrow), Myra Dawson (Jewin), Huw Edwards (Borough), Gwen Evans (Wood Green, Cockfosters), Gareth Ellis (Wood Green, Cockfosters), y Parchg D. Gwylfa Evans (King’s Cross, Radnor Walk, Borough, Harrow), Gwyn Evans (Charing Cross Road, Clapham Junction), Margaret Felix (Clapham Junction), y Parchg Ddr Aneirin Glyn (St Benet), Eiri Jones (Borough), Graham Griffiths (Ealing a Hammersmith), Siôn Griffiths (Dewi Sant, St Benet, St Padarn, St Rhystyd), Lloyd Lloyd (St Benet, Dewi Sant), Audrey Morgan (Willesden, Shirland Road), Bethan Morgan (Willesden), Glyn Morgan (Clapham Junction, Battersea Rise), Tom Morgan (Willesden), Llinos Morris (Jewin), Y Parchg Dafydd H. Owen (Jewin, Cockfosters, Chiltern Street), Glenys Pashley (Walham Green), Gwynne Pickering (Charing Cross Road, Jewin), Tony Platt (Walthamstow, Leytonstone, Jewin), Geraint Pritchard (Jewin), Ivor Rees (Jewin), John Samuel (Castle Street, Woolwich), Hywel ac Elinor Thomas (Clapham Junction a Sutton), Catrin Unwin (Falmouth Road), Gwen Wildman (Sutton), Parchg Anthony Williams (Walham Green, Clapham Junction, Sutton), Bowen Williams (Wood Green, Cockfosters), David Williams (Falmouth Road).

Audrey Morgan, Bethan Morgan, Glyn Morgan, Tom Morgan, Y Parchg Dafydd H. Owen, Glenys Pashley, Gwynne Pickering, Tony Platt, Geraint Pritchard, Catrin Unwin, y Parchg Anthony Williams, a David Williams – eu sylwadau yn unswydd ar gyfer y gyfrol. Dylid nodi unwaith eto fy mod wedi gofyn yn ffurfiol i bob un – ar lafar, trwy lythyr neu ebost – am ganiatâd i ddefnyddio eu cyfraniadau yn y gyfrol a'r gwaith ymchwil.

Bu'r archifau cenedlaethol – sef Llyfrgell Genedlaethol Cymru, y British Library a'r National Archives – o'r pwys mwyaf yn y broses. Yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru y cedwir casgliad o ddogfennau a delweddau sy'n ymwneud â'r mwyafrif o gapeli Llundain – gyda rhai eithriadau pwysig²⁴⁰ – ac yno, hefyd, y cedwir casgliad swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ynghyd â dyddiaduron Howel Harris. Bu'r casgliad o bapurau newydd enwadol,²⁴¹ cylchgronau a chyfnodolion yn drysor anhepgor yn y broses o dwrio am wybodaeth newydd neu wirio'r naratif traddodiadol. Dim ond wrth astudio'r papurau newydd y llwyddwyd i ganfod manylion pwysig am hanes nifer o'r capeli. Bu adroddiadau blynyddol a chofrestri'r capeli unigol yn ffynhonnell anhepgor, er bod bylchau sylweddol yn y casgliadau yn enwedig yng nghyd-destun y capeli llai amlwg neu ddarfodedig. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddelweddau ffotograffig o gasgliad y Llyfrgell Genedlaethol yn *City Mission*.

Yn y Llyfrgell Brydeinig y cafwyd hyd i beth gwybodaeth am weithgaredd John Evans a George Lewis ar ran yr East India Company cyn eu dychweliad i Lundain, ac am eu gyrfa

²⁴⁰ Cedwir rhai o ddogfennau a chyhoeddiadau swyddogol Eglwys Charing Cross Road yn Westminster City Archives.

²⁴¹ Y mae'r gweisg enwadol yn darparu ystod eang o ddeunydd pwysig, sef cyfuniad o bapurau newydd – *Y Goleuad*, *Greal y Bedyddwyr*, *Seren Cymru*, *Seren Gomer* a'r *Tyst* – a chyhoeddiadau neu gyfnodolion – *Y Bedyddiwr*, *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, *Bathafarn*, *Y Bedyddiwr*, *Y Cofiadur*, *Y Drysorfa*, *Y Diwygiwr*, *Y Dysgedydd*, *Yr Efenglydd*, *Y Geninen*, a'r *Traethodydd* – sy'n delio â phynciau megis hanes enwadol a threfniant eglwysig, bywgraffiadau pwysig, yn ogystal â thrafod syniadau diwynddol ac athronyddol.

eglwysig wedi hynny yn yr Iwerddon. Ac yn y National Archives yn Kew y canfuwyd tystiolaeth – am y tro cyntaf – am yrfa Edward Jones yn yr Horse Guards, a manylion am ei iechyd a'i bensiwn milwrol.

Defnyddiwyd y prif gyfrolau safonol ar yr hanesion enwadol, a phwyswyd ar y llyfrynnau a'r pamffledi a gyhoeddwyd gan gapeli unigol ar eu hanes.

Y ffynhonnell fwyaf gwerthfawr, o bosib, oedd archif ddinesig y London Metropolitan Archives, gan mai yno y cedwir dogfennau yn ymwneud â gweithgaredd grefyddol y ddeunawfed ganrif yn Llundain, gan gynnwys deisebau, tystysgrifau, mapiau a manylion am berchnogaeth tir, ynghyd â thrwch y cofrestri plwyfol a threth y toldion yn Ninas Llundain. Yno y cafwyd hyd i'r ddeiseb hollbwysig a ddanfonwyd gan Edward Jones a'i gyfeillion ym 1788 at Esgob Llundain yn gofyn am ganiatâd i ddefnyddio capel Wilderness Row fel man addoli Anghydfurfiol. Yno yn ogystal y cafwyd hyd – am y tro cyntaf – i fapiau sy'n dangos union leoliad y capel hwnnw. O'r pwys mwyaf, yn yr archif hon y cedwir dogfennau'r Sun Fire Office o'r ddeunawfed ganrif, ac yma y canfuwyd gwybodaeth am fusnes ac eiddo sylweddol Edward Jones, a'i fudd personol yn adeiladau capel Wilderness Row. Bu casgliad lluniau a darluniau'r London Metropolitan Archives – ac English Heritage – yn ddefnyddiol iawn yn y broses o lunio *City Mission*, gan ychwanegu at y ffotograffau a dynnwyd gen i dros ddegawd a mwy. Darparwyd rhai delweddau gan aelodau'r capeli eu hunain ac fe gafwyd eu caniatâd i'w defnyddio.²⁴² Gwnaed apeliadau am ddeunydd yn y wasg enwadol a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol arlein, ac fe arweiniodd hynny at dderbyn eitemau ychwangeol gan sawl cyn-aelod a symudodd yn ôl i Gymru yn dilyn cyfnodau byr a maith yn Llundain.

²⁴² Rita Clark, Mary Evans, Llinos Morris, Tim Pryse-Hawkins, Catrin Unwin.

Gwnaed copïau digidol o'r deunydd cyn ei ddychwelyd at y perchnogion neu – gyda'u caniatâd penodol – fe ddanfonwyd y cynnwys i Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Daethpwyd o hyd i stôr sylweddol o ddogfennau a lluniau yn ysgoldy Lewisham cyn i'r capel gau yn 2011, ac fe ddiogelwyd y cyfan trwy wneud copïau digidol ohonynt cyn danfon y cynnwys gwreiddiol i'r Llyfrgell Genedlaethol.

Bu archifau'r Charterhouse a'r Goldsmiths' Company hefyd yn bwysig o ran ceisio setlo ffeithiau am berchnogaeth y tir yr adeiladwyd Wilderness Row arno.

Bu Lambeth Palace Library yn ddefnyddiol o ran darparu gwybodaeth am nifer y Cymry ym mhlwyfi Llundain (tystiolaeth fregus yn ôl cyfenwau) ac am glerigwyr Cymraeg yn Llundain, er mai prin iawn oedd y wybodaeth yno am eglwysi unigol a natur y gwasanaethau a ddarparwyd ganddynt.

Bu Lambeth Archives (archif yr awdurdod lleol yn Ne Llundain) yn llawer mwy gwerthfawr fel ffynhonnell, gan mai yno y cedwir gwybodaeth am drethi lleol, perchnogaeth adeiladau a thir, a chasgliad o hen luniau o ardaloedd glannau'r Dafwys lle bu haid o Gymry yn byw ac yn gweithio ac yn mynychu ffeiriau ar y Sul. Bu Lambeth ar un adeg yn perthyn i Swydd Surrey, ac fe gafwyd hyd i wybodaeth am hen gartrefi'r ardal yn y Surrey History Centre. Darparodd y Camden Archives Centre wybodaeth am holl eiddo Edward Jones yn Eyre Street, a bu'n bosib croeswiro hyn gyda'r wybodaeth yn ffeiliau'r Sun Fire Office.

O ran gweithgaredd Ymneilltuwyr yn Llundain, bu Dr Williams's Library a Wesley's Chapel and Leysian Centre Library o gymorth mawr, yn enwedig o ran hanes helbulus y Wesleaid Cymraeg yn City Road.

Rhaid nodi pwysigrwydd yr holl adnoddau digidol sy'n cynnig mantais rhyfeddol a chynyddol i ymchwilwyr cyfoes, gan rhoi'r gallu i bori yn storffeydd data'r llyfrgelloedd mawr, yn enwedig yng nghasgliadau papurau newydd a chylchgronau. Fel hyn y daethpwyd o hyd i wybodaeth newydd a dadlennol, gan gynnwys dyddiadau pwysig. Bu'n bosib ar sail adroddiadau neu hysbysebion yn y wasg i newid ffeithiau canolog am wreiddiau'r achosion cynnar yn Smithfield, Lambeth a Wilderness Row, ac ychwanegu at hanes rhai o'r capeli a'r eglwysi unigol. Yn yr un modd, archwiliwyd cofrestrau clerigol prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt er mwyn gweld enwau'r clerigwyr Cymraeg hynny a wasanaethodd yn esgobaeth Llundain. Gwnaed yr un peth â storfa ddata Eglwys Loegr o enwau clerigwyr²⁴³ rhwng 1540 a 1845.

Dyma, felly, yw'r cyfuniad cynhwysfawr o ddeunydd a roes asgwrn cefn i'r gyfrol *City Mission* a'r ddwy erthygl gyhoeddedig: dogfennau a delweddau niferus o rai o brif lyfrgelloedd ac archifau Prydain Fawr, ynghyd â chyhoeddiadau amrywiol, gwybodaeth leol, a thystiolaeth bersonol.

²⁴³ *The Church of England Clergy Database*, ar gael: <http://theclergydatabase.org.uk/> (Cyrchwyd: dyddiadau amrywiol rhwng 2012 a 2016).

7. CITY MISSION A'R ERTHYGLAU – CYFRANIAD

Trafodir yn yr adran hon natur cyfraniad *City Mission* ynghyd â'r ddwy erthygl gyhoeddedig 'Codi trywydd: y bregeth Gymraeg yn Llundain cyn cyfnod Howel Harris' a 'On the trail of Ginshop Jones: Welsh Nonconformists in Eighteenth-Century London' i gorff gwybodaeth a dysg yn y maes dan sylw yn unol â'r canllawiau a nodwyd – sef cynnig naratif mor gyflawn â phosib wedi ei addasu a'i gymodi er mwyn adlewyrchu ffeithiau newydd – a chynnig dehongliad newydd yn ôl y galw.

Unwaith eto, y bwriad yw tynnu sylw yn gyntaf dim at yr elfennau mwyaf arwyddocaol sy'n amlygu cyfanrwydd, diweddariad neu newydd-deb y naratif, ac yn ail at unrhyw ddeongliadau gwahanol a orfodwyd arnom gan ffeithiau newydd.

Y bwriad yw cychwyn gyda chyfrol *City Mission* a'i phenodau ar bregethu yn yr iaith Gymraeg yn Llundain, ac ar y capeli a'r eglwysi penodol – y mae'r penodau cynnar yn enwedig yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth newydd – cyn esbonio sut y bu i'r ddwy erthygl ychwanegu at y wybodaeth yn y gyfrol a dyfnhau ein dealltwriaeth o wreiddiau a thwf yr achosion Anghydfurfiol Cymraeg yn Llundain, stori'r eglwysi Anglicanaidd Cymraeg, ac yn wir ein dealltwriaeth ehangach o fywyd y Cymry Cymraeg yn Llundain.

Defnyddir y geiriau 'capel' ac 'eglwys' drwodd a thro yn y gyfrol a'r erthyglau i gyfeirio at gynulleidfa neu achos lleol. Nid mater o hapddewis neu ddefnydd diwahân mohono o gwbl, ac felly o ran rhagymadrodd cryno i'r adran hon, buddiol fyddai pennu'r terfynau ieithyddol yn y cyswllt arbennig hwn. Fe bery dilysrwydd a pherthnasedd y gwahaniaeth mwyaf

sylyfaenol a chyfarwydd – yn enwedig yn y cyd-destun Cymreig – sef defnyddio'r gair 'capel' i ddynodi cynulleidfa sefydledig Ymneilltuol neu Anghydfurfiol, a'r gair 'eglwys' i ddynodi cynulleidfa sefydledig Anglicanaidd neu esgobol.

Er hynny, nid anghyson yw'r defnydd o 'eglwys' i ddynodi achos sefydledig Anghydfurfiol os derbynnir diffiniadau fel un Karl Barth mai 'a fellowship of spirit and faith' yw eglwys Gristionogol, 'a fellowship of the sacrament', ac mai dyma yw natur 'the church of which we speak and to which the Word of God is addressed', gan rybuddio pan sonnir am y syniad o eglwys na ellir 'afford to lapse into ecclesiastical essentialism.'²⁴⁴ Gellir dadlau bod y perspectif lleol – hyd yn oed yng nghyd-destun dinas fawr fel Llundain – yn dueddol o gryfhau'r syniad o eglwys fel sefydliad sydd yn efengylu ymhlith cymuned arbennig – sef Cymry Cymraeg yn yr achos hwn – mewn cymdogaeth ddiffiniedig. Pwysig yw nodi nad y Cymry, hyd y gwyddys, oedd y cyntaf yn Llundain i godi eglwysi (neu gapeli) i wasanaethu cymuned arbennig yn ôl y galw mewn ardaloedd penodol. Sefydlwyd y 'Stranger Church' gyntaf oll gan Eidalwyr Protestannaidd ym 1547.²⁴⁵

Awgrymwyd droeon mai rhwydwaith eang o bentrefi niferus yw Llundain, a gwir hynny i raddau o ystyried nodweddion ardaloedd 'pentrefol' fel Hampstead, Islington, Lambeth, Clapham, Battersea, Victoria, Clerkenwell a Paddington lle bu – ac y mae – cynifer o Gymry yn byw. Gellir dadlau ar sail yr ymchwil yn *City Mission* a'r ddwy erthygl bod y perspectif a'r profiad 'lleol' hwn – 'the microhistory of religion'²⁴⁶ yn ôl un dehongliad – lawn cyn bwysiced â'r perspectif ehangach, cyffredinol. Un o'r anfanteision arferol o ganolbwyntio ar

²⁴⁴ Jinkins, *The Church Faces Death*, tt. 72-73.

²⁴⁵ Andrew Pettegree, *Foreign Protestant communities in sixteenth-century London* (Oxford: OUP, 1986), tt. 135-137.

²⁴⁶ Bebbington, 'Victorian Religious Revivals', t. 43.

y lleol yw diffyg tystiolaeth ddogfennol, ond gellir haeru er hynny bod digon o dystiolaeth wedi dod i law yng nghyswllt capeli Llundain – a Llanelli, yn flaenorol – trwy ystyried ‘more than one locality for investigation’ er mwyn osgoi unrhyw ganlyniad camarweiniol (‘the local may eclipse the universal’)²⁴⁷ ar sail digwyddiadau lleol. Mewn gwirionedd gellir dadlau mai hanesion penodol yr achosion unigol yn eu priod leoliadau yw’r defnyddiau crai sy’n rhoi darlun manwl gywir o weithgaredd ymarferol o fewn terfynau’r hanes ehangach.

‘Flow’ yw pennod agoriadol *City Mission*, ac ynddi ceir cyfuniad o’r elfen bersonol – mae hanes Daniel a Jenkin Edwards²⁴⁸ yn pwysleisio bod cyswllt y teulu â Llundain wedi cychwyn dros ganrif yn ôl – yr hanesyddol, sef crynodeb byr o gyswllt y Cymry â dinas Llundain o’r Canol Oesoedd ymlaen – a’r ystadegol, sef cyfeiriadau at nifer y Cymry yn Llundain, a’r ffaith eu bod fel canran o boblogaeth y ddinas wedi disgyn i 0.7% erbyn Cyfrifiad 2011.²⁴⁹ Ond fe bwysleisir cryfder y dylifiad dynol o Gymru i Lundain ar hyd y canrifoedd, a chyfraniad mawr y Cymry yn Llundain i fywyd diwylliannol Cymru.²⁵⁰

Y mae’r bennod ‘Beginnings’ yn un o’r pwysicaf yn y gyfrol gan ei bod cynnwys sawl cam newydd ymlaen o ran yr hanes traddodiadol, ac fe ychwanegir manylion eraill ati maes o law yn ‘Codi trywydd: y bregeth Gymraeg yn Llundain cyn cyfnod Howel Harris’ ac yn ‘On the trail of Ginshop Jones: Welsh Nonconformists in Eighteenth-Century London’.

²⁴⁷ Ibid., t. 44.

²⁴⁸ CM, 23-24.

²⁴⁹ CM, 26.

²⁵⁰ CM, 29-32.

Yn gyntaf peth, teflir goleuni newydd yn ‘Beginnings’ ar ymweliadau Howel Harris ag ardal Lambeth o 1739 ymlaen.²⁵¹ Bu lleoliad y ‘Crown House’ – lle cynhelid rhai o’r cyfarfodydd cynnar ymhlith y Cymry yn Lambeth – yn destun penbleth i’r croniclwyr traddodiadol²⁵² ond wrth fynd â chrib fân trwy’r archifau a’r wasg Lundeinig²⁵³ a thrwy astudio hanes Martin Van Butchell²⁵⁴ – gŵr a drigai yn y ‘Crown House’ – a datgelu ei gyswllt ef ag Ymneilltuwyr yr ardal, gellir haeru yn weddol ffyddiog mai yn ei gartref yntau, yn agos i leoliad cyfoes yr Imperial War Museum, y cyfarfu Harris â Chymry’r cylch.

Yn ail, datgelir bod dyddiad sefydlu Eglwys Jewin – ‘tua 1774’ yn ôl rhai,²⁵⁵ ‘1774’ pendant yn ôl eraill (‘yn y flwyddyn 1774 efe a gymerodd ystafell yn Cock Lane, Smithfield’)²⁵⁶ – yn agosach at 1772 os nad ynghynt,²⁵⁷ diolch i adroddiad yn y wasg nas nodwyd o’r blaen.²⁵⁸

Datgelir yn ogystal yn yr un eitem – am y tro cyntaf – union leoliad y man addoli yn Cock Lane, Smithfield, sef yn y ‘Great Room over the Earthenware Shop’ – ni soniwyd am hyn erioed o’r blaen – a datguddir bod Cock Lane eisoes yn gyrchfan i addolwyr Ymneilltuol ers 1766.²⁵⁹

Yn drydydd, awgrymir bod angen addasu’r naratif traddodiadol am ddyddiad meddiannu ac union leoliad capel Wilderness Row. Argreffir rhai o’r mapiau cynharaf o’r ardal²⁶⁰ sy’n

²⁵¹ CM, 34-6.

²⁵² Thickens, *Howel Harris yn Llundain*, t. 257; Roberts, *Y Ddinas Gadarn*, t. 13; Owen, *Tros y Bont*, tt. 13-14.

²⁵³ *London Evening Post* (16 March 1736-18 March 18 1736), t. 2; *London Evening Post* (20 March 1736-23 March 1736), t. 2.

²⁵⁴ Edward Walford, *Old and New London: Volume 6* (London: Cassell, 1878), tt. 407-425; *The British Medical Journal*, Vol 2 (3800) 4 Nov 1933, tt. 851-852.

²⁵⁵ Hughes, *Methodistiaeth Cymru Cyfrol III*, t. 435.

²⁵⁶ T. Hamer Jones, ‘Penodau yn Hanes Methodistiaeth yn Llundain’ yn *The London Welshman* (25 Chwefror 1905), t. 4.

²⁵⁷ CM, 39-40.

²⁵⁸ *Daily Advertiser*, 15 January 1773, t. 2

²⁵⁹ *The Gazetteer and New Daily Advertiser*, 8 February 1766, t. 2.

²⁶⁰ CM, 42.

dangos bod lleoliad y capel yn wahanol – er yn agos iawn – i leoliad yr hen Pardon Church. Awgrym John Thickers ac eraill²⁶¹ yw bod y Cymry wedi adeiladu capel yn Wilderness Row, ond o ddarganfod deiseb²⁶² gan Edward Jones ac eraill i Esgob Llundain – dogfen nas cyhoeddwyd o’r blaen – gellir dyfalu mai meddiannu capel parod a wnaeth y Cymry, nid adeiladu un newydd, a bod hynny wedi digwydd ym 1788 yn hytrach na 1785. Y mae i ddeiseb 1788 arwyddocâd rhagorach: dyma’r dystiolaeth ddogfennol gyntaf o sefydlu achos ffurfiol (‘a Meeting Place of a certain congregation of Protestant Dissenters from the Church of England’)²⁶³ ymhlith y Cymry yn Llundain, er nad oes sôn am Gymry na Chymreictod yn y ddeiseb honno.

Yn bedwerydd, cadarnheir am y tro cyntaf bod cyswllt byw rhwng yr achosion yn Lambeth a Cock Lane. Barnai John Thickers²⁶⁴ mai ‘marworyn’ o dân crefyddol Howel Harris yn Lambeth a arweiniodd at ddechrau’r achos yn Cock Lane, ond darganfuwyd bellach o ddwy ffynhonnell²⁶⁵ bod cyfarfodydd Lambeth a Cock Lane yn cydreddeg, a bod elfen o barhad a dilyniant nas nodwyd o’r blaen. Y mae’r darganfyddiad hwn yn llenwi bwloch amlwg yn y naratif traddodiadol.

Prif bwrpas penodau ‘Out of the Wilderness’ a ‘Journey to Jewin’ yw adrodd stori achos Jewin yn ei wahanol ymgorfforiadau o gyfnod Wilderness Row hyd y flwyddyn 2014. Y

²⁶¹ John Thickers, ‘Wilderness Row, Llundain’ yn *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, XXIV, 4 (1939), t. 130; Roberts, *Y Ddinas Gadarn*, t. 19.

²⁶² CM, 43; LMA.

²⁶³ London, London Metropolitan Archives, DL/C/1377/033, Registration of Independent Meeting Place on Wilderness Row in the Parish of Saint James, Clerkenwell, 1788.

²⁶⁴ Thickers, ‘Wilderness Row, Llundain’, t. 125.

²⁶⁵ Cambridge, Westminster College, Cheshunt College Archive, MSS. 0199, F1-99, 2-3; *The Gazeteer and New Daily Advertiser*, 8 February 1766, t. 2.

mae'r ddwy bennod yn cynnwys gwybodaeth newydd a sylwebaeth ar gymeriad yr achos yn Jewin sy'n ychwanegu at waith sylweddol John Thickens²⁶⁶ a Gomer Roberts.²⁶⁷

Darperir manylion newydd am dranc Edward Jones a'r achos llys yn 1801²⁶⁸ – sef ei fod yn 60 oed yn 1801, mai ym 1799 yr addawodd briodi'r ferch ifanc, mai yng ngwanwyn 1800 y teithiodd i Ogledd Cymru a phriodi'r weddw ariannog – yn seiliedig ar adroddiadau'r wasg.

²⁶⁹ Argreffir delwedd wreiddiol gan bensaer o 1822 o adeilad cyntaf Jewin Crescent – delwedd nas cyhoeddwyd o'r blaen – o archif y Goldsmiths' Company.²⁷⁰ Yn yr un modd, argreffir delwedd wreiddiol o gynllun y pensaer o Jewin Newydd,²⁷¹ delwedd o lyfr cyfraniadau Cronfa Adeiladu Jewin Newydd yn cynnwys llofnod y cyfrannwr cyntaf, sef David Davies, Llandinam, y barwn glo a'r gwleidydd, delwedd brin iawn o'r tu mewn i Jewin Newydd,²⁷² a delwedd nas cyhoeddwyd o'r blaen o'r Parchg J. E. Davies ('Rhuddwawr') a'i flaenoriaid ym 1912.²⁷³

Er mai haid o weithwyr cyffredin – a'r mwyafrif ohonynt yn llaethwyr²⁷⁴ – oedd trwch cynulleidfa Jewin yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, datblygodd yn yr ugeinfed i fod yn gapel ac enw cymharol ddrwg iddo o ran cyfleu agweddau snobyddlyd.²⁷⁵ Cynhwysir tystiolaeth bersonol gan Siân Busby a Myra Dawson i'r perwyl hwn, yn enwedig o ran agweddau at yr iaith Gymraeg, a'r ddwy garfan ieithyddol yn Jewin.

²⁶⁶ John Thickens, 'Y Fam Eglwys' yn *Eglwys Jewin: Hanes ac Atgof* (Llundain: Eglwys Jewin, 1929), tt. 9-34.

²⁶⁷ Gomer Roberts, *Y Ddinas Gadarn* (Llundain: Eglwys Jewin, 1974), tt. 11-53.

²⁶⁸ CM, 54.

²⁶⁹ 'Protheroe v Jones' in *Bury and Norwich Post* (4 February 1801), t. 20.

²⁷⁰ CM, 56.

²⁷¹ CM, 64.

²⁷² CM, 66.

²⁷³ CM, 68.

²⁷⁴ Thickens, 'Y Fam Eglwys', tt. 14-15.

²⁷⁵ CM, 65-7.

Ceir tystiolaeth bersonol yn ogystal gan Geraint Pritchard am gymeriad a nodweddion ei dad-cu, y Parchg D. S. Owen,²⁷⁶ gweinidog Jewin o 1915 tan 1959, cyfnod maith a welodd y llanw mawr o ran rhif aelodaeth, sef 1,148 yn y flwyddyn 1938-39 ar drothwy'r Ail Ryfel Byd. Tanlinellir hyn gan lythyr o eiddo Syr Wynn Wheldon y trawyd arno yn y *Times*²⁷⁷ sy'n datgan mai Jewin oedd 'the strongest Christian church within the City boundaries'. Cyhoeddir delweddau prin o gyfarfod plant Jewin²⁷⁸ a gwasanaeth priodas yn adfeilion Jewin²⁷⁹ ym 1943. Cynhwysir atgofion personol gan Bill Jenkins a Lodwick Davies o'r difrod a wnaed i adeilad Jewin yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ac fe gywirwyd y dyddiad a welir yn y cofnodion swyddogol.²⁸⁰

Datgelir bod Eglwys Charing Cross Road wedi cyflwyno cynyllun i uno'r achosion ym 1959 – cyn codi'r adeilad newydd yn Fann Street ym 1961 – ac fe awgrymir mai camgymeriad difrifol oedd methiant arweinwyr y ddau gapel i gymodi. Darperir atgofion personol o agoriad yr adeilad newydd gan Myra Dawson,²⁸¹ yn ogystal ag ychydig o flas yr holl gystadlu brwd a welid yn eisteddfod y capeli yn y 1960au, ac fe nodir bod bywyd capeli Llundain yn dal i fyrlymu mewn cyfnod o drai yn Ne Cymru. Serch hynny, nodir bod amgylchiadau ariannol Jewin yn gwanhau – diolch i orwario cyson a derbyniadau annigonol²⁸² – ac mai dyna fu'r hanes o hynny ymlaen. Nodir mai methiant i gydweithio, unwaith eto, fu hanes Jewin a Castle Street ym mlynnyddoedd cynnar yr unfed ganrif ar hugain, a bod y rhagolygon cyfoes yn dal yn fygythiol o'r herwydd.

²⁷⁶ CM, 70, 75.

²⁷⁷ CM 70; 'A Welsh Chapel', *The Times* (14 September 1940), t. 9.

²⁷⁸ CM, 72-3.

²⁷⁹ CM, 74.

²⁸⁰ 9 Medi 1940 nid 10 Medi 1940; CM, 50-2.

²⁸¹ CM, 78-9.

²⁸² CM, 79.

Pennod yw 'From Lambeth to Borough' sy'n dadlennu gwybodaeth newydd am fywyd ac amgylchiadau'r Cymry yn ardal Lambeth. Un o haeriadau Emrys Jones²⁸³ oedd bod y Cymry – yn wahanol i'r Gwyddelod neu'r Iddewon – yn dueddol o beidio ffurfio cymunedau yn ardaloedd arbennig o Lundain. Ond mae'r dystiolaeth a ddaeth i law o ardal hynafol Lambeth yn tueddu i danseilio'r haerriad hwnnw.

Nodwyd sylw un gohebydd y bu Lambeth am flynyddoedd lawer 'a place of public resort by Welsh people on the Sabbath day' a'u bod yn cefnu ar addoliad yn rhinwedd 'their not understanding the language in which public worship is performed in this country.'²⁸⁴ Y mae hyn yn cyd-fynd â sylwadau'r hanesydd Thomas Allen²⁸⁵ bod Cymry yn dueddol o ymgynnull yn ffair 'Taffy's Fair' ger Palas Lambeth ar Ddydd Gŵyl Dewi, ac fe geir gan John Hughes ac eraill²⁸⁶ gyfeiriadau at Howel Harris a'i debyg yn mynd yno i geisio rhoi trefn ar eu cyd-wladwyr.

Ond yn Archifau Lambeth y cafwyd hyd am y tro cyntaf i gyfeiriad gwerthfawr gan yr hanesydd lleol Charles Woolley am 'Welsh colony' yn Swan Yard,²⁸⁷ sef hen ale gul gyferbyn â Phalas Lambeth, ac fe gyhoeddwyd llun prin o'r ale yn *City Mission*²⁸⁸ am y tro cyntaf. Y mae'n amlwg mai mangre o dlodi mawr oedd hon. Ger y fan hon y llogwyd 'a large room' gan y Cymry ym 1791 'to pray and read the Word of God in their own language,'²⁸⁹ ac

²⁸³ Emrys Jones, 'The Welsh in London in the seventeenth and eighteenth centuries', *Welsh History Review*, 10/4 (1981), tt. 464-470.

²⁸⁴ 'Welch Congregation, Lambeth', *The Evangelical Magazine* (1801), t. 373.

²⁸⁵ Thomas Allen, *The history and antiquities of the parish of Lambeth* (London: J. Allen, 1826), t. 342.

²⁸⁶ Hughes, *Methodistiaeth Cymru* III, t. 435

²⁸⁷ CM, 82-4; Lambeth Archives, Charles Woolley Papers, IV/88/4.

²⁸⁸ CM, 84.

²⁸⁹ CM, 84; 'Welch Congregation, Lambeth', *The Evangelical Magazine* (1801), t. 373.

yma hefyd y ceir cyfeiriad at dlodi'r gynulleidfa: 'The Congregation, however, being poor, consisting for the most part of hard-working people, are obliged to depend in great measure upon the assistance of benevolent individuals.' Gellir haeru yn ffyddiog na fu i Edward Francis, un o'r pregethwyr a gynorthwyai Edward Jones, adael Lambeth ar ôl 1805 gan i fanylion ei gladdegiaeth gael eu canfod yn archifau eglwys y plwyf, St Mary-at-Lambeth. Datgelir yn ogystal iddo fyw yn Swan Yard, sef hen ale'r 'Welsh colony' y soniwyd amdano.

Newydd, hefyd, yw'r datguddiad bod dau addoldy yn perthyn i'r Cymry yn Lambeth erbyn 1814, yn ôl hanes swyddogol Swydd Surrey,²⁹⁰ a'u bod yn darparu gwasanaethau ar gyfer 'the numerous labourers in the gardens in this neighbourhood' – ffaith arall sy'n cryfhau'r dybiaeth bod Lambeth yn gyrchfan i'r Cymry. Cyhoeddir llun – am tro cyntaf – o brif stryd Lambeth²⁹¹ sy'n dangos lleoliad yr ystafell a adwaenid fel 'Bunyan's Hall' (uwchben y mynediad i hen ale Swan Yard) ac fe awgrymir bod safle'r adeilad yn cyfateb i ddisgrifiadau o fan addoli gyferbyn â'r eglwys. Dyma'r tro cyntaf i leoliad tebygol un o hen addoldai Cymraeg Lambeth gael ei nodi.

O'r pwys pennaf, pebai modd profi dolen gydiol rhwng yr achosion yn Lambeth ag achos cyfagos y Borough, gellid bod wedi haeru (yn rhinwedd llythyr 1772 a arwyddwyd gan Edward Jones ac eraill o'r 'Lambeth Meeting House')²⁹² bod Lambeth a Cock Lane ill dau yn cystadlu am yr hawl i'w galw yn achos crefyddol hynaf y Cymry yn Llundain. Ond cangen o Wilderness Row a roes fodolaeth yn y pen draw i achos Annibynnol y Borough, ac nid oes unrhyw sôn am wasanaethau Cymraeg yn Lambeth ar ôl 1826.

²⁹⁰ O. Manning and W. Bray, *The History and Antiquities of the County of Surrey*, Vol 3 (London: White, Cochrane, 1814), t. 521.

²⁹¹ CM, 86.

²⁹² CM, 44; Cambridge, Westminster College, Cheshunt College Archive, MSS. 0199, F1-99, 2-3.

Adroddir stori'r Borough gyda chymorth Huw Edwards, mab y diweddar Barchg Ddr Ifor M. Edwards, gweinidog y Borough rhwng 1946 a 1978,²⁹³ ac fe gwblheir y stori tan 2014 gyda chymorth yr arweinydd eglwys, Eiri Jones, a sefydlwyd yn 2010.²⁹⁴

Erys dwy elfen o bwys yn y bennod hon o ran arferion cymdeithasol a ieithyddol y Cymry yn Llundain. Y gyntaf yw disgrifiad gan Beti Gwenfron Evans o angladd ei mam ym 1936²⁹⁵ a'r gwasanaeth ar Blatfform 1 yn Paddington wrth i'r trê'n gludo'r arch yn ôl i Gymru. Bu hyn yn brofiad cyfarwydd i gynifer o Gymry Llundain dros gyfnod hir a phwysig yw cofnodi'r arfer. Yr ail yw'r prawf o fwrlwm bywyd capeli Llundain yn y cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd,²⁹⁶ er i'r bwrlwm hwnnw ddod â'i heriau hefyd. Adroddir am y tensiynau gwleidyddol rhwng y gweinidog a'i swyddog mwyaf dylanwadol,²⁹⁷ a'r diffyg cyd-weld hefyd ar fater yr iaith, gan ein hatgoffa unwaith eto o'r sensitifrwydd yng nghapeli Llundain o ran darparu i'r sawl na fedrent y Gymraeg yn rhugl. Fel yn achos Jewin – ac yn wir, achos Caersalem yn Llanelli – ceid gwrthdaro rhwng y sawl a fynnai mai prif bwrpas y capeli Cymraeg oedd darparu addoliad trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, a'r sawl a fynnai mai'r addoliad ddylai gael blaenoriaeth, doed a ddelo. Y mae sylwadau E. B. Byron Jones ar ddyfodol capeli Llundain yn yr 1980au cynnar yn gyfle arall i dynnu sylw at eu methiant i gefnu ar agweddau llwythol ac achub cyfle gwerthfawr i gydweithio.²⁹⁸

²⁹³ CM, 92-4.

²⁹⁴ CM, 94-5.

²⁹⁵ CM, 90-1.

²⁹⁶ CM, 92-3.

²⁹⁷ CM, 96-7.

²⁹⁸ CM, 97.

Amlygir yr agweddau llwythol hynny yn y bennod ‘Dockers’ sy’n adrodd hanes dwy gynulleidfa o Gymry yn defnyddio’r un adeilad yn Deptford ond yn gwrthod uno a chydweithio. Stori gymhleth yw un ardaloedd y dociau yn Deptford a Woolwich gan fod y Methodistiaid Calфинаidd a’r Annibynwyr wedi bod yn gweithredu ar wahân ond yn rhannu adnoddau yno am gyfnod hir.²⁹⁹ Un o nodweddion pwysicaf y bennod yw cynnig tystiolaeth ychwanegol o fodolaeth ardal lle bu trwch o Gymry yn ymgartrefu. Y mae cyfeiriad Thomas Timpson at Woolwich fel ardal ‘visited by a considerable succession of natives of the principality of Wales’³⁰⁰ yn awgrymu nad Lambeth oedd yr unig gyrchfan o bwys i’r Cymry. Darperir hanes Bethel, Woolwich, yn ei gyfanrwydd am y tro cyntaf, ac fe nodir mai yn y 1970au y teimlwyd y trai o ddifrif oherwydd newidiadau cymdeithasol – bywyd capel yn lleilai perthnasol i nifer, yn enwedig yr ifanc – a’r ffaith bod y llif o Gymru wedi gwanhau yn sylweddol. Adroddir hanes yr achos yn Lewisham yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys cynllun y pensaer o’r adeilad newydd ym 1901,³⁰¹ ac fe gynhwysir tystiolaeth bersonol gan Wyn Jones – a fu’n weithgar yno am dros 70 mlynedd – o fywyd prysur y capel, a sylwadau treiddgar ganddo am ei gweinidogion. Nodir hefyd y cyfraniad mawr a wnaed gan Meurig Owen i gofnodi hanes nifer o gapeli Cymraeg Llundain, gan gynnwys ei gapel ei hun.³⁰²

Pery’r thema forwrol yn ‘Sermons for Sailors’ gan mai ar fwrdd llongau ar y Dafwys y darperid pregethau i forwyr ym mlynnyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan gynnwys hanes y Capten David Evans a’i benderfyniad yntau i drefnu pregeth Gymraeg i’w griw yntau.³⁰³ Darperir manylion am y tro cyntaf o’r cyfarfod a gynhelid ar longau masnachol

²⁹⁹ CM, 102-3.

³⁰⁰ Thomas Timpson, *Church History of Kent* (London: Ward, 1859), t. 35.

³⁰¹ CM, 111.

³⁰² Meurig Owen, *Yr Achos yn Lewisham, Llundain* (Llundain: Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 1999).

³⁰³ CM, 118-20.

o Gymru a angorid ar y Dafwys – rhwng 20 a 30 ohonynt³⁰⁴ – nes i'r galw am wasanaethau arwain at agor adeilad y Cambrian Union Society for Seamen ym 1821. Un o elfennau mwyaf dadlennol y bennod yw rhestr galwedigaethau'r aelodau erbyn canol y ganrif, rhestr sy'n tanlinellu unwaith eto mai ardaloed tlawd, diwydiannol oedd Southwark a Bermondsey yn y cyfnod hwn.³⁰⁵ Rhoddir hanes Crosby Row (olynydd y Cambrian) yn ei gyfanrwydd³⁰⁶ – gan gynnwys delweddau nas cyhoeddwyd o'r blaen – ac fe roddir hanes capel Falmouth Road³⁰⁷ mewn print am y tro cyntaf, gan gynnwys ei eisteddfodau enwog a'i gyfraniad cyfoethog – y mwyaf cyfoethog, yn ôl pob tebyg, yn rhinwedd yr eisteddfodau blynyddol – i fywyd diwylliannol Llundain. Pwysleisir y cysylltiad â chapeli Llanelli, unwaith eto, ym mherson y Parchg M. H. Edwards, ac fe ddylid nodi ei bryderon yntau – cyn yr Ail Ryfel Byd, sylwer – ynghylch sefyllfa fregus y Gymraeg ymhlith y plant yng nghapeli Llundain.³⁰⁸

Datblygir y drafodaeth yn ddefnyddiol iawn gan Catrin Unwin, merch y Parchg Glanville Davies – un arall o feibion Llanelli – yn ei thystiolaeth bersonol³⁰⁹ am gymeriad y gynulleidfa ('some of the members were as proud of their genuine Cockney roots as they were of their Welsh ones') a'r ymgais gynyddol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog yn y 1950au a'r 1960au. Serch hynny, fe geir ganddi ddatganiad moel nad ffactorau ieithyddol oedd i'w cyfrif am y trai ('it wasn't the language that reduced the membership, it was changing society') ond patrymau cymdeithasol cyfnewidiol, gan gynnwys aelodau hŷn yn dychwelyd i Gymru, a gweithwyr proffesiynol ifanc yn manteisio ar rwydweithiau cymdeithasol gwahanol.

Dyfyynnir o bapurau preifat Glanville Davies³¹⁰ wrth iddo wynebu sefyllfa ariannol y capel, y

³⁰⁴ CM, 119-20.

³⁰⁵ CM, 121.

³⁰⁶ CM, 122-25.

³⁰⁷ CM, 126-142.

³⁰⁸ CM, 134.

³⁰⁹ CM, 137.

³¹⁰ Trwy law Catrin Unwin, Mai 2014.

pwysau i dderbyn cyfrifoldeb am achosion eraill, a'r datganiad mai 'unnecessary chapel' oedd Falmouth Road erbyn diwedd y 1970au.³¹¹

Y mae cyd-destun cymdeithasol y capeli – yr holl weithgareddau a ddarperid ar gyfer yr aelodau – yn hollbwysig er mwyn deall apêl ddiarnheul y canolfannau crefyddol hyn i gymuned o Gymry mewn dinas estron. Yn wir, gellir haeru bod y capeli – yn rhinwedd ystod eu gweithgareddau a'u hadnoddau – wedi ffurfio cymunedau Cymraeg ar drawn Llundain Diddorol nodi bod cymunedau wedi ffurfio Dyna bwynt Mary Green yn ei thystiolaeth hithau³¹² o fywyd capel Mile End – yn y bennod 'East Enders'³¹³ – a'i chyfraniad at hanes teulu'r Edwardiaid a'u busnes llaeth yn yr ardal ddosbarth gweithiol hon o Lundain. Ceir yma hanes achos Mile End – achos a darddodd o ardal ddociau'r Isle of Dogs – ac fe bwysir ar arolwg Meurig Owen sy'n nodi bod cymeriad aelodaeth Mile End wedi newid dros y blynyddoedd: dechreuodd gyda 'labourers in the Poplar district, but by our time, everyone seemed to be from Cardiganshire, most of them from Tregaron ... in the dairy trade.'³¹⁴ Y mae amlygrwydd y llaethwyr yn ffactor cyson yn hanes y capeli.

Stori drist o gryn ymdrech a dyled yw un capel Stratford, enghraifft dda o 'unnecessary chapel' os bu un erioed, gan iddo gael ei godi yn rhy agos i Mile End. Nodir dwy elfen ddiddorol: y gyntaf yw problem colli aelodau,³¹⁵ problem gyfarwydd iawn mewn dinas lle ceir mynd a dod diddiwedd, a'r ail yw'r duedd amlwg ymhlith 'many wealthy Welshmen' i gefnu ar achosion Cymraeg ac ymuno â rhai Saesneg.³¹⁶ Wedi dweud hynny, ffrwyth y mynd

³¹¹ CM, 140-1.

³¹² CM, 144.

³¹³ CM, 143-70.

³¹⁴ CM, 153.

³¹⁵ CM, 158-61.

³¹⁶ CM, 159.

a dod hwnnw oedd agor capel newydd Leytonstone ym 1958 – roedd y capel gwreiddiol yn Walthamstow³¹⁷ – er mwyn ateb y galw ymhlith yr holl athrawon ifainc o Gymru a ddeuai i Lundain i weithio yn y 1950au. Prif nodwedd diwedd y bennod yw tystiolaeth bersonol Bethan Whitall³¹⁸ am waith ei thad, y Parchg Meic Parry, ei amodau gwaith a'i delerau ariannol, a dylanwad y llaethwr cefnog Jenkin Alban Davies, prif noddwr capel Leytonstone a'r cymeriad a fynnodd gael y cyfleusterau arbennig a ragorai ar unrhyw gapel arall yn Llundain. Pwyswyd ar lyfryn ar hanes y cyfnod cynnar³¹⁹ ond yn *City Mission* y ceir yr hanes cyfan am y tro cyntaf.

Diweddarau yw prif dasg pennod 'Elfed's Kingdom'³²⁰ gan bod tipyn o waith eisoes wedi ymddangos ar hanes y capel enwog yn King's Cross³²¹ ac ar ei weinidog nodedig, Elfed, y bardd-bregethwr a dreuliasai gyfnod yn Park Church, Llanelli. Ceir gan y Parchg Ddr W. T. Owen ddatganiad moel am gyflwr y capeli yn Llundain a'r ffaith bod y mudo o Gymru yn disgyn 'from year to year, and those who came tended to represent the spiritual condition of Wales,'³²² hynny yw eu bod yn gynyddol ddi-hid o ran bywyd capel. Cynhwysir tystiolaeth bersonol ar gyfnod olaf King's Cross gan y Parchg Ieuan Davies, olynnydd W. T. Owen, ac esbonnir y penderfyniad i uno achosion Annibynnol King's Cross a Radnor Walk gyda'r Bedyddwyr yn Castle Street i ffurfio Eglwys Gymraeg Canol Llundain yn 2006. Dyma'r

³¹⁷ CM, 162-167.

³¹⁸ CM, 167-169.

³¹⁹ Oswald Rees Owen, *Moreia, Walthamstow (Hanes yr Achos 1903-1953)* (Llundain: Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 1953).

³²⁰ CM, 171-193.

³²¹ Llywelyn Williams (Gol.), *Hanes Eglwys y Tabernacl, King's Cross 1847-1947* (Llundain: W. Griffiths a'i Frodyr, 1947); W. T. Owen (Gol.), *Capel Elfed (Hanes Eglwys y Tabernacl, King's Cross)* (Abertawe: Gwasg John Penri, 1989); Morfudd Jenkins, 'Atgofion am y Tabernacl, King's Cross', *Y Tyst* (1 Chwefror 2007), 4; *Y Tyst* (15 Chwefror 2007), 4; *Y Tyst* (22 Chwefror 2007), 4; Ieuan Davies, *Trwy lygaid Tymblwr - a Gweinidog!* (Abertawe: Ieuan Davies, 2007), tt. 181-216.

³²² CM, 187.

enghraifft fwyaf nodedig – eithriad yn Llundain – o gapeli yn uno, a chapeli o enwadau gwanahol hefyd.

Y mae'r dystiolaeth bersonol yn allweddol bwysig ym mhennod 'A Dairy Dispute?',³²³ ar hanes Charing Cross Road. Ceir gan Gwynne Pickering ddisgrifiadau o nodweddion yr adeilad nodedig,³²⁴ a'r ergyd ysbrydol a gafwyd yn sgîl cau'r achos ym 1982,³²⁵ gan Enid Davies ceir cyfoeth o liw ar fywyd y capel yn ystod yr Ail Ryfel Byd a chymeriad y gweinidog, y Parchg Gwyn Evans;³²⁶ gan Ken Kyffin ceir esboniad o apêl arbennig y capel yng nghanol y West End³²⁷, a disgrifiad o'r profiad o gau'r drysau am y tro olaf.³²⁸ Dyma gapel cryfaf y Cymry yn Llundain ar un adeg, ond profodd y lleoliad canolog yn anfantais pan newidiodd patrwm byw yr aelodau. Darperir dehongliad diwygiedig o wreiddiau'r achos³²⁹ gan amau'r naratif gwreiddiol³³⁰ mai anghydfod y gweithwyr llaeth yn Jewin a arweiniodd at sefydlu Denmark Street (rhagredegydd Nassau Street a Charing Cross Road) oherwydd bod y dyddiadau yn tanseilio'r ddamcaniaeth honno. Cynhwysir nifer o ddelweddau yn y bennod nas cyhoeddwyd o'r blaen, gan gynnwys yr unig lun sydd ar gael o'r tu mewn i'r hen gapel.³³¹ Diweddarwyd y stori gan ychwanegu manylion am hanes yr adeilad fel clwb a thafarn ers 1982 a'i addasu wedi hynny yn ganolfan i'r celfyddydau.

³²³ CM, 194-212.

³²⁴ CM, 195.

³²⁵ CM, 212.

³²⁶ CM, 196, 209.

³²⁷ CM, 206.

³²⁸ CM, 198.

³²⁹ CM, 198-200.

³³⁰ E. Gwyn Evans (Gol.), *Y Ganrif Cyntaf 1849-1949* (Llundain: Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 1951).

³³¹ CM, 196.

Manteision ac anfanteision lleoliad canolog yw thema'r Parchg D. Hugh Matthews³³² yn ei dystiolaeth bersonol yntau yn y bennod ar fywyd Bedyddwyr Cymraeg Llundain, 'Baptist Bastion.'³³³ Darparodd yntau lyfryn³³⁴ ar hanes y capel i'w ychwanegu at yr hanes swyddogol a gyhoeddwyd ym 1959.³³⁵ Prif neges y bennod yw bod y Bedyddwyr wedi canolbwyntio adnoddau ar un achos sylweddol yn Llundain,³³⁶ ac fe dalodd hynny yn hael o gofio bod Castle Street wedi goresgyn a'i fod wedi ei ddewis fel cartref anenwadol Eglwys Gymraeg Canol Llundain yn 2006, gan wario £1.3 miliwn ar welliannau sylweddol.

Taith gwmpasog yw 'Along the District Line'³³⁷ sy'n ymweld â phum capel mewn ardal orllewinol lle bu miloedd o Gymry yn byw yn rhinwedd lleoliad Gorsaf Paddington gerllaw. Diweddarau yw hanes Radnor Walk, achos Annibynnol a ffurfiwyd mewn neuadd gyngerdd y tu cefn i dafarn. Pwyswyd ar gyfrol y Parchg Ifor O. Huws³³⁸ ac fe ychwanegwyd gwybodaeth gan y Parchg D. Gwylfa Evans ar y penderfyniad i symud yr achos i Castle Street. Prif nodwedd hanes Walham Green – hanes y cyhoeddir yn gyflawn am y tro cyntaf yn *City Mission* – yw cyfraniad Timothy Davies, gwleidydd Rhyddfrydol, cyfaill i David Lloyd George, a masnachwr cefnog a noddodd sawl achos yn Llundain gan gynnwys Lewisham.³³⁹ Ychwanegir yn sylweddol at y naratif gan dystiolaeth bersonol y Parchg Anthony Williams a Glenys Pashley³⁴⁰ am gymeriad y capel ac am yr holl weithgaredd ddiwylliannol a cherddorol a gafwyd yno. Y mae Glenys hefyd yn enghraifft o'r cannoedd o

³³² CM, 230-231.

³³³ CM, 213-233.

³³⁴ D. Hugh Matthews, *Hanes Tŷ Cwrdd Castle Street* (Abertawe, Tŷ John Penri, 1989).

³³⁵ Walter P. John a Gwilym T. Hughes, *Hanes Castle Street a'r Bedyddwyr Cymraeg yn Llundain* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1959).

³³⁶ CM, 216

³³⁷ CM, 234-259.

³³⁸ Ifor O. Huws (Gol.), *Hanes Eglwys Radnor Walk, Chelsea, Llundain 1859-1959* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1959).

³³⁹ CM, 241-243.

³⁴⁰ CM, 244-247.

barau priod y ffurfiwyd eu perthynas yng nghymunedau'r capeli Cymraeg. Dyma'r tro cyntaf i hanes Walham Green gael ei gyhoeddi. Tystiolaeth bersonol gan Nest Beynon, merch i gyn-weinidog, sydd yn ychwanegu at stori capel Seion, Hammersmith, y cyhoeddir ei hanes am y tro cyntaf yn *City Mission*.³⁴¹ Bu Dr Francis Knoyle o Langennech ger Llanelli yn weinidog yno o 1901 tan 1945. Esbonnir sut y bu i ofalaeth ei thad ehangu ar ddiwedd y 1950au oherwydd prinder adnoddau, ac fe gaewyd yr achos ym 1972 ar ôl i'r Parchg Gwilym Rees ddychwelyd i Lanelli. Mae gan John Morris sylwadau dadlennol am gymeriad dosbarth gweithiol y gynulleidfa,³⁴² a bod pobl leol yn arfer dod i'r capel ar nos Sul i glywed y canu. Diweddariad o'r hanes cyhoeddedig tan 1957³⁴³ yw'r adran ar Ealing Green,³⁴⁴ diolch yn bennaf i dystiolaeth bersonol Graham Griffiths,³⁴⁵ ac fe grynhoir prif elfennau hanes Shirland Road am y tro cyntaf yn *City Mission*³⁴⁶ hyd at ei gau ym 1988. Dim ond Ealing Green o'r capeli gorllewinol hyn oedd yn dal ar agor yn 2014.

Yn 'Beyond the Junction',³⁴⁷ ceir hanes tri chapel yn ne-orllewin Llundain, sef Clapham Junction, Sutton a Battersea Rise. Dyma esiampl arall o ardaloed dosbarth gweithiol lle bu miloedd o Gymry yn ymgartrefu. Y mae i'r ddau gapel cyntaf eu hanesion cyhoeddedig³⁴⁸ ond bu angen diweddarau ac ehangu gan ddefnyddio tystiolaeth bersonol i'w cyfoethogi. Yn achos Clapham Junction cafwyd cyfraniad arbennig gan Mrs Margaret Felix a dreuliodd ei hoes gyfan – 101 mlynedd – yn mynychu'r capel.³⁴⁹ Darparodd fanylion gwerthfawr am

³⁴¹ CM, 247-252.

³⁴² CM, 250.

³⁴³ J. Herbert Roberts, *Hanner Can Mlwyddiant yr Achos yn Ealing Green 1907-1957* (Llundain: Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 1957.)

³⁴⁴ CM, 252-255.

³⁴⁵ CM, 253.

³⁴⁶ CM, 256-259.

³⁴⁷ CM, 260-275.

³⁴⁸ Geoffrey G. Davies (Gol.), *Hanes Clapham Junction Llundain 1896-1996* (Llundain: Eglwys Clapham Junction, 1996); Gwen Môn Holt, 'Deugain mlynedd o addoliad yn Eglwys Lind Road, Sutton' yn *Y Goleuad* (25 Chwefror 2005), 1.

³⁴⁹ CM, 264-265.

fywyd y capel ac am y gwaith mawr i ailadeiladu'r capel ym 1925. Cyhoeddir llun prin o'r capel cyn yr ailadeiladu.³⁵⁰ Nodir y cyswllt agos rhwng teulu Lloyd George â'r capel, a chyhoeddir delwedd o'r ffenestr liw a osodwyd yno ym 1909 er cof am Mair Eluned Lloyd George.

Stori gymharol fer yw un Battersea Rise, capel bach Annibynnol a godwyd ym 1906 mewn stryd gyfagos – enghraifft arall, hwyrach, o 'unnecessary chapel' – a diolch i dystiolaeth Glyn Morgan cafwyd ychydig o flas y bywyd yno.³⁵¹ Dim ond un bugail cyflogedig a fu yno, ac fe gaewyd yr achos tua 1960. Cyhoeddir llun prin o'r tu mewn. Pwyswyd hefyd ar nodiadau Ben Davies wrth lunio'r hanes cynnar.³⁵²

Y mae hanes capel Sutton wedi ei gofnodi mewn llyfryn a baratowyd pan symudwyd i'r capel presennol ym 1965,³⁵³ ond bu'n rhaid diweddarau a phwysleisio rhan amlwg Margaret Lloyd George yn yr ymgyrch wreiddiol i ymganghennu o Clapham Junction. Yr oedd Sutton a Clapham Junction ill dau yn dal ar agor yn 2014.

Pennod yw 'Northern Panorama'³⁵⁴ sy'n cwmpasu ardal eang iawn gan gynnwys cyffiniau Gorsaf Euston lle bu cynifer o Gymry yn byw ac yn gweithio yn rhinwedd y cyswllt trafndiaeth â Gogledd a Chanolbarth Cymru. Nodir ymgais brin – ac aflwyddiannus – i gynnal achos Saesneg gan y Methodistiaid Calфинаidd yn Islington,³⁵⁵ ac fe nodir barn nifer o Gymry Llundain mai pwrpas eu capeli oedd cynnal addoliad trwy gyfrwng y Gymraeg, gan

³⁵⁰ CM, 266.

³⁵¹ CM, 271-272.

³⁵² Ben Davies (gol.), *Llawlyfr Cyfarfodydd Llundain 1937*, tt. 90-1.

³⁵³ *Dathlu Agoriad Capel Lind Road, Sutton*, (Llundain: Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 1965).

³⁵⁴ CM, 276-306.

³⁵⁵ CM, 276-278.

nad oedd unrhyw brinder o ran gwasanaethau Anghydfurfiol trwy gyfrwng y Saesneg yn y ddinas. Tystiolaeth Alun Jones – trwy law ei fab, Pennant Jones – sy'n cyfoethogi'r hanes am fywyd a chymeriad Wilton Square³⁵⁶ a'r difrod mawr a wnaed i'r adeilad ym 1940.

Cyrchoedd awyr yr Ail Ryfel Byd a roes daw hefyd ar 'Gapel Coffadwriaethol y Gohebydd', Barratt's Grove, capel a werthwyd ar ôl y rhyfel er mwyn ariannu achosion newydd yn Harrow, Slough a Luton.³⁵⁷ Diweddarau yw'r dasg fwyaf o ran Holloway,³⁵⁸ un arall o achosion y Methodistiaid Calfinaidd y cafwyd ei hanes mewn llyfryn canmlwyddiant,³⁵⁹ ac ychwanegwyd manylion am fywyd y capel gan Mrs Lloyd Price, gweddw'r Parchg W. Lloyd Price.³⁶⁰ Nodir i'r capel gael ei werthu pan sefydlwyd achos unedig Eglwys-y-Drindod yn Cockfosters yn 2002. Capel llai o ran maint ac aelodaeth oedd Wood Green,³⁶¹ un arall a gaewyd er mwyn sefydlu Cockfosters. Cyfoethogwyd y naratif gan dystiolaeth bersonol Delyth McDonald, gan mai ei thad, y Parchg Alun Thomas, oedd yr unig fugail cyflogedig yn hanes yr eglwys,³⁶² a chan Gwen Evans, y gyn-genhades a fu'n weithgar yn Wood Green a holl gapeli Llundain am ddegawdau.³⁶³ Bu Bowen Williams, Cymro Cymraeg a dreuliodd oes faith yn Llundain, hefyd yn graig o wybodaeth³⁶⁴ am Wood Green ac am gapel Willesden Green y caewyd ei ddrysau ym 1999 yn fuan ar ôl dathlu'r canmlwyddiant.

Y mae'r dystiolaeth bersonol yn nodwedd amlwg o'r naratif yng nghyswllt Willesden. Un o'r prif ffynnonellau oedd Audrey Morgan, dynes a dreuliodd 60 mlynedd yn Willesden cyn

³⁵⁶ CM, 279-281; gw. hefyd John Thickens, 'Capel Wilton Square - Y Cychwyniadau' yn *Adroddiad Blynyddol Eglwys Wilton Square, 1935* (Llundain: Henaduriaeth Llundain, 1936), tt. 4-10.

³⁵⁷ CM, 283.

³⁵⁸ CM, 283-289.

³⁵⁹ Huw Llewelyn Jones (Gol.), *Camre Canrif Holloway, Llundain 1865-1965* (Caernarfon: Llyfrfa'r Cyfundeb, 1965).

³⁶⁰ CM, 288.

³⁶¹ CM, 289-294.

³⁶² CM, 291-292.

³⁶³ CM, 292-293.

³⁶⁴ CM, 293.

ymddeol i Aberaeron, gyda'i chwaer, Bethan, a'i brawd-yng-nghyfraith, Tom. Ceir cyfraniadau hefyd gan Iola Bilson, merch Audrey Morgan, a nifer o gyn-aelodau eraill. Nodir cyfraniad enfawr y Parchg John Thickens i gapeli Llundain a'i ymdrechion i gofnodi'r hanes cynnar.³⁶⁵ Ac fe bwysleisir unwaith eto mor ganolog fu'r capeli ym mywyd y Cymry yn Llundain gan mai yn Willesden y bu Ysgol Gymraeg Llundain yn lletya am ddegawdau.

Stori fer – a chymharol ddieithr – yw un Wembley, lle bu achos bychan rhwng 1939 a 1972. Cafwyd tystiolaeth bersonol gan Tom a Myra Davies³⁶⁶ o'r bywyd yno yn y blynyddoedd ar ôl y rhyfel, a darperir llun o'r agoriad nas cyhoeddwyd o'r blaen. Pwyswyd ar yr adroddiad blynyddol olaf er mwyn gwirio ffeithiau am yr achos.³⁶⁷

Harrow yw'r capel olaf i'w drafod yn y bennod,³⁶⁸ a diolch i waith da Morfudd Jenkins³⁶⁹ y mae gennym gofnod ardderchog o hanes yr achos. O ran diweddarau, nodwyd gwaith y Parchg D. Gwylfa Evans yn Llundain a'r ffaith iddo ddathlu hanner can mlynedd yn y weinidogaeth yn 2012.

Pennod yw 'Wesley's Ways'³⁷⁰ sy'n adrodd stori anghyfarwydd, sef gweithgaredd y Methodistiaid Wesleiaidd Cymraeg yn Llundain. Prif ffocws y stori yw gweinidogaeth y Parchg John Evans, Eglwysbach, a'i ymdrechion uchelgeisiol i gryfhau'r enwad.³⁷¹ Ef oedd yn gyfrifol am y cynllun i adeiladu capel mawr City Road, gan gredu y byddai adeilad crand yn debygol o ddenu torf. Nodir mai gwallgofrwydd oedd adeiladu capel Wesleiaidd daflad

³⁶⁵ CM, 294-297, 301.

³⁶⁶ CM, 302-303.

³⁶⁷ *Adroddiad Blynyddol Wembley - Yr Olaf* (Llundain: Henaduriaeth Llundain, 1972).

³⁶⁸ CM, 303-306.

³⁶⁹ Morfudd Jenkins, *Hanes Eglwys Gymraeg Harrow 1937-1987* (Llundain: Eglwys Harrow, 1987).

³⁷⁰ CM, 307-322.

³⁷¹ CM, 310-317.

carreg o ddrws y fam eglwys, Wesley's Chapel, ac mai gweithred anghyfrifol oedd mynd i ddyled enfawr o'r herwydd. Dyma'r tro cyntaf i hanes City Road gael ei gyhoeddi yn llawn, ynghyd â hanesion Wesleiaidd Brunswick, Chiltern Street a Sibley Grove.³⁷²

Os mai stori anghyfarwydd oedd un y Wesleaid, mae cynnwys y bennod olaf – sef ‘Anglican Enclaves’³⁷³ – hyd yn oed yn fwy dieithr i drwch Gymry Llundain. Nid oes unrhyw gyhoeddiad yn delio'n fanwl â'r eglwysi Anglicanaidd hynny a ddarparai wasanaethau yn yr iaith Gymraeg. Pwyswyd yn drwm ar dystiolaeth bersonol. Cafwyd hyd i bapurau'r Parchg Alfred Pryse Hawkins, cyn-ficer St Benet, sy'n cynnig damcaniaeth ddiddorol am bresenoldeb y Cymry yn ardal St Paul's a Thŵr Llundain o'r Canol Oesoedd ymlaen, ond bu'n amhosib cadarnhau'r naratif cyfan a luniwyd ganddo. Serch hynny, mae presenoldeb hanesyddol y Cymry yn yr ardal yn ffactor cyson – yma, wedi'r cyfan bu Owain Myfyr a'i gyfeillion yn byw – ac mae statws ‘brehninol’ St Benet (rhodd gan y Frenhines Victoria i'r Cymry ym 1879) yn destun anghydfod hyd heddiw. Nodir y tensiynau rhwng yr Eglwyswyr a'r Anghydfurfwyr Cymraeg yn Llundain – tensiynau cyson ar hyd y blynyddoed – a darperir stori'r eglwysi eraill am y tro cyntaf, sef Dewi Sant, St Mair, St Padarn a St Rhystyd. Diolch i dystiolaeth Michael Buck,³⁷⁴ cafwyd manylion am yr anghydfod cyfreithiol ynghylch statws yr adeiladau, yn enwedig Dewi Sant, ac fe gafwyd gan Siôn Griffiths fanylion am gyfnod ei dad fel ficer yr eglwys honno. Nid oes yr un gyfrol arall yn adrodd stori'r eglwysi hyn. Ac er mai cyfrol am achosion Anghydfurfiol yw hanfod *City Mission*, amhosib ac anghywir fyddai hepgor stori am ymdrechion miloedd o Gymry yn Llundain i addoli trwy gyfrwng eu mamiaith yn eu heglwysi Anglicanaidd. Mae'r eglwysi hyn yn rhan gyfangwbl

³⁷² CM, 317-322.

³⁷³ CM, 323-342.

³⁷⁴ CM, 334-335.

annatod o'r traddodiad. Wedi'r cyfan, yr yr eglwysi y dechreuodd y ddarpariaeth yn yr iaith Gymraeg yn Llundain gyda phregeth George Lewis ar Ddydd Gŵyl Dewi ym 1714.

Mynd i'r afael â'r traddodiad hwnnw yw pwrpas yr erthygl 'Codi trywydd: y bregeth Gymraeg yn Llundain cyn cyfnod Howel Harris', ar waethaf y diffyg enbyd o ran tystiolaeth ddogfennol.³⁷⁵ Er nad oedd modd dod o hyd i brawf o bregethu yn yr iaith Gymraeg yn Llundain cyn pregeth George Lewis, enwir 29 o glerigwyr Cymraeg a wasanaethodd yn y ddinas rhwng 1551 a 1600³⁷⁶ – heb gyfrif cymeriadau allweddol fel Gabriel Goodman a William Morgan – ac fe nodir bod cymuned o filoedd o Gymry Cymraeg yn trigo yn ardal Llundain yn y cyfnod dan syw. Y mae'r erthygl yn cynnig gwybodaeth newydd am y traddodiad a'r unigolion a fu'n allweddol yn ei ddatblygiad, gan gynnwys John Evans a George Lewis, ill dau yn weision i'r East India Company, yn gyfeillion agos, ac yn ffigyrau canolog i'r broses o sefydlu Cymdeithas yr Hen Frytaniaid.³⁷⁷

Ond yr enw mwyaf diddorol yn y cyswllt hwn yw Philip Philips, un arall o weision yr East India Company, clerigwr y bu ei gyfraniad i fywyd Cymry Llundain – a thraddodiad pregethu Cymraeg yn Llundain – yn aneglur, os nad yn anhysbys, hyd yma. Gwyddys o gofnod Thomas Jones³⁷⁸ mai Philips oedd caplan cyntaf y gymdeithas, ond bu amheuaeth ynghylch ei gefndir, ac fe sefydlir y ffeithiau yn yr erthygl.³⁷⁹ Ef a bregethodd ar achlysur yr ail ddatliad ym 1715, ac fe ddatgelir yn yr erthygl bod y dathliadau blynyddol hyn wedi mynd ar gynnydd, a bod mwy nag un bregeth ar gael ar Ddydd Gŵyl Dewi i gynulleidfaoedd

³⁷⁵ CT, 27.

³⁷⁶ CT, 32.

³⁷⁷ CT, 33-35.

³⁷⁸ Thomas Jones, *The Rise and Progress of the Most Honourable and Loyal Society of Antient Britons* (London: W. Taylor, 1717), tt. 3-6.

³⁷⁹ CT, 35-37.

gwahanol, gan gynnwys Ymneilltuwyr.³⁸⁰ Nodir yn ogystal duedd ambell bregethwr, Moses Williams yn amlwg yn eu plith, i roi neges gadarn i'w gynulleidfa, yn enwedig ar fater yr iaith Gymraeg a'r ffaith bod rhai o Gymry blaenllaw Llundain yn ddirmygus ohoni.³⁸¹ Ac fe ddatgelir datblygiad na roddwyd unrhyw sylw iddo o'r blaen, sef darpariaeth wythnosol o bregeth yn yr iaith Gymraeg yn rhai o eglwysi Llundain o 1720 ymlaen.³⁸² Philip Philips yw'r pregethwr dan sylw, ac fe danlinellir am y tro cyntaf mai ef, yn anad neb arall, a fu'n ddigymar o ran sefydlu'r patrwm hwn yn eglwysi Llundain.

Datblygu ac ehangu'r naratif hwn a wneir yn yr erthygl 'On the trail of Ginshop Jones: Welsh Nonconformists in Eighteenth-Century London', gan ddatgelu gwybodaeth newydd am weithgaredd grefyddol y Cymry yn Lambeth a Smithfield, y cyswllt rhwng y ddwy gynulleidfa, manylion newydd am achosion Cock Lane a Wilderness Row, a gwybodaeth newydd am Edward 'Ginshop' Jones a'i gefndir.

Am y tro cyntaf, cynigir lleoliad weddol benodol am y 'Crown House' lle bu Howel Harris yn pregethu i'r Cymry yn Lambeth. Gwneir hyn ar sail gwybodaeth yn archifau Lambeth a Surrey, a gwybodaeth yn y wasg am y teulu a drigai yn y tŷ yn ystod y cyfnod hwnnw.³⁸³ Cyhoeddir am y tro cyntaf ddarn o lythyr a ddanfonwyd o'r 'Lambeth Meeting House' i Iarlles Huntingdon ym 1772 yn gofyn am gefnogaeth.³⁸⁴ Y mae'r llythyr yn arwyddocaol am sawl reswm: mae'n cadarnhau bod nifer o Gymry yn y cylch, a'u bod yn treulio'r Suliau yn yfed; mae'n cadarnhau bod 'little Society' newydd ei ffurfio; ac mae'n nodi bod 'little

³⁸⁰ CT, 37-41.

³⁸¹ CT, 41-42.

³⁸² CT, 42-43.

³⁸³ OT, 474-476.

³⁸⁴ OT, 478-479.

sucksess' wedi dod i'w rhan. Un o'r awgrymiadau amlwg yw bod y seiat a sefydlwyd gan Howel Harris – bu ar ei ymweliad olaf yno yn 1767 – wedi diffodd am gyfnod, ond wedi ailgynnau cyn 1772. Nodir eto – o adroddiadau yn y wasg – bod achos Cock Lane eisioes wedi cychwyn erbyn diwedd 1772, a bod union leoliad hwnnw yn fwy hysbys o'r herwydd. Cynigir manylion newydd hefyd am leoliad capel Wilderness Row, ar ar sail y ddeiseb a ddanfonwyd i Esgob Llundain ym 1788 fe awgrymir mai dyma ddyddiad cywir sefydlu'r achos hwnnw, a'i fod wedi meddiannu capel a safai yno eisoes.

Edward 'Ginshop' Jones ei hun yw ffocws yr adran olaf. Darperir manylion newydd – o archifau dinesig ac yswiriant – am ystod ei fusnes a'i gyfoeth, a'i gefndir milwrol. Ceir golwg am y tro cyntaf ar fanylion ei wasanaeth milwrol a'i bensiwn. Rhoddir manylion am ei ail briodas, a nodir mai amhendant yw'r manylion am ei farwolaeth. Ond fe ddatgelir bod y llofnod ar ewyllys un Edward Jones o Lansannan ym 1816 yn cydfynd â llofnodion dogfennau 1772 a 1788. Nodir yn ogystal bod ei gyfraniad mawr i fywyd capeli cynnar Llundain wedi mynd yn angof i raddau oherwydd natur liwgar ei fywyd personol a'i gymeriad cwerylgar.

Ni fu'n bosib llenwi'r bylchau i gyd, ond y mae'r hanes yn llawer mwy cynhwysfawr nag y bu.

9. CASGLIADAU

Nodwyd eisoes mai ffrwyth degawd o ymchwilio, darlledu, ysgrifennu a chyhoeddi yw'r cyfrolau a'r ysgrifau a gyflwynir. Ceir yma gyfuniad o'r personol a'r dogfennol, hanes achosion Anghydfurfiol – gan amlaf – y bu eu twf a'u gweithgaredd yn destun diddordeb ynddynt hwy eu hunain. Ond fe roes yr astudiaeth gyfle ychwanegol i fyfyrion ynghylch natur y cymunedau a'r unigolion a'r bywyd a'u meithrinodd ac a'u cynhaliodd.

Nodir yn rheolaidd yn y traethawd hwn mai diweddarau a datgelu gwybodaeth newydd yw prif ffocws y pedwar cyhoeddiad. Y mae i'r broses honno bwysigrwydd deublyg, felly: esbonnir cefndir a hanes y gwahanol achosion, ond wrth wneud hynny llunnir portread o'r byd o'u cwrmpas. Y mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd yr holl dwrio ar lefel leol er mwyn creu darlun o gymdeithas y bu iddi un ffocws diwrthdro, sef bywyd y capel – a llond dwrn o eglwysi hefyd yn achos Cymry Llundain – a'i holl weithgaredd diddarfod. Gan hynny dylid pwysleisio gwerth y 'lleol' yn y broses o gyfrannu at ein dealltwiriaeth o'r 'cenedlaethol' neu'r 'cyffredinol'.

Y mae'r egwyddor hwnnw yr un mor ddilys yn achos y lleoliadau, Llanelli a Llundain ill dau, er mor wahanol yr oeddynt – ac y maent yn dal i fod, wrth gwrs – o ran maint a strwythur cymdeithasol. Tref gymharol fechan, ddiwydiannol, Gymraeg ei hiaith oedd Llanelli erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ar adeg pan dyfai Llundain yn gyflym i fod yn brifddinas yr Ymerodraeth Brydeinig. Y mae i ddatblygiad y capeli yn y ddau le ei gyffelybiaethau a'i gyferbyniadau.

Yn Llanelli, gwelwyd twf aruthrol o ran Ymneilltuaeth diolch yn bennaf i allu'r diwygwyr – yr arweinyddion lleol a chenedlaethol – i danio dychymyg y werin a'u symbylu yn eu mamiaith. Bu cryfder ac egni David Rees a'i debyg yn allweddol bwysig o ran cynnydd yr achosion Anghydfurfiol yn Llanelli, ac iddo ef a Lleurwg yn bennaf y mae'r clod am gryfhau eu henwadau eu hunain – yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr – yn y dref. Diffyg arweinyddiaeth o'r radd flaenaf a lethodd gynnydd y Methodistiaid Calфинаidd a Wesleaid yn y dref, ar waethaf y dechreuadau addawol yn y Gelli-onn.

Ac er bod David Rees a'i debyg wedi ceisio cymell y di-Gymraeg trwy ffurfio achosion Saesneg eu hiaith, llwyddiant cymedrol yn unig a ddaeth i'w rhan mewn tref lle siaredid y Gymraeg – o ddewis naturiol – ar bob stryd yn gwbl diffwdan. Yn wir, gellir dadlau yn ffyddiog y byddai sefyllfa'r Gymraeg yn y dref wedi dirywio'n gynt o lawer heb ddylanwad a chynhaliaeth y capeli Cymraeg eu hiaith, a Chapel Als – chapel David Rees ei hun – gyda'r amlycaf yn eu plith.

Bu'r achosion a ddatblygodd i fod yn eiddo i'r Methodistiaid Calфинаidd yn Llundain yn llawer mwy llewyrchus – yn union oherwydd ansawdd a chryfder eu harweinwyr cynnar. Yr oedd Edward Jones, pa gamgymeriadau bynnag y bu iddo eu gwneud, yn arweinydd diwyd a di-ildio. Ef, yn anad neb arall, a osododd seiliau'r achos yn Wilderness Row, ac ef yn ogystal, yn ei styfnigrwydd a'i anhyblygrwydd, a roes achos i Daniel Jenkins osod seiliau Annibyniaeth Gymraeg yn Gravel Lane. Ni ellir gwadu dylanwad pellgyrhaeddol Edward Jones, ac fe ellir awgrymu bellach fod ei natur ormesol yn adlewyrchu ei hunan-dŷb a'i statws fel masnachwr cefnog, tirfeddiannwr dinesig, a chyn-aelod o gatrrawd filwrol ddethol. Gwyddys erbyn hyn – ar sail yr ymchwil – iddo fod yn aelod blaenllaw o seiadau Lambeth a

Cock Lane ar y cyd, ac iddo fod yn brif ddolen gyswllt rhwng y ddwy. Y mae gennym syniad amgenach o lawer o'i amgylchiadau, ei gefndir, ei gysylltiadau a'i ddylanwad o ganlyniad i'r gwaith ymchwil a wnaed ac a gyhoeddwyd.

Er mai cynnen ac anghydfod a roes fod i'r achos Annibynnol cyntaf yn Gravel Lane, sef cangen wreiddiol o achos Wilderness Row, cymharol gydgordiol fu cynnydd yr achosion Cymraeg – y capeli a'r eglwysi – yn Llundain. Twf organig oedd hwnnw ar y cyfan, sef ymateb parod i'r galw yn yr ardaloedd hynny lle ymgartrefai nifer o Gymry. Gellir awgrymu yn ffyddiog ar sail y dystiolaeth fod y capeli a'r eglwysi Cymraeg yn Llundain yn ymwybodol iawn o'u lle fel cadarnleoedd y Gymraeg a'r traddodiadau Cymreig mewn dinas estron, ac y bu iddynt weithredu fel canolfannau cymdeithasol – lawn gymaint â chanolfannau crefyddol – o'r pwys mwyaf i filoedd o Gymry diwreiddiedig. Gellir haeru ymhellach yn rhinwedd y niferoedd a fynychai'r capeli a'r eglwysi yn Llundain eu bod wedi creu eu cymdeithas Gymraeg eu hunain yn seiliedig ar rwydwaith gyhyrog o fannau addoli ar draws y ddinas.

Gwahanol iawn fu twf yr achosion yn Llanelli lle bu nifer ohonynt yn ffrwyth anghydfod – er na fynnai'r haneswyr swyddogol gofnodi hynny. Gellir cynnig sawl rheswm posibl am y duedd i ymgecru, gan gynnwys y crynhoad llethol o ran rhif y mannau addoli mewn tref gymharol fechan. Bu'r duedd i gystadlu'n ddiymatal – ac i godi beiau bron yn ffetisaidd – yn gyfrwng i rannu cynulleidfaoedd, yn enwedig ymhlith yr Annibynwyr. Ar ben hynny, mewn tref Gymraeg ei hiaith, nid oedd gan y capeli yn Llanelli yr un swyddogaeth â chapeli Llundain, sef cynnal bywyd a chymuned Gymraeg mewn dinas estron, er i'r swyddogaeth honno newid wrth i dref Llanelli gael ei Seisnigo'n gyflym yn ail hanner yr ugeinfed ganrif.

Tueddai'r capeli yn Llanelli i fod yn llwythol eu hagwedd – hyd yn oed o fewn yr un enwad – ac fe'u llywodraethwyd yn aml gan lond dwrn o swyddogion a blaenoriaid a fynnai ddal yr awenau am gyfnod maith. Un o nodweddion amlwg capeli ac eglwysi Llundain oedd y trosiant uchel o ran aelodaeth: bu hynny'n gyfrwng i adnewyddu arweinyddiaeth y capeli yn weddol gyson, hyd yn oed yn yr achosion hynny lle bu'r weinidogaeth yn gymharol ddisymud. Diddorol yw nodi bod y weinidogaeth yn Llanelli wedi bod yn llai sefydlog i raddau, a bod nifer o weinidogion wedi ffoi rhag y cecru yn eu capeli trwy dderbyn galwad i Lundain bell. Ac fe dybiai swyddogion capeli Llundain heb os bod y profiad o weinidogaethu yn Llanelli – un o gadarnleoedd Anghydfurfiaeth Cymru – yn fantais ac yn gaffaeliad sicr i unrhyw bregethwr a ddymunai wasanaethu yn Llundain.

Rhwydwaith o gapeli mewn ardal gymharol gywasgedig a geid yn Llanelli. Yr oeddynt i gyd yn perthyn i'r un gymdeithas leol, sef poblogaeth drefol Llanelli, ond effaith y trwch daearyddol oedd hybu cystadleuaeth a thanseilio ymdrechion i gydweithredu. Sefyllfa wahanol iawn a geid yn Llundain, lle bu'r capeli a'r eglwysi yn gwasanaethu eu hardal benodol neu 'bentref' eu hunain. Canlyniad hyn oedd bod mwy o ffocws ar amlygrwydd yr achosion unigol ac ar y bywyd a'r gweithgareddau a gynhelid ganddynt. Ac o gofio awydd naturiol cynifer o Gymry estron i arddel eu diwylliant a'u mamiaith – er bod cynifer, hefyd, cofier, yn barod i ollwng eu cynhysgaeth – ceid ymdrechion llwyddiannus i greu cysylltiadau agos rhwng y capeli a'r eglwysi, ac ar ben hynny rhwng y manau addoli a sefydliadau eraill y Cymry yn Llundain, yn enwedig Clwb Cymry Llundain, Cymdeithas Cymry Ieuainc Llundain a Chymdeithas Ddiwylliannol Cymry Llundain. Bu'r capeli a'r eglwysi Cymraeg yn asgwrn cefn i drwch y gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol ymhlith Cymry Llundain, ac amhosib fyddai tanosod pwysigrwydd y cyfraniad hwnnw.

Yr oedd yr eglwysi Anglicanaidd Cymraeg yn Llundain yn rhan annatod a naturiol o'r gyfundrefn honno, a chan mai yn yr eglwysi – St Paul's, Covent Garden, St Clement Danes, a St Dunstan-in-the-West – y dechreuodd y traddodiad cofnodedig o bregethu yn yr iaith Gymraeg yn Llundain, peth hanfodol oedd eu cynnwys yn *City Mission*. Wedi'r cyfan, datgelodd yr ymchwil ar yr eglwysi fanylion newydd am ystod ac amllder y pregethu ar Ddydd Gŵyl Dewi – ar gyfer eglwyswyr ac Ymneilltuwyr ar y ddeutu – ac am y ddarpariaeth wythnosol o 1720 ymlaen dan ofal Philip Philips, clerigwr y bu bron dim sôn amdano yn y naratif hanesyddol.

Sefyllfa wahanol a gafwyd yn Llanelli, lle bu'r capeli a'r eglwysi yng ngyddfau'i gilydd, a lle bu clerigwyr fel Ebenezer Morris yn eithriadol o elyniaethus i'r achosion Anghydfurfiol. Tarddodd yr achosion hynny – yn unol â'r patrwm ar draws Cymru – o awydd y werin i ymwrthod ag agweddau Eglwys Loegr. Gan hynny gellir cyfiawnhau hepgor hanes eglwysi plwyf tref Llanelli o naratif *Capeli Llanelli*: nid oeddynt yn rhan o'r un rhwydwaith, ac ychydig iawn o gydweithio a fu rhwng y ddau draddodiad crefyddol tan yn gymharol ddiweddar.

Canlyniad hyn oll, felly, yw medru cyflwyno hanes nifer o achosion crefyddol yn Llanelli a Llundain am y tro cyntaf, amlygu agweddau eraill a'u rhoi mewn cyd-destun defnyddiol, a chywiro neu addasu elfennau pwysig o'r naratif.

Ac wrth nodi'r hanes lleol hwn, gellir dirnad rhywbeth yn ogystal am ystod ac amrywiaeth lliwgar bywyd y Cymry yng Nghymru ac yn Llundain, a nodi ei arwyddocâd ar gyfer ein

dealltwriaeth o hanes y genedl. Dim ond trwy geisio deall yr endidau unigol – a’r berthynas rhyngddynt a’u datblygiad – y gellir gwella ein dealltwriaeth o’r cyfanrwydd.

Erys bylchau yn y naratif hwnnw, mae hynny’n ganiataol, ond y mae ein dealltwriaeth o wreiddiau a thwf y capeli a rhai eglwysi yn Llanelli a Llundain rhwng 1714 a 2014 yn fwy manwl a chadarn nag y bu.

9. LLYFRYDDIAETH

DEUNYDDIAU ARCHIFOL

Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Archif y Methodistiaid Calfaidd:

509, 'The Society at Wilderness Row', Daniel Jenkins, 10 March 1800.

13014, Llyfr Ysgol Sul y Cambrian a Crosby Row, 1846-86.

13015, Rhestr aelodau Crosby Row, 1851.

13017, Llyfr Cofnodion Ysgol Sul Falmouth Road, 1893-1906.

26927, Account book (Wilderness Row), 1815-1822.

26940, 'Ychydig atgofion am agoriad Capel Jewin Newydd, Llundain, 1878', Mrs D. R. Williams.

26940a, 'A brief account of the opening of the New Chapel in Jewin Crescent, 25 March 1822.'

26939, 'Hanes Jewin', J. W. Jones (dim dyddiad).

27008, 'An appeal for funds for the re-building of Jewin after its destruction by enemy action, Sept. 1940.'

EZ1/256/23, Correspondence and papers relating to Falmouth Road church, 1886-1982.

99359446402419, The Ministry of the Revd David Rees, Capel Als, 1829-1869, Maurice Loader (photocopy of undated typescript).

99359446002419, The roots of the Llanelli Independent Churches, 1662-1827, Maurice Loader (photocopy of undated typescript).

Archifau eraill:

MS GB 0210 TJEVANS: Manuscript 65 'Dates Relating to London Welsh Societies 1711-1800.'

1521-1858 9933041202419, St Asaph Probate Records (1816), Will of Edward Jones, Lletty Fforddion, Llansannan.

Bangor, Archifau a Chasgliadau Arbennig, Prifysgol Bangor

Bangor MSS 7343/4, R. Owen, 'Ymfudiadau o Gymru i Lundain a hanes y bywyd Cymreig yn Llundain hyd at 1815'

Cambridge, Westminster College, University of Cambridge

Cheshunt College Archives Collection:

MSS 0199, F1-199, 2-3,, 'Letter from Thomas Powell et al at the Lambeth Meeting House to the Countess of Huntingdon, 1 Nov 1772'

Camden Local Studies and Archives

Rate Book records, St Andrew Holborn and St George the Martyr, 1787-1791

London, British Library

Thomas Jones, *The Rise and Progress of the Most Honourable and Loyal Society of Antient Britons* (London: W. Wilkins, 1717).

Jer. Owen, *The goodness and severity of God, in his dispensations, with respect unto the ancient Britains, display'd: in a sermon preach'd to an auditory of Protestant Dissenters, at Haberdasher's Hall in London, on March 1st, 1716* (London: E. Matthews, 1717).

Moses Williams, *Pregeth a barablwyd yn Eglwys grist yn Llundain, Ar ddyddgwyl ddewi, yn y flwyddyn 1717, gan Foses Wiliams, B.C. Ficcer dyfynog yn Sir Frycheiniog* (Llundain: Printwyr y Brenin, 1718).

OIR.283.54, 'Biographical Notes on the East India Company's chaplains to 1858' by S. J. McNally.

London, Borough of Lambeth Archives

Lambeth Archives Ref. 7372, Charles Woolley Collection, 'Swan Yard, Lambeth'.

Lambeth Archives, Charles Woolley Papers, IV/88/4.

London, Lambeth Palace Library

Lambeth MS 272, 'Catalogue of the Inhabitants of the several parishes of London, with the rent of the houses and Tythes paid out of them in order to a new Settlement of Tythes, 1638.'

London, London Metropolitan Archives

ACC/1876/MP/01/174, 'Draft Plan of Charterhouse Property North of the Wilderness, 1739'

DL/C/1377/033, 'Registration of Independent Meeting Place on Wilderness Row in the Parish of Saint James, Clerkenwell, 1788.'

MS 11936/353/544403, Records of Sun Fire Office, 1788.

MS 11936/361/558530, Record of Sun Fire Office, 1789.

MS 11936/366/565297, Records of Sun Fire Office, 1790.

London, National Archives

WO 23/128, 'Muster Roll of the Second Troop of Horse Guards

Commanded by the Right Honourable Charles, Lord Cadogan, for 183 days ending 24 December 1764'.

WO 23/128, 'Royal Hospital Chelsea: Admission Books, Registers and Papers; Muster Rolls 1763–65 and 1766–69'.

WO 23/129, 'Royal Hospital Chelsea: Admission Books, Registers and Papers Muster Rolls; Muster Rolls 1770–76'.

WO 23/140, 'Class Book No 5, from Xmas 1806 to June 1807, Militia, Lettermen, Especial Allowance Men, Blind Men and Garrison Sergeants'.

WO 23/140, 'Class Book No 5, from Xmas 1806 to June 1807, Militia, Lettermen, Especial Allowance Men, Blind Men and Garrison Sergeants'.

PROB 11/1634/269 (1820), Will of Horatio Goodbehere of China Terrace, Lambeth.

Surrey History Centre

QS2/6/1767/EAS/18-20, Dissenters' Certificates

City of Westminster Archives

XX(1256364.1), 'Y Gorlan', Magazine for the Welsh Chapel on Charing Cross Road, 1906-1976.

PAPURAU NEWYDD

Baner ac Amserau Cymru (1857 ymlaen)
Y Bedyddiwr (1840-59)
Y Brython Cymreig (1892-1910)
Cambrian News (1860 ymlaen)
Cardiff and Merthyr Guardian (1845 ymlaen)
Y Celt (1878-1906)
Y Cymro a Celt Llundain (1907-1910)
Cronicl y Cymdeithasau Crefyddol (1843-1910)
Y Drysorfa (1831-1967)
Y Diwygiwr (1835-1910)
Y Dysgedydd (1821-1910)
Y Ddolen, (1925 - 1941)
Yr Efanglydd (1831-1835)
Y Goleuad (1869 ymlaen)
Goleuad Gwynedd (1818-1830)
Y Geninen (1883-1910)
Greal y Bedyddwyr (1817)
Seren Gomer (1814 ymlaen)
Y Tyst (1892 ymlaen)
Llanelly Star (1909 ymlaen)
Llanelly and County Guardian (1863-1947)
Llanelly Mercury (1891-1960)
Y Ford Gron (1930-1935)
London Kelt - Celt Llundain (1895-1904)
London Welshman - Cymro Llundain (1904 ymlaen)
Seren Cymru (1851 ymlaen)
South Wales Daily News (1872-1900)
South Wales Guardian (1960 ymlaen)
South Wales Press (1867-1934)
Y Tyst a'r Dydd (1871-1891)

Y Tyst Cymreig (1867-1870)

Western Mail (1869 ymlaen)

The London Gazette, 12 February 1714, 2.

British Weekly Mercury, 26 February - 5 March 1714/15, 4.

Weekly Journal With Fresh Advices Foreign and Domestick, 5 March 1714/15, 52.

News-Letter, 18 February 1716, 30.

The Stamford Mercury, 14 March 1716, 7.

The London Gazette, 19-23 February 1717, 2.

Weekly Journal, 10 September 1720, 554.

Weekly Journal, 18 February 1721, 694.

London Evening Post, 16-18 March 1736, 2.

Daily Advertiser, 28 June 1745, 1.

London Evening Post, 28-30 July 1757, 5.

Public Advertiser, 9 June 1758, 3.

Public Advertiser, 28 June 1759, 1.

London Evening Post, 20-22 May 1762, 6.

The Gazeteer and New Daily Advertiser, 8 February 1766, 2.

The Daily Advertiser, 15 January 1773, 1.

'Protheroe v Jones' in *Bury and Norwich Post* (4 February 1801), t. 20.

Derby Mercury, 5 February 1801, 3.

Yr Efangylydd, 1 (Gorffennaf 1831), 223.

Cambrian News (18 Chwefror 1853), 5.

Llanelly and County Guardian (25 Tachwedd 1869), 3.

Y Diwygiwr, 36 (Awst 1871), 253-254.

'Wythnos yn Llyndin' gan 'Un Oedd Yno', *Y Celt*, 5 Gorffennaf 1878, 10.

Y Tyst a'r Dydd (7 Ionawr 1881), 7; (1 Awst 1884), 4-5.

South Wales Daily Post (12 Rhagfyr 1895), 4.

W. Harries ('Carnero'), 'Penod Newydd yn Hanes Capel Als', *Y Diwygiwr*, 62 (Gorffennaf 1897), 204-207.

Seren Cymru (28 Medi 1900), 14.

Y Tyst (9 Tachwedd 1910), 4-5.

Y Darian (22 Gorffennaf 1915), 6.

D. R. Hughes, 'Hanes achosion crefyddol Cymreig Llundain', yn *Y Ddolen*, 1/4 (1926), 10-11; 1/9 (1926), 15; 4/1 (1929), 8-9; 9/4 (1934), 5.

D. R. Hughes, *Y Ford Gron*, 1/11 (Medi 1931), 25.

John Cecil-Williams, "Henffych Well, Gymmrodorion", *Y Ford Gron*, 5/7 (Medi 1935), 147.
Llanelly and County Guardian (17 Tachwedd 1938), 2.

Y Tyst (15 Rhagfyr 1938), 12-13.

'A Welsh Chapel', *The Times* (14 September 1940), t. 9.

'The Old Jerusalem in Wind Street', *Llanelly Star* (5 Hydref 1940), 5.

Ioan Brynderi, 'Of Capel Als - A Story of Sturdy Endeavour', *Llanelly and County Guardian* (7 September 1950), 11.

Llanelli Star (20 Medi 1980), 3.

Meurig Owen, 'Preaching the word of God during the swinging sixties' in *Western Mail, Country & Farming* (28 January 1997), 2.

Leslie Able, 'A corner of England that is forever Wales', *Western Mail* (5 November 1997), 11.

DEUNYDDIAU CRAI

Deunyddiau Archifol o'r Capeli/Eglwysi

'English Calvinistic Methodist Association: Minutes 1745-7', in C. E. Welch (ed.), *Two Calvinistic Methodist Chapels, 1743-1811: the London Tabernacle and Spa Fields Chapel*, London Record Society Publications, 11 (1975), 19-35.

'London Tabernacle Minutes: 1746-7', in C. E. Welch (ed.), *Two Calvinistic Methodist Chapels, 1743-1811: the London Tabernacle and Spa Fields Chapel*, London Record Society Publications, 11 (1975), 11-18.

"Spa Fields Chapel Minutes: 1778-81," in C. E. Welsh (ed.), *Two Calvinistic Methodist Chapels, 1743-1811: The London Tabernacle and Spa Fields Chapel* (London: London Record Society, 1975), 46-63.

Llundain, Eglwys Jewin, *Llyfrau Cofnodion Cyfarfod Misol Llundain*, 1913 ymlaen.

Llundain, Eglwys Jewin, *Llyfr Bedyddiadau Wilderness Row a Jewin Crescent*.

(Gweler hefyd: Meurig Owen, 'Llyfr bedyddiadau Eglwys Wilderness Row a Jewin Crescent, Llundain, 1799-1875', yn *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 23 (1999), tt. 63-68).

Llyfr Bedyddiadau Cambrian, Crosby Row a Falmouth Road, 1852 ymlaen.

Llyfr Cofnodion Pwyllgor Eglwys Crosby Row a Falmouth Road, 1882-1928.

Llyfrau Cofnodion yr Eisteddfod, Falmouth Road, 1890 ymlaen.

Hanesion y Capeli/Eglwysi

Llanelli

- Ioan Brynderi, 'The old Jerusalem in Wind Street' (ysgrif anghyhoeddedig, 1940).
- J. Camwy Evans, *Hanes Eglwys Lloyd Street, Llanelli* (Llanelli: Swyddfa'r Mercury, 1937).
- Glenalla, Llanelli 1909-1987: Gwasanaeth Datgorffori'r Eglwys* (Llanelli, 1987).
- Graham W. Hughes, *Goodly Heritage - Greenfield Baptist Church, Llanelly 1858-1958* (Llanelli: Llanelly Mercury, 1958).
- John Elias Jenkins, *Hanes Côr Capel Als yn ystod y can mlynedd diwethaf* (Llanelli: South Wales Press, 1890).
- E. T. Jones a T. R. Jones, *Hanes Capel Sion, Llanelli* (Llanelli: Swyddfa'r Mercury, 1931).
- T. R. Jones, *Sion, Llanelli: Rhai Manylion Hen a Diweddard* (Llanelli: Swyddfa'r Mercury, 1947).
- D. Penry Jones, *Presbyterian Church, Llanelly: A brief account of eighty years of Christian witness* (Llanelli: Presbyterian Church, 1952).
- Maurice Loader (gol.), *Capel Als 1780-1980* (Abertawe: Tŷ John Penry, 1980).
- O. Luther Nicholas, *Eglwys Moriah, Llanelli 1872-1972* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1972).
- Gomer M. Roberts, *Y Capel Newydd, Llanelli 1809-1959* (Llanelli: Swyddfa'r Mercury, 1959).
- Gomer M. Roberts, *Hanes Eglwys y Triniti, Llanelli* (Llanelli: Eglwys y Triniti, 1958).
- Huw Roberts, *Bethania, Llanelli: hanes y gangen hon o Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist 1870-1970* (Llanelli: Capel Bethania, 1970).
- R. Gwylfa Roberts, *Y Tabernacl, Llanelli: Hanes yr Eglwys (amlinelliad)* (Llanelli: South Wales Press, 1908).
- R. Gwylfa Roberts (gol.), *Y Tabernacl, Llanelli: Coflyfr y Dathliad.* (Llanelli: South Wales Press, 1925).
- W. J. Samuel, *The Story of a Church* (Cardiff: Western Mail & Echo, 1955).
- W. H. Whomsley (ed.), *Presbyterian Church Llanelli, Centenary Brochure* (Llanelli: Presbyterian Church, 1972).
- Wacyn Williams, *Hanes Glenalla* (amlinelliad anghyhoeddedig, 1948).

Llundain

- Dathlu Agoriad Capel Lind Road, Sutton*, (Llundain: Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 1965).
- Cyril A. Bevan, 'London's Welsh Churches', in *Province*, III/1 (Easter 1952), 1-5.
- Rita Clark, '100 years at Willesden Green Chapel', *Cymro Llundain* 47/3 (Autumn 1998), 10.
- Geoffrey G. Davies (gol.), *Hanes Clapham Junction, Llundain 1896-1996* (Llundain, Eglwys Clapham Junction, 1996).
- Gwen C. Evans, 'Cau un drws er mwyn agor un arall', *Y Goleuad* CXXX, 31 (2 Awst 2002).
- D. Gwylfa Evans, 'Eglwys Harrow Llundain: (ysgrifau coffa i) Idwal Jones a Morfudd Jenkins', *Y Tyst* (13 Mawrth 2008), 4.
- E. Gwyn Evans, *Y Ganrif Gyntaf 1849-1949* (Llundain: Eglwys Charing Cross Road, 1951).
- Gwen Môn Holt, 'Deugain mlynedd o addoliad yn Eglwys Lind Road, Sutton', *Y Goleuad* (25 Chwefror 2005), 1.
- Eliseus Howells, *Yr Achos yn Lewisham 1899-1949* (Llundain: Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 1949).
- James Hughes, 'Hanes byr, o ddechreu a pharaâd y Trefnyddion Calfinaidd, yn Deptford ger llaw Llundain', yn *Goleuad Cymru* (Mai 1828), tt. 393-396.
- Ifor O. Huws, *Hanes Eglwys Radnor Walk, Llundain (1859-1959)* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1959).
- Ifor E. Jenkins, *Eglwys Bresbyteraidd Cymru Wood Green: Hanes yr Achos 1904-54* (Llundain: Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 1954).
- Morfydd Jenkins, *Hanes Eglwys Gymraeg Harrow 1937-1987* (Llundain, Eglwys Gymraeg Harrow, 1987).
- T. W. Jenkins, 'The Metropolitan Welsh Church' in *Country Quest* (July 2001), 24-25.
- Walter P. John a Gwilym T. Hughes, *Hanes Castle Street a'r Bedyddwyr Cymraeg yn Llundain* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1959).
- Elwyn Jones, 'Cofio Radnor Walk' yn *Y Tyst* (21 Rhagfyr 2006), 11.
- Huw Llewelyn Jones, *Camre Canrif Holloway, Llundain 1865-1965* (Caernarfon: Llyfrfa'r Cyfundeb, 1965).
- Robert Llewellyn Jones, 'A historic corner of London is forever Welsh', *Western Mail 'Country'* (21 January 1997), 5.
- D. Hugh Matthews, *Hanes Tŷ Cwrdd Castle Street 1889-1989* (Llundain: Eglwys y Bedyddwyr Cymraeg, Castle Street, 1989).

Meurig Owen, 'The Welsh Church in Deptford 1800-66', in *Lewisham Local History Society Transactions* (1979), 42-80.

Meurig Owen, *Tros y Bont - Hanes Eglwysi Falmouth Road, Deptford a Parson's Hill, Woolwich, Llundain* (Llundain: Eglwys Jewin, 1989).

Meurig Owen (gol.), *Yr Achos yn Lewisham 1899-1999* (Llundain: Eglwys Gymraeg Lewisham, 1999).

Meurig Owen, *Ymofyn am yr Hen Lwybrau* (Llundain: Henaduriaeth Llundain, 2001).

Oswald Rees Owen, *Moreia, Walthamstow (Hanes yr Achos 1903-1953)* (Llundain: Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 1953).

W. T. Owen (gol.), *Capel Elfed: Hanes Eglwys y Tabernacl, King's Cross* (Abertawe: Gwasg John Penri, 1989).

Gomer M. Roberts, *Y Ddinas Gadarn - Hanes Eglwys Jewin Llundain* (Llundain: Eglwys Jewin, Llundain, 1974).

Herbert J. Roberts, *Hanner Can Mlwyddiant yr Achos yn Ealing Green 1907-57* (Llundain: Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 1957).

John Thickens, 'Y Fam Eglwys' yn *Eglwys Jewin: Hanes ac Atgof* (Llundain: Henaduriaeth Llundain, 1929).

John Thickens, 'Wilderness Row, Llundain', yn *Cylchgrawn Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, XXIV, 4 (Rhagfyr 1939), tt. 121-30.

John Thickens, 'Capel Wilton Square - Y Cychwyniadau' yn *Adroddiad Blynyddol Eglwys Wilton Square, 1935* (Llundain: Henaduriaeth Llundain, 1936), tt. 4-10.

Anthony Williams, 'Willesden Green yn ganmlwydd oed' yn *Cymro Llundain* 47/3 (Hydref 1998), 11.

Llywelyn Williams (gol.), *Hanes Eglwys y Tabernacl, King's Cross 1847-1947* (Llundain: W. Griffiths a'i Frodyr, 1947).

DEUNYDDIAU EILAIDD

- Thomas Allen, *The history and antiquities of the parish of Lambeth* (London: J. Allen, 1826).
- Samuel Bagshaw, *History, Gazetteer and Directory of Kent* (Sheffield: Ridge, 1847).
- T. M. Bassett, *Bedyddwyr Cymru* (Abertawe: Tŷ Ilston, 1977).
- P. Beken and S. Jones, *Dragon in Exile* (London: Springwood Books, 1985).
- Tom Beynon, 'Extracts from the diaries of Howell Harries', yn *Bathafarn*, 9 (1954), tt. 31-37.
- Tom Beynon, *Howel Harris's Visits to London* (Aberystwyth: Cambrian News Press, 1960).
- David Bowen, *Hen Gymeriadau Capel Als, Llanelli* (Llanelli: Mercury, 1881).
- Derek Brechin, *Georgian London (Discovering London No. 6)* (London: Macdonald, 1969).
- Ioan Brynderi, *The old Jerusalem in Wind Street* (Llanelli: Llanelly Star, 1940).
- W. Kemmis Buckley, 'Some aspects of early Nonconformity and early commerce in Llanelli' in *The Carmarthenshire Antiquary* Vol VI (1970).
- Census of Great Britain, 1851: Religious Worship in England and Wales* (London: Routledge, 1854).
- Mary Clement, 'History of the First Two Celebrations of St David's Day in London in 1715 and 1716', in *Wales* 25 (1947), pp. 167-70.
- Hafina Clwyd, *Buwch ar y lein: detholiad o ddyddiaduron Llundain 1957-1964* (Caerdydd: Honno, 1987).
- T. W. H. Crosland, *Taffy was a Welshman* (London: Ewart, 1912).
- Peter Daniels, *In Search of Welshness: Recollections and Reflections* (Talybont: Peter Daniels and Y Lolfa, 2011).
- Ben Davies (gol.), *Llawlyfr Cyfarfodydd Llundain 1937* (Llandysul: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, 1937).
- Ben Davies, 'Dechrau Pregethu Cymraeg yn Llundain' yn *Llawlyfr Cyfarfodydd Llundain 1937* (Llandysul: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, 1937), tt. 32-39.
- Ieuan Davies, *Trwy lygaid Tymblwr - a Gweinidog!* (Abertawe: Ieuan Davies, 2007).
- John E. Davies ('Rhuddwawr'), *Cyfrol Goffa yr Hybarch Esboniwr James Hughes (Iago Trichrug), Llundain* (Dinbych: Gee, 1911).
- John E. Davies ('Rhuddwawr'), *Canmlwyddiant Cymanfa'r Pasc: Methodistiaid Calфинаidd Llundain* (Dinbych: Gee, 1912).
- John Davies, *Hanes Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1993).

Thomas Davies, *Bywyd ac Ysgrifeniadau y Diweddar Barch. D Rees, Llanelli* (Llanelli: Mercury, 1871).

William Davies, *Canmlwyddiant Cymdeithas Genhadol Llundain 1895* (Llundain: Cymdeithas Genhadol Llundain, 1895).

Nathan Dews, *History of Deptford* (London: Simpkin Marshall, 1884).

Hugh Edwards, *Y Deugain Mlynedd Hyn: sef Adgofion mewn cysylltiad â Methodistaeth Llundain* (Aberystwyth: Richard Samuel, 1894).

Huw Edwards, *Tros y Tresi* (Dinbych: Gwasg Gee, 1956).

Huw Edwards, 'Mantell a morthwyl: Sylwadau ar fywyd a gwaith y Parchedigion John Camwy Evans a Daniel Hughes', *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru* (2010-11), tt. 5-18.

John Edwards (ed.), *Footprints of faith: aspects of the origins and growth of Christianity in the Llanelli area* (Llanelli: WEA, 1990).

John Edwards, *Llanelli, Story of a Town* (Llanelli: Llanelli Star, 2001).

T. Elias, *Y Porthmyn Cymreig* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1987).

T. I. Ellis, *Crwydro Llundain* (Llandybie, Christopher Davies, 1971).

T. I. Ellis, *Dilyn Llwybrau* (Llandybie: Christopher Davies, 1967).

T. I. Ellis, *Ym Môr fy Esgyrn* (Lerpwl: Gwasg y Brython, 1955).

Byron Evans, 'Gweinidogaeth i Gymry Llundain', *Cristion* 63 (Maw/Ebr 1994), tt. 11-13.

E. D. Evans, 'John Evans, Bishop of Bangor, 1702-16' in *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, Vol 7 (2001), pp. 44-65.

Gwyneth Francis-Jones, *Cows, Cardis and Cockneys* (Talybont: Y Lolfa, 1984).

J. George, *Eglwys y Bedyddwyr yn y Felinfoel, ger Llanelli: Ei Hanes o'i dechreuad hyd y flwyddyn 1887* (Llanelli: South Wales Press, 1887).

N. Gibbard (gol.), *Llawlyfr Undeb Cylch Llanelli* (Abertawe: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, 1969).

Noel Gibbard, 'The chapel books of Capel Als and Park Church 1745-1900' in *The Carmarthenshire Antiquary*, Vol IX (1973).

H. Griffiths, 'Capel Als' yn *Llawlyfr Ymwelwyr Y Cyfarfodydd Blynyddol* (Abertawe: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, 1999), 11-12.

Peter Hughes Griffiths, *Llais o Lundain: Ysgrifau Myfyrdod* (Lerpwl: Hugh Evans a'i Feibion, 1912).

Rhyddian Griffiths, ‘The Lord’s Song in a Strange Land’, yn *The Welsh In London 1500-2000*, gol. Emrys Jones (Cardiff: University of Wales Press on behalf of the Honourable Society of Cymmrodorion, 2001), 162-63.

D. R. Hughes, *Yma ac Acw* (Dinbych: Gwasg Gee, 1944).

D. R. Hughes, ‘John Wesley a Hen Gapel Crosby Row, Llundain’, yn *Bathafarn*, 4 (1949), tt. 7-13.

Gareth Hughes (ed.), *Looking Around Llanelli with Harry Davies* (Llanelli: Llanelli Star, 1985).

Gareth Hughes (ed.), *A Llanelli Chronicle* (Llanelli: Llanelli Star, 1984).

Gethin Hughes, *Always Be Natural* (Neath: Bryngold Books, 2006).

J. Hughes, *Methodistiaeth Cymru*, Cyfrol II (Gwrecsam: R. Hughes a’i Fab, 1854), tt. 491-493.

J. Hughes, *Methodistiaeth Cymru*, Cyfrol III (Gwrecsam: R. Hughes, 1856), tt. 434-444.

T. Hughes a J. P. Roberts, *Cofiant y Parch. John Evans, Eglwysbach (yn cynnwys ei ‘adgofion’)* (Bangor: Llyfrfa Wesleyaidd, 1903).

B. Humphreys, *Hanes Bedyddwyr Felinfoel: Cyfrol Goffa Dau Can Mlwyddiant 1709-1909* (Llanelli: Swyddfa’r Mercury, 1909).

John Innes, *Old Llanelly* (Cardiff: Western Mail, 1902).

D. E. Jenkins, *The Life of the Rev. Thomas Charles of Bala, Vol II* (Denbigh: Ll. Jenkins, 1908).

Geraint H. Jenkins, ‘Adfywiad Diwylliannol 1660-1760’ yn *Hanes Cymru yn y Cyfnod Modern Cynnar, 1530-1760* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1983).

Geraint H. Jenkins, *The Foundations of Modern Wales 1642-1780* (Oxford: Clarendon Press, 1987).

Geraint H. Jenkins (gol.), *Iaith Carreg Fy Aelwyd (Iaith a Chymuned yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg)* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1998).

R T Jenkins (ed.), *Dictionary of Welsh Biography down to 1940* (London: Honourable Society of Cymmrodorion, 1959).

R. T. Jenkins, *Hanes Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1928).

R. T. Jenkins, *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1933).

- R. T. Jenkins, 'Hywel Harris yn Llundain', yn *Y Traethodydd* XCIV, 410 (1939), tt. 19-30.
- R. T. Jenkins and H. M. Ramage, *A history of the Honorable Society of Cymmrodorion and of the Gwyneddigion and Cymreigyddion Societies, 1751-1951* (London: Society of Cymmrodorion, 1951).
- Michael Jenkins, *The Church Faces Death* (Oxford: OUP, 1999), tt. 69-72.
- David Jones, *Hanes y Bedyddwyr yn Neheubarth Cymru* (Caerfyrddin: John Thomas, 1839).
- Emrys Jones, 'The Welsh in London in the seventeenth and eighteenth centuries', *Welsh History Review*, (10) 4 (1981), pp. 461-479.
- Emrys Jones, 'The Welsh in London in the nineteenth century', *Cambria*, (12) 1 (1985), pp. 149-169.
- Emrys Jones, 'The Welsh language in England, c.1800-1914', in G.H. Jenkins (ed.), *Language and Community in the Nineteenth Century*, (Cardiff, 1998), pp. 231-60.
- Jones, Emrys (ed.), *The Welsh in London 1500-2000* (Cardiff: University of Wales Press, 2001).
- Howard M Jones, *Llanelli Lives* (Llandybïe: Christopher Davies, 2000).
- Hugh Jones, *Hanes Wesleyaeth Gymreig*. (Bangor: Llyfrfa Wesleyaidd, 1911-13).
- John Gwynfor Jones (gol.), *Y Twf a'r Cadarnhau (c.1814-1914) Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru*, Cyfrol III (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2011).
- R. Tudur Jones, *Hanes Annibynwyr Cymru*. (Abertawe: Gwasg John Penri, 1966).
- R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl (Cyfrol 1)* (Abertawe: Tŷ John Penri, 1981).
- R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl (Cyfrol 2)* (Abertawe: Tŷ John Penri, 1982).
- R. W. Jones, *Y Ddwy Ganrif Hyn: Trem ar Hanes y Methodistiaid Calfinaidd o 1735 hyd 1935* (Caernarfon: Llyfrfa'r Cyfundeb, 1935).
- T. Emlyn Jones, *London-Welsh Memories* (Merthyr Tydfil: Merthyr Express, 1943).
- Iorwerth Jones, *David Rees y Cynhyrfwr* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1971).
- C. L. Kingsford, *John Stow's Survey of London, reprinted from the 1603 edition*. (London: Centre for Metropolitan History, 1908).
- R. S. Kirby, *Wonderful Museum: Or, Magazine of Remarkable Characters (Volume 1)* (London: T. Keating, 1803).
- 'Life and Character of the Celebrated Mr Martin Van Butchell' in Kirby's *Wonderful and Scientific Museum: or, Magazine of Remarkable Characters, Vol I* (London: T. Keating, 1803), t. 199.

Dewi F. Lloyd, *Cymry Llundain Ddoe a Heddiw* (Llundain: Undeb Cymdeithasau Diwylliannol Cymraeg, 1956).

Morgan, D. Densil, *The Span of the Cross: Christianity and Society in Wales, 1900-2000* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000).

Prys Morgan, *The Eighteenth Century Renaissance*. (Llandybïe: Christopher Davies, 1981).

Prys Morgan, (ed.), *The Tempus History of Wales*. (Stroud: Tempus Publishing. 2001).

Richard Mudie-Smith (ed.), *The Religious Life of London* (London: Hodder and Stoughton, 1904).

James Morris, *Hanes Methodistiaeth Sir Gaerfyrddin* (Dolgellau: Swyddfa'r Goleud: 1911).

D. Huw Owen, 'Eglwysi Bedyddwyr Llanelli a'r Cylch', *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru* (1991), tt. 1-14.

Geraint Phillips, *Dyn heb ei gyffelyb yn y byd: Owain Myfyr a'i gysylltiadau llenyddol* (Cardiff: University of Wales Press, 2010).

Percy H. Reaney and R. M. Wilson, *A Dictionary of British Surnames* (London: Routledge & K. Paul, 1976).

Gwilym Rees, *Cofiant Y Parch Thomas Johns DD* (Llanelli: Gwasg Deheudir Cymru, 1929).

Thomas Rees a John Thomas, *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru* (5 cyfrol, 1871-1891).

Robert Rhys, *James Hughes, 'Iago Trichrug'* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2007).

W. J. Rhys, *Hanes achos y Bedyddwyr yn y Felin-foel: erbyn dathlu pumed jiwibili codi'r capel cyntaf, 1709-1959* (Llanelli: Eglwys y Felinfoel, 1959).

D. B. Richards a T. Morgan, *Cofiant Y Parch J Rhys Morgan DD (Lleurwg)* (Maesteg: James James, 1908).

Gomer M. Roberts, *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru: Cyfrol 1: Y Deffroad Mawr* (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd, 1973).

Gomer M. Roberts, *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru: Cyfrol 2: Cynnydd y Corff* (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd, 1978).

Huw Roberts, *Cyfres y Dathlu - E T Jones, Llanelli* (Llanelli: Undeb Bedyddwyr Cymru, 1966).

Huw Roberts (gol.), *Atgofion am E T Jones* (Llandysul: Gomer, 1967).

John Roberts, *Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Ymgais at Athroniaeth ei Hanes (Darlith Davies 1930)* (Llundain: Gwasg Gymraeg Foyle, 1931).

R. Gwylfa Roberts (gol.), *Cofiant Dewi Medi* (Llanelli: Swyddfa'r Mercury, 1907).

R. Gwylfa Roberts (gol.), *Undeb yr Annibynwyr Cymraeg: Cyfarfodydd Llanelli, 1929* (Llanelli: Gwasg Deheudir Cymru, 1929), tt. 54-7.

J. Segrott Language, 'Geography and identity: the case of the Welsh in London' in *Social and cultural geography* 2 (3) (Sep 2001), pp. 281-96.

John Thickens, *Howel Harris yn Llundain neu gyfraniad Cymru i'r mudiad Methodistiaidd yn y brifddinas* (Caernarfon: Llyfrfa'r MC, 1938).

M. Wynn Thomas, *In the Shadow of the Pulpit*. (Cardiff: University of Wales Press, 2010).

Thomas Timpson, *Church History of Kent From The Earliest Period To The Year 1858* (London: Ward, 1859).

John Titford, *The Penguin Dictionary of British Surnames* (London: Penguin, 2009).

'Welch Congregation, Lambeth', *The Evangelical Magazine* (1801), t. 373.

Glanmor Williams, 'Two Neglected London-Welsh Clerics' in *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* (1961, Part 1), 23-44.

Glanmor Williams, *Wales and the Reformation* (Cardiff: University of Wales Press, 1997).

Gwyn A. Williams, *The Welsh in their History* (London: Croom Helm, 1982).

Gwyn A. Williams, *When Was Wales?* (London: Penguin Books, 1985).

John Williams, *Cymry Llundain; Yn Cynnwys Braslun Neu Grynoded Byr O'u Hanes* (Caernarfon: John Davies, c. 1867).

John Williams ('JW'), *Hynt Gwerinwr* (Lerpwl: Hugh Evans a'i Feibion, 1943).

John Williams, 'Cymry Llundain' yn *Y Traethodydd* (1855), 234.

John Williams ('Cenadwr Cymreig'), *Cymry Llundain* (Caernarfon: John Davies, c.1867).

G. H. Wilson, *The Eccentric Mirror*, Vol III (London: James Cundee, 1807), 17.

Walter Wilson, *The History and Antiquities of Dissenting Churches and Meeting Houses in London* Vol IV (London: Walter Wilson, 1814).

CYFWELIADAU A CHYFATHREBU

LLANELLI

Y Parchg Pauline Barnett (Hall Street), Medi 2009

Deryth Davies (Capel Als), Medi 2009

Y Parchg Iwan Vaughan Evans (Capel Als), Mawrth 2008 - Medi 2009

Y Parchg Jeffrey Evans (Park Church), Medi 2009

Allan Fewster (Park Church, Presbyterian Church), Medi 2009

Gethin Hughes (Trinity), Medi 2009

Y Parchg W. Esger James (Lloyd Street), Rhagfyr 2008

Y Parchg David Jones (Greenfield), Mawrth 2008 - Medi 2009

Y Parchg Maurice Loader (Capel Als), Awst 2006 - Medi 2009

Y Parchg E. D. Morgan (Soar), Medi 2009

Y Parchg Kathryn Price (Park Church), Medi 2009

Dorena Thomas (Doc a Soar), Medi 2008 - Medi 2009

Y Parchg Peter M. Thomas (Moriah), Medi 2009

Y Parchg Peter Trow (Park Church), Medi 2009

Eryl Williams (Capel Als), Mawrth 2008 - Medi 2009

Gaynor Williams (Capel Als) Medi 2009

Huw Tregelles Williams (Bethel, Sion), Medi 2009

Y Parchg W. Raymond Williams (Tabernacl), Rhagfyr 2008

Vivian a Janet Williams (Bethel), Mawrth 2008 - Medi 2009

Y Parchg Denis Young (Caersalem), Mawrth 2009 - Medi 2009

LLUNDAIN

Eirlys Bebb (Mile End, Holloway, Cockfosters), Mehefin 2013 - Medi 2014
Michael Buck (Dewi Sant, St Padarn, St Rhystyd, St Mair), Medi 2014
Iola Bilson (Willesden a Shirland Road), Mehefin 2013 - Medi 2014
Y Parchg Richard Brunt (Jewin), Mehefin 2013 - Medi 2014
Rita Clark (King's Cross, Willesden), Mehefin 2013 - Medi 2014
Lowri Williams (Clapham Junction, Walham Green, Sutton), Medi 2014
Y Parchg Ieuan Davies (King's Cross), Mehefin 2013 - Medi 2014
Tom a Myra Davies (Wembley, Harrow), Medi 2014
Myra Dawson (Jewin), Mehefin 2013 - Medi 2014
Huw Edwards (Borough), Medi 2014
Gwen Evans (Wood Green, Cockfosters), Mehefin 2012
Gareth Ellis (Wood Green, Cockfosters), Mehefin 2012
Y Parchg D. Gwylfa Evans (King's Cross, Radnor Walk, Borough, Harrow), Medi 2014
Gwyn Evans (Charing Cross Road, Clapham Junction), Medi 2014
Margaret Felix (Clapham Junction), Mehefin 2012
Y Parchg Ddr Aneirin Glyn (St Benet), Mehefin 2013 - Medi 2014
Eiri Jones (Borough), Mehefin 2013 - Medi 2014
Graham Griffiths (Ealing a Hammersmith), Mehefin 2013 - Medi 2014
Siôn Griffiths (Dewi Sant, St Benet, St Padarn, St Rhystyd), Medi 2014
Lloyd Lloyd (St Benet, Dewi Sant), Medi 2014
Audrey Morgan (Willesden, Shirland Road), Mehefin 2012
Bethan Morgan (Willesden), Mehefin 2013 - Medi 2012
Glyn Morgan (Clapham Junction, Battersea Rise), Medi 2012
Tom Morgan (Willesden), Llinos Morris (Jewin), Medi 2012
Y Parchg Dafydd H. Owen (Jewin, Cockfosters, Chiltern Street), Mehefin 2013 - Medi 2014
Glenys Pashley (Walham Green), Medi 2014
Eben Phillips (Jewin, Charing Cross Road), Mehefin 2013 - Medi 2014
Gwynne Pickering (Charing Cross Road, Jewin), Mehefin 2013 - Medi 2014
Tony Platt (Walthamstow, Leytonstone, Jewin), Mehefin 2013 - Medi 2014
Margaret Lloyd Price (Holloway a Wood Green) Medi 2012

Geraint Pritchard (Jewin), Mehefin 2013 - Medi 2014

Ivor Rees (Jewin), Mehefin 2013 - Medi 2014

John Samuel (Castle Street, Woolwich), Mehefin 2013 - Medi 2014

Hywel ac Elinor Thomas (Clapham Junction a Sutton), Mehefin 2013 - Medi 2014

Catrin Unwin (Falmouth Road), Medi 2014

Gwen Wildman (Sutton), Medi 2014

Y Parchg Anthony Williams (Walham Green, Clapham Junction, Sutton), Mehefin 2013 -
Medi 2014

Bowen Williams (Wood Green, Cockfosters), Mehefin 2013 - Medi 2014

David Williams (Falmouth Road), Mehefin 2013 - Medi 2014